ofgem

Gwneud gwahaniaeth gwirioneddol
**i ddefnyddwyr ynni**



# 2019-20

Swyddfa'r Marchnadoedd Nwy a Thrydan (Ofgem)

# Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon

HC 480

ofgem

Gwneud gwahaniaeth gwirioneddol
**i ddefnyddwyr ynni**

# 2019-20

Swyddfa'r Marchnadoedd Nwy a Thrydan (Ofgem)

# Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon

(Am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2019)

Cyflwynwyd y cyfrifon i Dŷ'r Cyffredin yn unol ag adran 6(4) o Ddeddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000

Cyflwynwyd yr adroddiad blynyddol i Dŷ'r Cyffredin drwy Orchymyn Ei Mawrhydi

Gorchmynnwyd gan Dŷ'r Cyffredin i'w argraffu ar 21 Gorffennaf 2020

HC 480

OGL

© Hawlfraint y Goron 2020

Mae'r cyhoeddiad hwn yn drwyddedig o dan delerau Trwydded Llywodraeth Agored f3.0 oni nodir fel arall. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3 neu ysgrifennwch i'r cyfeiriad canlynol: Information Policy Team, The National Archives, Kew, London TW9 4DU, neu anfonwch e-bost: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk.

Lle rydym wedi nodi bod unrhyw wybodaeth yn hawlfraint i drydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd deiliaid yr hawlfraint dan sylw.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn www.gov.uk/official-documents

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch y cyhoeddiad hwn i'r cyfeiriad canlynol: Ofgem, 10 South Colonnade, Canary Wharf, London, E14 4PU.

ISBN 978-1-5286-1973-8

CCS0520627254 07/20

Argraffwyd ar bapur sy'n cynnwys o leiaf 75% o gynnwys ffeibr wedi'i ailgylchu

Argraffwyd yn y DU gan Williams Lea Group ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi

# Cynnwys


## Adroddiad ar Berfformiad

Rhagair y Cadeirydd ..... 5

Adroddiad y Prif Swyddog Gweithredol ..... 6

Pennod 1: Sicrhau bod marchnadoedd manwerthu yn gweithio i bawb ..... 10

Pennod 2: Galluogi marchnadoedd a threfniadau systemau'r dyfodol ..... 12

Pennod 3: Parodrwydd a pherfformiad rhwydweithiau ..... 17

Pennod 4: Rhagoriaeth mewn swyddogaethau statudol a chraidd ..... 20

Pennod 5: Ein rhanddeiliaid ym Mhrydain Fawr ..... 24

Pennod 6: Adroddiad ar yr Effaith ar Ddefnyddwyr ..... 25

Pennod 7: Adroddiad Cynaliadwyedd ..... 28

## Adroddiad ar Atebolrwydd ..... 35

## Adroddiad ar Atebolrwydd Seneddol ac Archwiliad ..... 60

## Cyfrifon Adnoddau ..... 69

## Datganiad Ymddiriedaeth ..... 89

## Atodiadau

**Atodiad I** - Dangosyddion Perfformiad Allweddol ..... 103

**Atodiad II** - Ymchwiliadau a Chamau Gorfodi 2019-20 ..... 105

**Atodiad III** - Penodeion nad ydynt ar y gyflogres ..... 111

**Atodiad IV** - Tmser cyfleuster undeb llafur ..... 112

**Atodiad V** - Gofynion statudol o dan Adran V o Ddeddf Cyfleustodau (2000) ..... 113

# Amdanom ni

**Ofgem yw rheoleiddiwr ynni annibynnol Prydain Fawr.** Rydym yn gweithio i ddiogelu defnyddwyr, yn enwedig pobl mewn sefyllfa fregus, drwy sicrhau eu bod yn cael eu trin yn deg ac yn cael budd o amgylchedd glanach a gwyrddach.

Er mwyn gwneud hyn, o dan ein gweledigaeth strategol rydym yn ymrwymo i'r canlynol:

- Diogelu defnyddwyr, yn enwedig y rhai mewn sefyllfa fregus, drwy fynd i'r afael ag arferion diegwyddor a sicrhau eu bod yn cael eu trin yn deg.
- Hwyluso ymdrechion i ddatgarboneiddio er mwyn creu'r economi sero net rataf i ddefnyddwyr.
- Galluogi cystadleuaeth ac arloesedd, gan ostwng prisiau a chreu cynhyrchion a gwasanaethau newydd o ganlyniad i hynny.

# Rhagair y Cadeirydd
## Martin Cave

Bu'r 12 mis diwethaf yn eithriadol o brysur i'r sector ynni. Yn enwedig yn ddiweddar, wrth i ni droi ein sylw at gydweithio'n agos â'r sector a'n partneriaid yn y llywodraeth er mwyn sicrhau y caiff defnyddwyr eu diogelu drwy gydol argyfwng y Coronafeirws (Covid-19). Hoffem ddiolch i'r staff yn Ofgem a'r rhai sy'n gweithio ym mhob rhan o'r sector, yn enwedig y peirianwyr ac aelodau eraill o staff ar y rheng flaen, am y ffordd y maent wedi ymateb i'r her hon ar ran y cartrefi a'r busnesau sy'n dibynnu ar ynni fel gwasanaeth hanfodol yn ystod y cyfnod anodd hwn.

Er i ni ganolbwyntio ar argyfwng Covid-19 fel blaenoriaeth dros yr ychydig fisoedd diwethaf, edrychwn ymlaen at gefnogi'r adferiad drwy ganolbwyntio unwaith eto ar yr heriau parhaus a wynebir gan y sector ynni. Nodwyd ein dull strategol o ymdrin â'r heriau hyn fis Gorffennaf diwethaf yn ein Naratif Strategol, sy'n cwmpasu'r cyfnod 2019 i 2023. Mae'n nodi tair blaenoriaeth strategol Ofgem, sef rhoi'r un flaenoriaeth i ddatgarboneiddio â diogelu defnyddwyr, a galluogi cystadleuaeth ac arloesedd; nodwyd hefyd ein gweledigaeth ar gyfer sefydliad mwy ystwyth i gyflawni'r blaenoriaethau hyn.

Roeddwn yn falch iawn pan ddechreuodd Jonathan Brearley ar ei gyfnod o bum mlynedd fel ein Prif Swyddog Gweithredol newydd ym mis Chwefror, i'n tywys drwy'r pum mlynedd nesaf drwy arwain ein blaenoriaeth gyntaf o ddiogelu defnyddwyr heddiw a helpu'r sector i greu system ynni carbon isel i genedlaethau'r dyfodol.

Yn y cyfnod byr y mae wedi arwain y sefydliad, mae Jonathan eisoes wedi amlinellu rhaglen uchelgeisiol, nid yn unig i sicrhau bod Ofgem yn chwarae rôl lawn yn y gwaith o baratoi'r ffordd i'r sector ynni ddatgarboneiddio ar y gost isaf i ddefnyddwyr, ond hefyd yn y gwaith o foderneiddio a gwella ein ffyrdd o weithio fel sefydliad.

Rwy'n falch iawn hefyd o groesawu Myriam Madden a Barry Panayi i Fwrdd Ofgem, y mae'r naill a'r llall eisoes wedi gwneud cyfraniad amhrisiadwy. Mae'n bleser mawr gennym eu croesawu fel cydweithwyr.

Rwy'n hyderus y bydd yr arweinyddiaeth newydd hon, ar lefel y bwrdd a'r lefel weithredol, yn paratoi Ofgem yn dda er mwyn iddo sicrhau'r canlyniadau rydym yn ceisio eu cyflawni dros ddefnyddwyr yn y cyfnod eithriadol hwn. Yn ogystal â sicrhau bod defnyddwyr yn cael gwerth da a'u trin yn deg gan gyflenwyr ynni, rydym oll yn benderfynol o ddangos sut y gall trefn reoleiddio annibynnol helpu i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd, a gwneud hynny mewn ysbryd o gydgysylltu a chydweithredu, y gwelwyd gwerth hynny drwy gydol argyfwng Covid-19.

Hoffwn hefyd fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch i Dermot Nolan ar ran y bwrdd am ei gyfraniad enfawr fel ein Prif Weithredwr.

Yn ystod y flwyddyn diwethaf, mae Keith Lough hefyd wedi gadael y Bwrdd. Yn ei saith mlynedd fel aelod o'r Bwrdd, ac fel Cadeirydd ein Pwyllgor Archwilio a Risg, gwnaeth Keith gyfraniad gwych i'r sefydliad. Rydym yn diolch iddo am hyn ac yn dymuno'n dda iddo ar gyfer y dyfodol. Edrychaf ymlaen at weithio gyda chydweithwyr yn Ofgem, y llywodraeth, y sector ynni a chwsmeriaid ynni ar yr heriau pwysig a wynebwn heddiw ac yn y dyfodol.



**Martin Cave**
Cadeirydd



# Adroddiad y Prif Swyddog Gweithredol
## Jonathan Brearley

Ym mis Chwefror, dechreuais fy nghyfnod o bum mlynedd fel Prif Swyddog Gweithredol Ofgem. Mae'n fraint fawr ymgymryd â'r rôl, ac yn gyfrifoldeb mawr, yn enwedig ar yr adeg dyngedfennol hon.

Dros yr ychydig fisoedd diwethaf, rydym oll wedi gweld effaith eang y coronafeirws ar ein bywydau a'r bobl o'n cwmpas. Hoffwn unwaith eto ddiolch i bawb sy'n gweithio yn Ofgem a thrwy'r diwydiant cyfan i ymateb i'r argyfwng ar yr adeg anodd hon.

Rydym wedi bod yn gweithio'n agos gyda'r llywodraeth, y diwydiant ynni, cyrff defnyddwyr a rhanddeiliaid eraill, ac yn cydweithredu â nhw, er mwyn diogelu defnyddwyr drwy gydol y cyfnod hwn. Mae hyn wedi golygu ailflaenoriaethu ein rhaglen waith ein hunain a gweithio gyda'r diwydiant i sicrhau ei fod yn gallu canolbwyntio ar ddiogelu cwsmeriaid, cadw staff yn ddiogel a chynnal sicrwydd a dibynadwyedd o'r radd flaenaf ein cyflenwadau ynni.

Erys ein prif amcan – o ran ymateb i'r coronafeirws a'n gwaith ehangach – yn ddigyfnewid: diogelu buddiannau defnyddwyr heddiw ac yn y dyfodol. Rydym wedi cymryd nifer o gamau gweithredol allweddol dros y flwyddyn ddiwethaf er mwyn cyflawni hyn:

### Hwyluso sero net ar y gost isaf i ddefnyddwyr:

Mae diogelu defnyddwyr yn cynnwys helpu i gyflawni'r targed sero net. Ar fy niwrnod cyntaf fel Prif Swyddog Gweithredol, cyhoeddwyd ein Cynllun Gweithredu Datgarboneiddio cyntaf erioed. Mae'n nodi'r camau rydym yn eu cymryd i helpu'r sector ynni sicrhau sero net a rhannu cost system ynni carbon isel yn deg rhwng defnyddwyr heddiw a defnyddwyr y dyfodol.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae'r cynlluniau ynni adnewyddadwy a gyflawnwyd gennym ar ran ein partneriaid yn y llywodraeth, gwerth dros £9bn y flwyddyn, hefyd wedi parhau i wneud cyfraniad sylweddol at ddatgarboneiddio ynni, yn ogystal â chost ynni i rai o'r bobl mewn sefyllfa fregus iawn.

### Cynnal sicrwydd cyflenwad:

Mae cynnal sicrwydd a dibynadwyedd ein cyflenwad ynni yn hanfodol i ddefnyddwyr. Ym mis Awst 2019, amharwyd ar gyflenwad trydan dros filiwn o ddefnyddwyr trydan oherwydd toriad pŵer. Defnyddiwyd ein pwerau i ganfod yr amgylchiadau a'r hyn a achosodd y toriad a'r gwersi y gellir eu dysgu er mwyn gwella cadernid rhwydwaith ynni Prydain Fawr.

Er mwyn ateb y galw o ran system ynni'r dyfodol, rydym wedi parhau i ddatblygu diwygiadau i daliadau'r rhwydwaith trydan er mwyn sicrhau bod rhwydweithiau'n cael eu defnyddio'n effeithlon ac yn hyblyg ac yn galluogi defnyddwyr i gael budd o dechnolegau a gwasanaethau newydd. Eleni, rydym hefyd wedi cadarnhau'r fframwaith y byddwn yn ei ddefnyddio i bennu'r rheolaethau prisiau nesaf ar gyfer rhwydweithiau dosbarthu Prydain Fawr, yn ogystal â'r fethodoleg ar gyfer cyfrifo'r cylch nesaf o reolaethau prisiau rhwydwaith ar gyfer y rhwydweithiau trawsyrru a dosbarthu nwy. Gyda'i gilydd, bydd y rhain yn galluogi cwmnïau rhwydwaith i barhau i weithredu rhwydwaith diogel a chadarn ac yn helpu i sicrhau economi sero net am y gost isaf i ddefnyddwyr.

### Diogelu defnyddwyr:

Wrth gwrs, mae diogelu defnyddwyr, yn enwedig y rhai mewn sefyllfa fregus, drwy fynd i'r afael ag arferion diegwyddor a sicrhau eu bod yn cael eu trin yn deg, yn dal i fod yn greiddiol i rôl Ofgem. Eleni, cyhoeddwyd ein Strategaeth ar gyfer Defnyddwyr mewn Sefyllfa Fregus, sy'n nodi ein blaenoriaethau er mwyn sicrhau bod defnyddwyr sydd mewn sefyllfa fregus yn cael eu cefnogi ac yn cael canlyniadau teg wrth i'r farchnad barhau i ddatblygu.

Rydym hefyd wedi cyflwyno iawndal awtomatig i ddefnyddwyr sy'n cael problemau wrth newid cyflenwr, wedi cyflwyno profion newydd llym i gyflenwyr sy'n ymuno â'r farchnad, ac wedi nodi ein cynigion ar gyfer gwiriadau ariannol a phrofion i gyflenwyr sy'n bodoli eisoes er mwyn gwella safonau gwasanaeth cwsmeriaid a lleihau'r risg o fethiant cyflenwyr.

Lle mae cyflenwyr wedi peidio â masnachu, rydym wedi cymryd camau cyflym i ddiogelu eu cwsmeriaid a'u trosglwyddo i gyflenwr newydd. A lle mae cwmnïau ynni wedi methu â rhoi gwasanaeth priodol i'w cwsmeriaid, rydym wedi cymryd camau cadarn a phenderfynol, gan sicrhau dros £60 miliwn mewn dirwyon a thaliadau unioni i ddefnyddwyr.

Mae ein gallu i wneud unrhyw agwedd ar y gwaith hwn yn dibynnu ar effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a chadernid ein systemau, ein prosesau, ein hadnoddau ac, yn anad dim, ein pobl. Rwy'n falch iawn o arwain grŵp o gydweithwyr mor dalentog ac ymrwymedig. Iddynt hwy – a'r cwsmeriaid a wasanaethwn – rwy'n benderfynol o sicrhau bod Ofgem mor effeithiol â phosibl fel sefydliad. Mae nifer o feysydd lle mae'n rhaid i ni wella, yn bennaf o ran ymateb i'r datbygiadau diweddaraf mewn sector sy'n newid mor gyflym a sicrhau bod ein systemau a'n prosesau mewnol mor gadarn ag y bo modd. Fel Prif Swyddog Gweithredol, rwy'n benderfynol y byddwn yn gwneud hynny.

Wrth edrych yn ôl dros y flwyddyn diwethaf, mae'n rhaid i mi dalu teyrnged i'm rhagflaenydd, Dermot Nolan, a adawodd Ofgem ar ôl chwe blynedd fel Prif Swyddog Gweithredol. Gwnaeth gyfraniad enfawr i waith Ofgem, yn enwedig o ran sicrhau bod Ofgem yn gwneud popeth o fewn ein gallu i gefnogi defnyddwyr mewn sefyllfa fregus.

Eleni, rydym hefyd wedi ffarwelio â'n Prif Swyddog Gweithredu Sarah Cox a'n Prif Economegydd Joe Perkins. Hoffem ddiolch i'r ddau am eu gwasanaeth eithriadol a dymuno'n dda iddynt yn y dyfodol.

Bu'n bleser gennym groesawu Neil Kenward i Ofgem, fel ein Cyfarwyddwr Strategaeth a Datgarboneiddio newydd.

Mae'r argyfwng presennol yn ein hatgoffa nid yn unig pa mor hanfodol yw'r diwydiant ynni i les cwsmeriaid heddiw, ond hefyd ei bwysigrwydd i ddyfodol economaidd ac amgylcheddol y DU, yn enwedig wrth i'r wlad adfer o'r pandemig. Edrychaf ymlaen at weithio gyda chi i gyd yn y misoedd a'r blynyddoedd i ddod ar y cyfleoedd a'r heriau anhygoel sydd o'n blaen.



**Jonathan Brearley**
Prif Swyddog Gweithredol



# Adroddiad ar Berfformiad

## Trosolwg

**Diben ein hadroddiad ar berfformiad yw disgrifio ein gwaith yn ystod 2019-20 tuag at gyflawni ein hamcanion, ynghyd â'n dull strategol a'r prif risgiau a wynebwyd gennym.**

Fel rheoleiddiwr ynni annibynnol Prydain Fawr, diffinnir ein blaenoriaethau gan ein hamcan craidd, sef diogelu buddiannau defnyddwyr ynni ar hyn o bryd ac yn y dyfodol. Mae hyn yn llywio'r gwaith a wnawn ac yn helpu defnyddwyr i gael budd o'r canlynol:

- **Biliau is**
- **Llai o effeithiau ar yr amgylchedd**
- **Dibynadwyedd a diogelwch gwell**
- **Ansawdd gwasanaeth gwell**
- **Canlyniadau cymdeithasol gwell**

Yn ystod 2019-20, canolbwyntiodd ein gwaith ar bedair blaenoriaeth allweddol sy'n sicrhau'r canlyniadau cadarnhaol hyn i ddefnyddwyr. Roedd ein blaenoriaethau allweddol fel a ganlyn:

- **Sicrhau bod marchnadoedd manwerthu yn gweithio i bawb**
- **Galluogi marchnadoedd a threfniadau systemau'r dyfodol**
- **Parodrwydd a pherfformiad rhwydweithiau**
- **Rhagoriaeth yn ein swyddogaethau statudol a chraidd**

Yn ogystal â'r blaenoriaethau hyn, roedd gennym ddwy flaenoriaeth gyffredinol arall yn 2019-20. Yn gyntaf, gwnaethom ymateb i benderfyniad y Deyrnas Unedig (y DU) i adael yr Undeb Ewropeaidd (UE), gyda'r nod o sicrhau y byddai ein fframwaith rheoleiddio yn effeithiol mewn nifer o senarios posibl wrth i'r DU adael yr UE. Yn ail, gwnaethom ganolbwyntio, ac rydym yn parhau i ganolbwyntio, ar sicrhau y gallai'r diwydiant ynni ymateb yn effeithiol i argyfwng Covid-19. Er mwyn gwneud hyn, aethom ati i gydweithio â'r llywodraeth, y diwydiant ynni, sefydliadau defnyddwyr a rhanddeiliaid eraill, i ddiogelu defnyddwyr, yn enwedig y rhai mewn sefyllfa fregus, a chynnal cyflenwad trydan a nwy Prydain.

**Mae ein cyflawniadau allweddol a'n meysydd o gynnydd yn ystod y flwyddyn yn cynnwys:**

- Parhau i ddiogelu 11 miliwn o ddefnyddwyr drwy'r cap ar brisiau tariffau diofyn (tudalen 14), gan arbed tua £75-£100 i deuluoedd ar filiau tanwydd deuol, yn 2019, gwerth cyfanswm o tua **£1 biliwn**
- Sicrhau tua **£60 miliwn** drwy ein gweithgaredd gorfodi, gan gynnwys ein cosb gyntaf erioed o dan reolau marchnadoedd cyfanwerthu REMIT, a £44 miliwn oddi wrth Cadent, sef y swm uchaf erioed, am adael preswylwyr mewn blociau tŵr uchel heb nwy
- Parhau i sicrhau parhad cyflenwad ynni i gwsmeriaid cyflenwyr sydd wedi methu drwy naw proses **Cyflenwr Pan Fetho Popeth Arall** (tudalen 20), sy'n gweithio i wella cadernid ariannol ac ansawdd gwasanaeth cyflenwyr drwy ein hadolygiad o drwyddedu cyflenwyr
- Cyhoeddi ein Strategaeth ar gyfer Defnyddwyr mewn **Sefyllfa Fregus** 2025, gyda'r nod o gyflwyno rheolau newydd i helpu'r rhai sy'n wynebu'r risg o hunanddatgysylltu
- Helpu 85 o sefydliadau gwahanol i ddeall y fframwaith rheoleiddio ar gyfer y sector ynni drwy ein gwasanaeth Cyswllt Arloesi, fel y gallant dreialu cynhyrchion, gwasanaethau a modelau busnes newydd (tudalen 13)
- Cadarnhau'r ffordd y byddwn yn cyfrifo'r cylch nesaf o reolaethau prisiau rhwydwaith, a ddylai arbed £6 biliwn i ddefnyddwyr yn ystod RIIO-2 (tudalen 18)
- Penodi tri chynigydd newydd o dan ein cyfundrefn trawsyrru ar y môr i berchenogion, a fydd yn arwain at tua **£1.2 miliwn** o fuddsoddiad a **1.5 Gigawatt** o ran trydan adnewyddadwy cysylltiedig a gynhyrchir
- Gwneud penderfyniad terfynol ar ein hadolygiad o daliadau wedi'u targedu, sy'n golygu y caiff cost cynnal y grid trydan ei rhannu'n decach ac y bydd defnyddwyr yn arbed **£300 miliwn**, o 2021
- Prosesu dros **13,000** o achrediadau ar gyfer ein cynllun Cymhelliant Gwres Adnewyddadwy Domestig a **1,299** ar gyfer y cynllun annomestig, ynghyd â mwy na **250,000** o fesurau Cwmni Ynni (tudalen 22).

Hefyd, lansiwyd ein cynllun Gwarant Allforio Clyfar, a thrwy ein gwaith sicrwydd, ataliwyd gwallau gwerth dros **£600 miliwn** mewn cesiadau o dan y cynllun.

Cyhoeddwyd hefyd ein Naratif Strategol ym mis Gorffennaf 2019, a oedd yn nodi blaenoriaethau strategol Ofgem fel a ganlyn: diogelu defnyddwyr; datgarboneiddio am y gost isaf; a helpu i sicrhau y caiff y rhain eu cyflawni'n effeithiol, gan alluogi cystadleuaeth ac arloesedd. Mae'r blaenoriaethau hyn eisoes yn llywio ein gwaith, fel y nodwyd, er enghraifft, yng Nghynllun Gweithredu Datgarboneiddio Ofgem, a gyhoeddwyd ym mis Chwefror eleni.

Fel rhan o'n gwaith tuag at sicrhau'r canlyniadau uchod i gwsmeriaid a blaenoriaethau gwaith allweddol, parhawyd i fonitro a lliniaru risg i'r gwaith o gyflawni ein hamcanion strategol a gweithredol. Yn ystod blwyddyn pan ad-drefnodd Ofgem ei strwythur mewnol, gwelsom bwysau cyfunol ar ein rheolaethau mewnol, yr ydym yn ymrwymedig i'w gwella. Ceir rhagor o fanylion am ein gwaith rheoli risg yn ystod y flwyddyn ar dudalen 42.

Mae ein Dangosyddion Perfformiad Allweddol (DPAau) ar gael yn Atodiad I (gweler tudalen 103).

# Pennod 1: Sicrhau bod marchnadoedd manwerthu yn gweithio i bawb

## Ein nod

Mae defnyddwyr yn dod i gysylltiad â'r system ynni yn gyntaf oll drwy'r farchnad fanwerthu. Ein nod yw bod y farchnad yn sicrhau canlyniadau da i bob defnyddiwr, p'un a ydynt yn ymgysylltu i wneud penderfyniadau gweithredol i newid eu cyflenwr neu eu tariff ai peidio. Yn ymarferol, mae hyn yn golygu sicrhau marchnad deg, sy'n gweithredu, a gwelliannau sylweddol yn y mesurau i ddiogelu defnyddwyr.

Roedd dwy agwedd ar ein gwaith i sicrhau bod marchnadoedd manwerthu yn gweithio i bawb, yn ystod 2019-20:

**A. Gwella'r trefniadau trwyddedu presennol i ddiogelu defnyddwyr a sicrhau bod beichiau rheoleiddiol yn gymesur**

### Adolygiad o drwyddedu cyflenwyr

Ym mis Mehefin 2018, cyhoeddwyd ein bwriad i adolygu trefniadau trwyddedu cyflenwyr ynni er mwyn sicrhau bod mesurau diogelu priodol ar waith i'w gwneud yn llai tebygol y bydd cyflenwr yn gadael y farchnad mewn ffordd anhrefnus, ac effaith hynny, a gwasanaeth cwsmeriaid gwael. Mae'r Adolygiad o Drwyddedu Cyflenwyr yn cwmpasu amodau ar gyfer ymuno â'r farchnad, gofynion parhaus a threfniadau ymadael. Ymgynghorwyd ar newidiadau i'r gofynion trwyddedu i gyflenwyr yn ystod y cam cyntaf o'r adolygiad, a gwblhawyd yn 2019.

Arweiniodd hyn at drefniadau newydd i gyflenwyr ynni sy'n ymuno â'r farchnad, a ddaeth i rym ym mis Gorffennaf 2019, drwy greu Rheoliadau Cymwysiadau Nwy a Thrydan newydd. Mae'r trefniadau newydd yn cynnwys gofynion ychwanegol ar newydd-ddyfodiaid i ddangos bod ganddynt ddigon o adnoddau i ymuno â'r farchnad yn ôl eu bwriad a phrofi eu bod yn deall y trefniadau rheoleiddiol a'u rhwymedigaethau. Mae'r trefniadau newydd hefyd yn cynnwys prawf 'addas a phriodol' cryfach i'r sawl sy'n gwneud cais am drwydded.

Rydym wedi parhau â'n gwaith ar drefniadau parhaus a threfniadau ymadael drwy gydol y flwyddyn, gan ddatblygu pecyn o gynigion gyda'r bwriad o godi safonau presennol o ran cadernid ariannol a gwasanaeth cwsmeriaid yn y farchnad gyflenwi ac adolygu ein trefniadau ymadael, ac ymgynghori arno. Nod y cynigion hyn yw sicrhau bod gan gyflenwyr brosesau rheoli risg effeithiol ar waith; cynnal trefniadau llywodraethu priodol a mwy o atebolrwydd a chynyddu trosolwg Ofgem o drefniadau'r farchnad.

Rydym yn disgwyl symud ymlaen i ymgynghoriad statudol i ystyried pecyn cynhwysfawr o fesurau a fydd o fudd i gwsmeriaid drwy godi safonau yn y meysydd hyn.[1] Roeddem wedi bwriadu cyhoeddi'r ymgynghoriad hwn ym mis Mawrth 2020 ond bu oedi o ganlyniad i Covid-19. Byddwn yn anelu at roi trefniadau newydd ar waith yn gyflym lle y gallwn a lle y bo modd, er mwyn sicrhau bod rhwymedigaethau a mesurau newydd ar waith erbyn y gaeaf eleni, gan gynnwys egwyddor lefel uchel newydd i ysgogi cyflenwyr i gymryd camau sy'n lliniaru maint y costau i'w cilyddu os bydd methiant. Byddwn yn parhau i adolygu amseriad ein gwaith pellach ar gynigion diogelwch cilyddu cost, a pha fesurau ychwanegol a all fod yn briodol i adeiladu ar yr egwyddor lefel uchel newydd arfaethedig hon.

### Microfusnesau a'r farchnad ynni

Ym mis Mai 2019, cyhoeddwyd adolygiad strategol o farchnad ynni microfusnesau, er mwyn deall y problemau a wynebir gan ficrofusnesau yn well a mynd i'r afael â nhw, fel y gallant fod yn rhan o farchnadoedd manwerthu cystadleuol a sicrhau lefelau diogelwch digonol.

Mae cymhlethdod yn y farchnad – gyda'i hamrywiaeth eang o gontractau a phrinder gwybodaeth hygyrch am brisiau – yn golygu ei bod yn anodd ac yn gostus i rai microfusnesau ymgysylltu â'r farchnad er mwyn dod o hyd i well cytundeb.

[1] Yng ngoleuni Covid-19, rydym wedi penderfynu gohirio cyhoeddi'r ymgynghoriad statudol.

Yn sgil cyfraniadau gan randdeiliaid, rydym wedi bod yn datblygu cynigion polisi manwl i fynd i'r afael â'r prif broblemau a nodwyd gennym drwy'r adolygiad. Bwriadwn gyhoeddi ymgynghoriad polisi ar y cynigion hyn ar ôl argyfwng Covid 19.

**B. Deall lle nad yw anghenion defnyddwyr yn cael eu diwallu a datblygu atebion polisi effeithiol i fynd i'r afael â nhw**

## Defnyddwyr mewn sefyllfa fregus

Gall defnyddwyr mewn sefyllfa fregus wynebu rhwystrau i ddod o hyd i gyflenwad ynni fforddiadwy a sefydlog am amryw resymau. Ym mis Hydref 2019, cyhoeddwyd ein Strategaeth ar gyfer Defnyddwyr mewn Sefyllfa Fregus sy'n disodli strategaeth 2013. Bydd y strategaeth hon yn llywio ein gwaith tan 2025. Ein nod yw na ddylai defnyddwyr mewn sefyllfaoedd bregus fod ar eu colled pan fyddwn yn newid i system wedi'i datgarboneiddio.

Gan adeiladu ar y gwaith helaeth rydym eisoes wedi'i wneud o dan strategaeth 2013, mae'r strategaeth newydd yn canolbwyntio ar bum maes lle rydym yn anelu, erbyn 2025, at sicrhau gwelliannau cadarn i ddefnyddwyr mewn sefyllfaoedd bregus:

- Gwella'r ffordd o adnabod defnyddwyr mewn sefyllfa fregus a defnyddio data mewn ffordd ddeallus
- Cefnogi'r rhai sy'n ei chael hi'n anodd talu eu biliau ynni
- Ysgogi gwelliannau sylweddol i wasanaeth cwsmeriaid ar gyfer grwpiau mewn sefyllfa fregus
- Annog datblygiadau arloesol cadarnhaol a chynhwysol
- Gweithio gyda phartneriaid i fynd i'r afael â materion sy'n torri ar draws sectorau.

Yn sail i bob un o'r pum thema hyn y mae'r canlyniadau rydym am eu gweld yn cael eu gwireddu drwy gydol oes y strategaeth.

## Ymgysylltu defnyddwyr â'r farchnad ynni

Yn ystod y flwyddyn, parhawyd i ddatblygu mentrau sy'n galluogi defnyddwyr i weld a rhannu eu data ynni mewn ffordd ddiogel a chyfleus, a fydd yn ei gwneud yn bosibl i gynhyrchion a gwasanaethau newydd gael eu datblygu.

Parhawyd hefyd i ddefnyddio'r wybodaeth a gawn drwy ymchwil a threialon er mwyn gwella'r ffordd y mae defnyddwyr yn ymgysylltu â'r farchnad ynni. Roedd hyn yn cynnwys canlyniadau calonogol y treialon diweddaraf o "newid ynni ar y cyd".

Dangosodd y treialon hyn fod rhoi cynnig arbennig i ddefnyddwyr ynni wedi ymddieithrio, drwy gyfres o lythyrau personol yn nodi arbedion posibl i unigolion, wedi cynyddu'n sylweddol gyfraddau defnyddwyr sy'n dewis newid i dariff sefydlog.

Rydym bellach yn cynnal ymchwil i'r brif rôl y bydd defnyddwyr yn ei chwarae yn y broses o ddatgarboneiddio'r system ynni. Bydd angen i'r mwyafrif o ddefnyddwyr newid eu hymddygiad mewn rhyw ffordd neu gilydd er mwyn sicrhau sero net, ac rydym yn ymchwilio i'r ffordd orau o gyflawni hyn.

# Pennod 2: Galluogi marchnadoedd a threfniadau systemau'r dyfodol

## Ein nod

Yn ystod 2019-20, parhaodd y system ynni i newid yn gyflym – o safbwynt cynlluniau i leihau carbon a rheoli amrywiaeth gynyddol o ffynonellau ynni – ond hefyd drwy rymoedd mwy arloesol megis modelau busnes newydd, cymwysiadau technolegol newydd a mwy o ddigiteiddio o ran data defnyddwyr.

Fel rheoleiddiwr ynni Prydain Fawr, parhawyd i gefnogi a galluogi datblygiadau arloesol sy'n gweithio er budd defnyddwyr, a hefyd i gadw ffocws ar ddyrannu costau'n deg, mesurau diogelu defnyddwyr a sicrwydd systemau.

Roedd pedair agwedd ar ein gwaith i alluogi marchnadoedd a threfniadau systemau'r dyfodol:

A. Rhoi systemau a rheolau newydd ar waith ar gyfer system ynni fwy deallus a hyblyg

B. Gweithio gydag arloeswyr a rhanddeiliaid i ddatblygu atebion ynni cynaliadwy a systemau ar gyfer defnyddwyr yn y dyfodol.

C. Datblygu gwell mynediad at rwydweithau, trefniadau codi tâl a gweithredu systemau er mwyn galluogi marchnadoedd ynni effeithlon yn y dyfodol

D. Sefydlogrwydd a sicrwydd systemau

**A. Rhoi systemau a rheolau newydd ar waith ar gyfer system ynni fwy deallus a hyblyg**

### Mesuryddion deallus

Mae mesuryddion deallus yn gam hollbwysig i uwchraddio ein seilwaith ynni cenedlaethol, a fydd yn cefnogi system ynni fwy hyblyg a chadarn. Maent yn adnodd hollbwysig i foderneiddio'r ffordd rydym i gyd yn defnyddio ynni a helpu i drawsnewid y farchnad ynni fanwerthu. Am fod mesuryddion deallus yn rhoi gwybodaeth amser real bron, maent yn galluogi defnyddwyr i reoli eu defnydd o ynni yn well ac yn dileu'r angen am filiau amcangyfrifedig, sy'n golygu y bydd defnyddwyr ond yn cael eu bilio am yr ynni y maent yn ei ddefnyddio mewn gwirionedd.

Mae Ofgem yn parhau i fod â throsolwg rheoleiddiol o'r broses o gyflwyno mesuryddion deallus. Ein nod o hyd yw sicrhau bod y broses o'u cyflwyno yn arwain at y canlyniadau gorau posibl i ddefnyddwyr. Rydym yn monitro cydymffurfiaeth cyflenwyr â rhwymedigaethau eu trwyddedau ar gyfer mesuryddion deallus o ran cynnydd y broses o'u gosod ac ansawdd y profiad y maent yn ei gynnig i'w cwmseriaid.

Hyd yma, mae cyflenwyr wedi gosod 20.6 miliwn o fesuryddion deallus ac uwch mewn eiddo domestig ac eiddo annomestig bach. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae'r diwydiant wedi bod yn newid o osod fesuryddion SMETS1 i fesuryddion SMETS2 ac mae dros 4.3 miliwn o fesuryddion SMETS2 wedi'u gosod bellach.

Yn ystod y flwyddyn, ymgynghorodd yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol (BEIS) ar fframwaith polisi newydd ar gyfer cyflwyno mesuryddion deallus, a fyddai'n golygu bod y broses o'u cyflwyno yn parhau y tu hwnt i 2020 a chynhaliwyd ymgynghoriad gennym ni ar fframwaith adrodd newydd yn unol â chynigion BEIS. Ym mis Ionawr, cyhoeddodd cyflenwyr adroddiadau ar gynnydd yn erbyn eu cynlluniau cyflwyno. Roedd yr adroddiadau yn adlewyrchu'r her yr oedd cyflenwyr wedi'i hwynebu wrth newid o fesuryddion SMETS1 i fesuryddion SMETS2. Os bydd cyflenwr yn methu â chyrraedd eu cerrig milltir blynyddol cyfrwymol, gall Ofgem gymryd camau gorfodi.

Rydym hefyd yn parhau i reoleiddio'r Cwmni Cyfathrebu Data (y "DCC"), sy'n darparu gwasanaeth trwyddedig monopoli ar gyfer gwasanaethau cyfathrebu mesuryddion deallus ledled Prydain Fawr. Rydym yn rheoleiddio refeniw DCC drwy ymarfer rheoli prisiau ôl-weithredol blynyddol, sy'n asesu perfformiad DCC, ac a oedd ei gostau yn y flwyddyn flaenorol yn ddarbodus ac yn effeithlon. Yn ein penderfyniad rheoli prisiau 2018-19, roedd cyfanswm y costau ar gyfer RY18/19 (heb gostau trosglwyddo) yn £375m. O ganlyniad i wrthodiadau a gostyngiadau eraill i refeniw DCC a ganiateir, bydd defnyddwyr yn bael budd o arbedion trosglwyddo gwerth £5.363m. Hefyd, rydym hefyd wedi gwrthod cyfanswm o £218.4m mewn costau mewnol a ragwelwyd (RY21/22 ymlaen).

Gwnaed cynnydd ar y gwaith o lunio trefniadau diwygio setliad marchnad gyfan newydd, a fydd yn adeiladu

ar gyfleoedd a ddarperir gan y broses o gyflwyno mesuryddion deallus. Bydd y rhain yn rhoi cymhelliant i gyflenwyr trydan ddatblygu tariffau a gwasanaethau newydd, a fydd yn helpu defnyddwyr i fanteisio ar gyfnodau pan fo trydan yn rhatach i'w gynhyrchu neu ei drosglwyddo, a ddylai sicrhau arbedion i ddefnyddwyr a'r system drydan yn ei chyfanrwydd.

Mae Ofgem hefyd wedi cyhoeddi ymgynghoriad ar yr asesiad effaith drafft i weithredu setliad hanner awr drwy'r farchnad gyfan, ochr yn ochr â chynigion ar gyfer ei weithredu ac amserlen ar gyfer ei gyflwyno. Mae'r Asesiad Effaith cyhoeddedig yn amcangyfrif y bydd y budd tebygol i ddefnyddwyr yn sgil cyflwyno setliad hanner awr drwy'r farchnad gyfan yn werth rhwng £1.6 biliwn a £4.5 biliwn dros 25 mlynedd

**B. Gweithio gydag arloeswyr a rhanddeiliaid i ddatblygu atebion ynni cynaliadwy a systemau ar gyfer defnyddwyr yn y dyfodol**

## Cynllun Gweithredu Datgarboneiddio

Ym mis Chwefror 2020, cyhoeddwyd ein Cynllun Gweithredu Datgarboneiddio. Mae'r Cynllun yn nodi naw cam gweithredu a fydd yn helpu'r rhwydweithiau ynni i fod yn barod i sicrhau sero net, cefnogi Llywodraeth EM wrth iddi fynd i'r afael â sut i ddatgarboneiddio gwres a throsglwyddo ac annog arloesedd er mwyn darparu cynhyrchion a gwasanaethau carbon isel newydd i ddefnyddwyr.Mae'r cynllun yn cydnabod bod yna faterion lle mae'n rhaid cyfaddawdu, megis rhannu cost system ynni carbon isel yn deg rhwng defnyddwyr heddiw ac yn y dyfodol. Y naw cam gweithredu yw:

1. Ymgorffori'r gallu i addas yn ein rheolaethau prisiau rhwydwaith, er mwyn sicrhau bod cwmnïau rhwydwaith yn buddsoddi'n effeithlon ac yn gallu ymaddasu at newidiadau mewn technoleg a seilwaith.
2. Sefydlu cronfa reoleiddio i ryddhau buddsoddiadau mewn atebion arloesol i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd.
3. Ystyried cyfleoedd, ar y cyd â'r llywodraeth a'r diwydiant, ar gyfer m o gydgysylltu er mwyn ei gwneud yn bosibl i grid ar y môr gael ei ehangu'n gyflym am y gost isaf bosibl.
4. Harneisio ein gwybodaeth a'n harbenigedd presennol er mwyn helpu'r llywodraeth a'r diwydiant i ddatblygu opsiynau costeffeithiol a risg isel ar gyfer datgarboneddio gwresogi.
5. Parhau i adolygu'r ffordd y rheolir ein systemau ynni er mwyn sicrhau eu bod yn addas at ddyfodol sero net.
6. Creu system drydan fwy hyblyg, er mwyn sicrhau y bydd defnyddwyr yn cael budd o'r broses newid i system sero net ddibynadwy am y gost isaf bosibl.
7. Datblygu strategaeth ar gyfer rheoleiddio cerbydau trydan, er mwyn cefnogi'r broses o'u cyflwyno a sicrhau'r buddiannau mwyaf i ddefnyddwyr.
8. Cefnogi gweithgarwch arloesi ac arbrofi, yn enwedig yn y farchnad fanwerthu, er mwyn creu cynhyrchion a gwasanaethau carbon isel a fydd o fudd uniongyrchol i ddefnyddwyr.
9. Ymateb i'r angen i wneud penderfyniadau mawr wrth wynebu dyfodol hynod ansicr drwy fod yn fwy parod i addasu'r ffordd rydym yn gweithio ac yn rheoleiddio.

Roeddem yn bwriadu cymryd y camau hyn dros ddeunaw mis yn wreiddiol, gan ddechrau ym mis Ebrill 2020. Oherwydd argyfwng Covid-19, efallai y bydd rhai camau yn cymryd ychydig mwy o amser. Er mwyn rhoi mwy o eglurder i randdeiliaid o ran pryd y bwriadwn gymryd y camau hyn i ddatgarboneiddio, byddwn yn cyhoeddi diweddariad i'n Blaenraglen Waith maes o law.

## Cefnogi arloesedd

Rydym wedi parhau i addasu'r ffordd rydym yn rheoleiddio er mwyn ei gwneud yn haws cynnig y datblygiadau arloesol sydd eu hangen i greu cynhyrchion a gwasanaethau sy'n helpu defnyddwyr i ddefnyddio ynni mewn ffyrdd sy'n cefnogi datgarboneiddio.

Drwy ein Cyswllt Arloesi, parhawyd i roi ein gwasanaeth "Adborth Cyflym a Gonest", sy'n helpu arloeswyr i ddeall a yw eu syniad yn bosibl ai peidio o dan y rheolau a'r rheolau a'r rheoliadau presennol. Rydym bellach wedi cefnogi dros 350 o arloeswyr yn y tair blynedd y mae'r Cyswllt wedi bod yn rhedeg. Erys boddhad gyda gwasanaethau'r Cyswllt yn uchel o hyd. Dros y flwyddyn diwethaf, rydym wedi gweld sawl cyn-gleient yn ymuno â'r farchnad a lansio gwasanaethau newydd arloesol. Er enghraifft, ym mis Hydref 2019, cyhoeddodd Liberty Global (rhiant-gwmni Virgin Media) brosiect peilot sy'n defnyddio seilwaith rhwydwaith presennol Virgin Media i ddarparu mannau gwefru cerbydau trydan ar y stryd.

Hefyd, dechreuodd UrbanChain farchnata meddalwedd i awdurdodau lleol a chyflenwyr ynni a oedd yn cynnwys Rhwymedigaeth y Cwmnïau Ynni a rhwymedigaethau Gostyngiad Cartrefi Cynnes gyda'r nod o ganfod aelwydydd yn y DU a allai wynebu tlodi tanwydd neu sydd yn dioddef tlodi tanwydd.

Ym mis Chwefror 2020, nodwyd ein cynlluniau i gynnig gwasanaeth "Bocs Tywod Rheoleiddio" estynedig ac ar ei newydd wedd. Mae'r bocs tywod yn galluogi arloeswyr i dreialu neu lansio cynhyrchion a gwasanaethau newydd heb orfod dilyn rhai o reolau arferol y sector ynni. Yn seiliedig ar ein profiad o redeg dau gylch ymgeisio blaenorol, bydd y gwasanaeth bocs tywod ar ei newydd wedd yn gallu diwallu anghenion ei ddefnyddwyr yn well. Yn wahanol i'r hyn a'i rhagflaenodd, bydd yn wasanaeth ar gais, a fydd ar gael pan fydd ei eisiau ar arloeswyr yn hytrach na dilyn amserlenni ymgeisio caeth.

Bydd cwmpas y gwasanaeth bocs tywod yn cynnwys galluoedd newydd yng nghodau'r diwydiant. Bydd rhyddhad dros dro hefyd ar gael rhag dilyn rhai o'r rheolau yn y Cod Cydbwyso a Setliad a'r Cysylltiad Dosbarthu a'r Gytundeb Defnyddio System. Yn unol ag egwyddorion siop un stop, ni yw'r unig bwynt mynediad at holl adnoddau'r bocs tywod a byddwn yn cydgysylltu ymwneud y cyrff codau. Nodwyd hefyd ein bwriad i ymgynghori'n fuan ar ehangu'r amrywiaeth o reolau y gall Ofgem roi rhyddhad rhag eu dilyn, a hynny er mwyn helpu gweithgarwch arbrofi, treialu a phrofi i ffynnu.

Drwy ein gwaith adborth, rydym yn aml yn dod ar draws problemau tebyg sy'n wynebu arloeswyr. Er mwyn bod yn fwy effeithlon a sicrhau bod ein gwasanaeth yn cael mwy o effaith, datblygwyd ein gwasanaeth "darlledu", lle rydym yn siarad â llawer o arloeswyr ar yr un pryd. Cyhoeddwyd dau ganllaw newydd gennym hefyd – y naill yn esbonio'r gwahanol lwybrau tuag at ddod yn rhan o'r farchnad drydan fanwerthu, a'r llall yn esbonio sut mae'r rheoliadau'n gymwys mewn amrywiol senarios lle y caiff trydan ei werthu i ddefnyddwyr cerbydau trydan.

Mae cryn dipyn o ddiddordeb o hyd yn ein gwasanaethau i arloeswyr ac yn ein harbrofion ym maes rheoleiddio addasol. Yn ystod y flwyddyn diwethaf, rhannwyd ein dealltwriaeth â 15 o reoleiddwyr o wahanol sectorau ac awdurdodaethau. Yn gyffredinol, rydym bellach wedi ymgysylltu â 27 o gyrff o 12 o wledydd, dros bump o'r saith cyfandir.

## Cap ar brisiau tariffau diofyn

Cyflwynodd Ofgem y cap ar dariffau diofyn ar 1 Ionawr 2019, sy'n diogelu dros 11 miliwn o gwsmeriaid sydd ar dariffau amrywiadwy safonol neu ddiofyn rhag talu gormod am eu hynni. Rydym yn addasu lefel y cap bob chwe mis er mwyn adlewyrchu newidiadau yng nghostau sylfaenol cyflenwi ynni. Ym mis Chwefror 2020, pennwyd lefel y cap ar gyfer y pedwerydd cyfnod, a ddaeth i rym ar 1 Ebrill 2020.

Cynhaliodd yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd adolygiadd o'r cap ar gyfer Mesuryddion Rhagdalu, sy'n diogelu cwsmeriaid sydd â mesuryddion rhagdalu, ac ym mis Gorffennaf 2019 penderfynodd fabwysiadu'r rhan fwyaf o fethodoleg y cap ar dariffau diofyn i bennu'r cap ar gyfer mesuryddion rhagdalu.

Ym mis Hydref 2019, bu un elfen o'r cap yn destun adolygiad barnwrol a ddygwyd gan un o'r cyflenwyr. Llwyddodd y cyflenwr i herio'r lwfans mewn cap ar gyfer ynni cyfanwerthu yn ystod cyfnod tri mis cyntaf y cap. Gofynnodd y barnwr i Ofgem ailasesu'r lwfans yng ngoleuni'r data newydd sydd ar gael. Rydym wrthi'n ymgynghori ar y lwfans ynni cyfanwerthu diwygiedig a byddwn yn gwneud penderfyniad yn dilyn yr ymgynghoriad ym mis Awst.

Yn ystod y flwyddyn, ymgynghorwyd hefyd ynglyn â sut i asesu a yw'r farchnad fanwerthu ddomestig yn gallu sicrhau cystadleuaeth effeithiol, neu a oes angen diogelwch prisiau o hyd. Mae Deddf Nwy a Thrydan Domestig (Cap ar Dariffau) 2018 yn ei gwneud yn ofynnol i Ofgem gyflwyno adroddiad ac argymhelliad i'r Ysgrifennydd Gwladol erbyn mis Awst 2020, ar b'un a ddylai'r cap gael ei ymestyn am flwyddyn arall ai peidio.

## Fframweithiau rheoleiddiol

Yn ystod y flwyddyn, cynhaliodd Ofgem adolygiad ar y cyd â BEIS i ystyried ffurf trefniadau'r farchnad fanwerthu yn y dyfodol, er mwyn ystyried a yw'n addas at y dyfodol. Cyhoeddwyd ymgynghoriad gennym ym mis Gorffennaf 2019, a oedd yn nodi'r prif heriau y mae angen i ni ymateb iddynt a'r canlyniadau rydym am i'r farchnad ynni fanwerthu eu sicrhau, gan gynnwys:

- Sut y gellid newid y fframwaith rheoleiddio er mwyn hwyluso'n well y broses o lansio cynhyrchion a gwasanaethau arloesol, a allai gefnogi datgarboneiddio.

- Ystumio ar y farchnad, a lle y gellid gwella'r ffordd y mae'r sector yn gweithredu drwy gyflwyno diwygiadau.
- Sut y gall y farchnad fanwerthu sicrhau cynnig da i bob defnyddiwr, gan gynnwys prisiau teg a lefelau gwasanaeth da.

Ar ôl ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn ofalus, ym mis Chwefror 2020, cyhoeddwyd pecyn o fesurau gyda'r nod o hyrwyddo datblygiadau arloesol yn y farchnad ynni fanwerthu. Hefyd, rydym yn barod i helpu BEIS i ddatblygu newidiadau deddfwriaethol posibl sy'n cefnogi anghenion defnyddwyr y dyfodol ac yn rhoi hyblygrwydd i arloeswyr ddatblygu modelau busnes, cynhyrchion a gwasanaethau newydd.

Yn ystod y flwyddyn, dechreuwyd ar y gwaith o gydgrynhoi a rhesymoli'r Cod Ynni Manwerthu hefyd, er mwyn cyflwyno trydedd fersiwn, i'w lansio ochr yn ochr â'r trefniadau newid yn gyflymach yn 2021. Gwnaed cynnydd rhagorol ar y Rhaglen Newid Cyflymach a Mwy Dibynadwy sydd wedi dechrau ar y cam profi.

**C. Datblygu gwell mynediad at rwydweithau, trefniadau codi taliadau a gweithredu systemau er mwyn galluogi marchnadoedd ynni effeithlon yn y dyfodol**

## Rhwydweithiau

Er mwyn ateb y galw yn system ynni'r dyfodol, parhawyd i ddatblygu diwygiadau i'n rheolau, sy'n sail i fynediad y diwydiant i rwydweithiau trydan a'r taliadau a godir am ddefnyddio'r system drwy ein dau Adolygiad Cod Sylweddol sydd â chysylltiad agos rhyngddynt: yr Adolygiad o Daliadau Mynediad a Thaliadau sy'n Edrych Tuag at y Dyfodol a'r Adolygiad o Daliadau Wedi'u Targedu.

Gan weithio'n agos gydag amrywiaeth o randdeiliaid, gwnaethom ddatblygu diwygiadau ar gyfer Mynediad at y rhwydwaith trydan a'r trefniadau ar gyfer Taliadau sy'n Edrych Tuag at y Dyfodol. Hefyd, cyhoeddwyd papurau gwaith i amlinellu ein syniadau cychwynnol ynglŷn ag opsiynau allweddol ar gyfer y diwygiadau hyn, cyn llunio ein rhestr fer o opsiynau polisi. Rydym yn disgwyl ymgynghori ar ein casgliadau drafft yn ystod 2020-21.

Ar gyfer ein Hadolygiad o Daliadau Wedi'u Targedu, ceisiwyd barn ar gynigion roeddem wedi'u mireinio, cyn cyhoeddi penderfyniad ym mis Rhagfyr 2019. Nodau'r diwygiadau hyn yw sicrhau bod taliadau gweddilliol yn cael eu rhannu'n deg ymhlith y rhai sy'n defnyddio'r rhwydwaith trydan a chael gwared ar ystumio niweidiol ar drefniadau codi tâl y rhwydwaith. Caiff addasiadau arfaethedig eu hasesu rhwng 2020 a 2022.

Ym mis Mai 2019, cyflwynwyd cynigion newydd i Ofgem ar gyfer codi tâl am drawsyrru nwy i'w hystyried gan y diwydiant, er mwyn i ddiwygiadau adlewyrchu'r defnydd newidiol o'r rhwydwaith a chydymffurfiaeth â strwythurau tariffau cysoni cod yr UE (UNC0678). Yna, cyhoeddwyd cynigion gennym fel rhan o ymgynghoriad a ddaeth i ben ar ddiwedd mis Chwefror 2020. Rydym yn disgwyl gwneud penderfyniad terfynol yn ystod 2020-21.

## Systemau

Yn sgil ei wahanu'n gyfreithiol oddi wrth y Grid Cenedlaethol ym mis Ebrill 2019, mae Gweithredwr y System Drydan bellach yn gyfrifol am gydbwyso'r cyflenwad trydan a'r galw mewn amser real, mewn modd sy'n osgoi amrywiadau sydyn neu amharu ar y cyflenwad.

Fel rhan o'n rôl i gynnal trosolwg, ymgynghorwyd ar newidiadau i fireinio fframwaith cymhellion Gweithredwr y System Drydan sy'n seiliedig ar egwyddorion a chyhoeddwyd penderfyniad gennym ym mis Mawrth 2019. Yn fuan wedyn, cyhoeddodd Panel Perfformiad Gweithredwr y System Drydan ei werthusiad cyntaf o berfformiad Gweithredwr y System Drydan ar gyfer blwyddyn reoleiddio 2018-19. Gwnaeth Ofgem sylwadau hefyd ar flaengynllun drafft Gweithredwr y System Drydan ar gyfer 2020-21, gan ei annog i ddatblygu cynllun tryloyw ac ymestynnol i ymateb i adborth rhanddeiliad.

Parhawyd i fonitro'r ffordd y mae gweithredwyr rhwydweithiau dosbarthu yn mynd ati i reoli eu rhwydweithiau, er mwyn rhoi cyfle i'r rhai sy'n arloesi ac yn rhoi hyblygrwydd chwarae eu rhan yn y gwaith o sicrhau system ynni fwy effeithlon. Ein nod yw y bydd hyn yn nodwedd allweddol o'r ymarfer rheoli prisiau nesaf ar gyfer rhwydweithiau dosbarthu (gweler tudalen 18).

**D. Sefydlogrwydd a sicrwydd systemau**

## Gadael yr UE

Yn y cyfnod cyn i'r DU adael yr UE ar 31 Ionawr 2020, aethom ati i weithio gyda Llywodraeth EM a'r diwydiant i sicrhau y byddai'r strwythur rheoleiddio yn parhau i weithio'n effeithiol ar ôl gadael yr UE a bod unrhyw faterion a oedd yn gysylltiedig â gadael yn cael eu deall a'u rheoli'n briodol. Roedd rhai o'n ffrydiau gwaith allweddol yn cynnwys, ac maent yn parhau i gynnwys:

- Newidiadau canlyniadol i drwyddedau cwmnïau ynni
- Ymgysylltu â gweinyddwyr codau a phaneli er mwyn cefnogi eu paratoadau
- Parhau i gydymffurfio â rheoliadau Rheoleiddio Integreiddio a Thryloywder Marchnadoedd Ynni Cyfanwerthu (REMIT) (Appendix II)
- Ymgysylltu â gweithredwyr sy'n rhyng-gysylltwyr a'u rheoleiddwyr cyfatebol
- Cynghori Llywodraeth EM ar effaith Offerynnau Statudol rheoleiddio.

## Y Farchnad Gapasiti

Mae'r Farchnad Gapasiti, sy'n rhan o bolisi diwygio'r farchnad drydan Llywodraeth EM, yn sicrhau bod digon o gapasiti trydan ar gael i ateb y galw. Bwriedir iddo gymell buddsoddi mewn capasiti trydan carbon isel mwy cynaliadwy am y gost isaf bosibl i ddefnyddwyr, a sicrhau bod ein cyflenwad trydan yn ddiogel yn y dyfodol. Llywodraethir y Farchnad gan Reoliadau Marchnad Gapasiti Trydan 2014 (y "rheolau"), y mae Ofgem yn eu rheoli drwy ein proses newid rheolau. Yn ystod y flwyddyn, parhawyd â'n hadolygiad pum mlynedd o'r rheolau i wella'r Farchnad Gapasiti, drwy ei gwneud yn symlach i ddarparwyr gyfranogi, gwella cystadleuaeth a hylifedd yn y dull gweithredu, ac er budd defnyddwyr. Ym mis Gorffennaf 2019, cyhoeddwyd Blaengynllun Gwaith ar ein hadolygiad a llythyr dilynol ym mis Hydref ar y broses newid rheolau, yn enwedig ar gyfer newidiadau i'r broses lywodraethu, gan gynnwys cyn cymhwyso, masnachu eilaidd a gwaith datblygu systemau sydd eu hangen gan y Corff Cyflawni.

## Sefydlogrwydd y system drydan

"Cynnau Du" yw'r broses a ddefnyddir i adfer ar ôl digwyddiad, sy'n arwain at ddiffodd y system trawsyrru trydan yn rhannol neu'n gyfan gwbl. Pan fo angen, caiff gorsafoedd pŵer eu "cynnau" yn unigol heb gyflenwad pŵer allanol, a'u hailgysylltu'n raddol er mwyn ailgynhyrchu ynni yn y system. Ar ôl iddi gael ei chyflwyno gan Weithredwr y System Drydan, cymeradwyodd Ofgem strategaeth "Cynnau Du" a methodolegau caffael ym mis Gorffennaf 2019. Nod y strategaeth yw sicrhau bod fframwaith diogelwch system effeithiol ar waith i adfer cyflenwad ynni mewn cartrefi a busnesau os bydd y system gyfan yn methu yn y fath fodd.

## Seiberddiogelwch a Chydnerthedd

Ym mis Mai 2018, daeth Ofgem a BEIS yn Awdurdod Cymwys ar y cyd o dan Reoliadau Systemau Rhwydwaith a Gwybodaeth 2018, sy'n gweithredu Cyfarwyddeb 2016 yr EU ar ddiogelwch systemau rhwydwaith a gwybodaeth. Nod y Rheoliadau hyn yw sicrhau bod Gweithredwyr Gwasanaethau Hanfodol yn cymryd camau technegol a sefydliadol priodol a chymesur i reoli risgiau i ddiogelwch systemau rhwydwaith a gwybodaeth y mae eu gwasanaethau hanfodol yn dibynnu arnynt, yn ogystal ag atal digwyddiadau a lleihau eu heffaith i'r eithaf. Ein rôl yw monitro cynnydd Gweithredwyr Gwasanaethau Hanfodol a, lle y bo angen drwy orfodi, sicrhau cydymffurfiaeth â'r rheoliad. Wrth i ni adeiladu ein tîm, rydym wedi ymgymryd â chyfrifoldebau ychwanegol, gan gynnwys monitro'r agweddau ar y Cod Ynni Clyfar sy'n ymwneud â materion seibr a rhoi arbenigedd i dîm rheoli prosiau RIIO. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi ymgysylltu mewn mwy na 100 o weithdai i gwmnïau ynni ac wedi cyhoeddi Canllawiau Ofgem ar y Rheoliadau Systemau Rhwydwaith a Gwybodaeth, Canllawiau Cydnerthedd Seibr RIIO-2 a Fframwaith Arolygu Drafft ar gyfer y rheoliadau ar gyfer Prosesu Nwy a Thrydan.

# Pennod 3: Parodrwydd a pherfformiad rhwydweithiau

## Our aim

Ar adeg o newid sylweddol i rwydweithiau rheoleiddiedig, ein nod fu sicrhau bod cwmnïau rhwydwaith yn sicrhau diogelwch systemau, datblygiadau arloesol a gwerth am arian i ddefnyddwyr. Gwnaethom hyn drwy weinyddu'r rheolaethau prisiau presennol (RIIO-1) yn effeithiol, a hefyd drwy ddatblygu dull o ymdrin â'n cyfres newydd o reolaethau prisiau (RIIO-2) a chyflwyno mwy o gystadleurwydd yng ngweithgareddau rhwydweithiau. Gyda'i gilydd, gall hyn wella canlyniadau i ddefnyddwyr a sicrhau rhwydwaith costeffeithiol a chydnerth, sy'n addas at y dyfodol.

Bu dwy agwedd ar ein gwaith, sef sicrhau'r gwerth gorau er budd defnyddwyr presennol a defnyddwyr y dyfodol drwy ddefnyddio cystadleuaeth i roi gwerth am arian a helpu i baratoi rhwydweithiau ar gyfer y dyfodol.

**A. Defnyddio cystadleuaeth i roi gwerth am arian**

Daw cyfran sylweddol, sy'n tyfu'n gyflym, o'r trydan a gynhyrchir yn y DU o ynni adnewyddadwy, megis ynni'r gwynt ac ynni solar. Mae integreiddio'r ffynonellau newydd hyn o ynni yn gofyn am newid mawr o ran buddsoddi mewn rhwydweithiau a dull mwy dynamig o ddatblygu'r rhwydwaith trawsyrru. Rydym yn defnyddio cystadleuaeth lle y bo modd, er mwyn lleihau costau i ddefnyddwyr i'r eithaf.

### Cystadleuaeth ar y môr

Mae Ofgem yn rhedeg proses dendro gystadleuol i roi trwyddedau i weithredwyr trawsyrru ar y môr ("OFTO").

Yn ystod y flwyddyn:

- Rhoddwyd trwydded trawsyrru i Fferm Wynt Galloper fel rhan o Gylch 5 o'r Tendr.
- Rhoddwyd Hysbysiad "ystyried" addasiadau i drwydded trawsyrru Estyniad Walney fel rhan o Gylch 5 o'r Tendr.
- Dewiswyd cynigydd a ffefrir yn ystod Cylch 5 o'r Tendr ar gyfer Prosiect Fferm Wynt Rampion (yr olaf ar gyfer y Cylch Tendr hwnnw).
- Dewiswyd cynigwyr a ffefrir hefyd yn ystod Cylch 6 o'r Tendr ar gyfer prosiectau Fferm Wynt Beatrice a Hornsea.

### Cystadleuaeth ar y tir

Parhawyd i asesu sut y gellid cymhwyso modelau cystadleuaeth at gynigion prosiectau "gwaith ehangach strategol" a gyflwynir i Ofgem, er mwyn creu capasiti ychwanegol yn y rhwydwaith. Mae'r prosiectau buddsoddi trawsyrru ar y tir mawr hyn yn ganolog i ddatblygu ein fframwaith rheolaeth prisiau trawsyrru trydan ar gyfer RIIO-2.

Yn ystod y flwyddyn:

- Ymgynghorwyd ar y model cyflawni rheoleiddiol a chyhoeddwyd ein penderfyniadau ym mis Mai 2020, a chyhoeddwyd ein hasesiad o gostau cyfalaf ar gyfer prosiect trawsyrru Hinkley-Seabank, a gynigiwyd gan National Grid Electricity Transmission.
- Ymgynghorwyd ar ein safbwynt i ystyried cymeradwyo cysylltiad trawsyrru trydan newydd ag Ynysoedd Shetland gan Scottish Hydro Electricity Transmission. Gwnaethom gytuno hefyd ar gynnig gan Scottish Hydro Electric Powers Distribution i gyfrannu'n ariannol tuag at y cysylltiad ag Ynysoedd Shetland, os caiff ei adeiladu. Byddai'r cyfraniad hwnnw'n adlewyrchu buddiannau'r cysylltiad (er enghraifft o ran sicrwydd cyflenwad) y byddai defnyddwyr Ynysoedd Shetland yn eu cael o ganlyniad i'r cysylltiad.
- Gofynnwyd i Weithredwr y System Drydan gyflwyno cynigion manwl, erbyn mis Chwefror 2021, ynglŷn â sut i ddatblygu a gweithredu 'cystadlaethau cynnar' i nodi atebion sy'n cynnwys rhwydweithiau neu nad ydynt yn cynnwys rhydweithiau i broblemau gyda'r system trawsyrru trydan. Dechreuodd y gwaith hwn ym mis Hydref 2019 a bwriedir i Weithredwr y System Drydan ymgynghori ar drefniadau yn ystod haf 2020.

**B. Paratoi rhwydweithiau ar gyfer y dyfodol**

## Rheolaethau prisiau rhwydwaith

Yn ystod y flwyddyn, parhawyd i weithio'n agos gyda rhanddeiliaid i ddatblygu ein fframwaith ar gyfer RIIO-2, sef ein cyfres nesaf o reolaethau prisiau rhwydwaith, a fydd yn olynu'r fframwaith RIIO-1 presennol, a ddaw i ben y mis Ebrill 2021 ar gyfer dosbarthu nwy, trawsyrru nwy a thrydan ac yn 2023 ar gyfer dosbarthu trydan. RIIO (Revenue=Incentives+Innovation+Outputs) yw fframwaith seiliedig ar berfformiad Ofgem ar gyfer pennu rheolaethau prisiau i gwmnïau sy'n rhedeg y rhwydweithiau nwy a thrydan. Ceir esboniad manylach o'n fframweithiau RIIO ar ein gwefan.

Ein hamcan ar gyfer RIIO-2 yw sicrhau bod y cwmnïau rhwydwaith hyn sy'n cael eu rheoleiddio yn darparu gwasanaethau gwerth am arian y mae defnyddwyr presennol a defnyddwyr y dyfodol yn eu dymuno, gan roi sylw priodol i liniaru effaith rhwydweithiau ar yr amgylchedd, gan gynnal cydnerthedd, diogelwch a dibynadwyedd rhwydweithiau; a dylunio rhwydweithiau a all chwarae rhan lawn yn y gwaith o fynd i'r afael â phroblemau defnyddwyr sydd mewn sefyllfaoedd bregus.

Rydym wedi ceisio cyflawni'r amcan hwn drwy'r canlynol:

- Rhoi llais cryfach i ddefnyddwyr o ran pennu allbynnau a llunio ac asesu cynlluniau busnes.
- Caniatáu i gwmnïau rhwydwaith gael enillion sy'n deg ac sy'n werth da i ddefnyddwyr, sy'n adlewyrchu'r risgiau a wynebant ac amodau presennol y farchnad.
- Rhoi cymhelliant i gwmnïau rhwydwaith ymateb i'r risgiau a'r cyfleoedd a grëir gan newidiadau dramatig o bosibl i'r ffordd y defnyddir rhwydweithiau mewn ffyrdd sy'n fuddiol i ddefnyddwyr.
- Defnyddio fframwaith neu gystadleuaeth i ysgogi arloesedd ac effeithlonrwydd.
- Symleiddio'r rheolaethau prisiau drwy ganolbwyntio ar eitemau o'r gwerth mwyaf i ddefnyddwyr

Yn ogytal â datblygu ein rheolaethau prisiau newydd ar gyfer dosbarthu nwy a thrydan, gan gynnwys trawsyrru, rydym hefyd wedi bod yn datblygu rheolaethau prisiau ar wahân i Weithredwr y System Drydan a National Grid Electricity Transmission, gyda'r nod o hyrwyddo dull system gyfan o reoli prisiau.

Yn ystod y flwyddyn, er mwyn datblygu ein rheolaethau prisiau ar gyfer RIIO-2, rydym wedi:

- Cyhoeddi, ac wedi ymgynghori ar fethodolegau penodol i'r sector (ar gyfer trawsyrru trydan a nwy, a dosbarthu nwy, ac ar gyfer gweithredwr y system drydan) ac adnoddau i asesu costau ar gyfer y rheolaethau prisiau.
- Cyhoeddi'r fframwaith ar gyfer rheolaethau prisiau dosbarthu trydan (ED-2)
- Cynnal gweithdai i weithgorau traws-sector ar ddatgarboneiddio, anghenion cwsmeriaid ac anghenion cymdeithasol, rheoli asedau ac asesu costau.
- Cael cynlluniau busnes cychwynnol gan gwmnïau rhwydwaith, a adolygwyd gan grwpiau her ac a fu'n destun "ceisiadau am dystiolaeth" a oedd yn ceisio barn rhanddeiliaid.
- Cael cynlluniau busnes terfynol gan gwmnïau rhwydwaith, cyn cyhoeddi ein penderfyniadau cychwynnol a therfynol, ynglŷn â sut y byddem yn cymhwyso fframwaith RIIO-2 at bob rhwydwaith.

Yn y dyfodol, rydym yn bwriadu cyhoeddi penderfyniadau drafft ym mis Gorffennaf 2020 ar gyfer y rheolaethau prisiau nesaf ar gyfer dosbarthu nwy, trawsyrru nwy a thrydan ac i Weithredwr y System Drydan, a fydd yn dechrau ym mis Ebrill 2021. Rydym hefyd yn bwriadu nodi'r fethodoleg fanwl ym mis Gorffennaf 2020 ar gyfer rheolaeth prisiau dosbarthu trydan sy'n dechrau ddwy flynedd yn ddiweddarach

## Rhyng-gysylltwyr

Bydd gwell rhyng-gysylltiad yn rhoi mwy o gapasiti, hyblygrwydd a chydnerthedd yn ein system drydan. Yn sgil sefydlu ein trefniadau capio a phennu terfyn isaf ar gyfer buddsoddiad newydd mewn rhyng-gysylltwyr trydan, rydym wedi parhau i weithio gyda datblygwyr i roi cymeradwyaeth reoleiddiol ar gyfer rhyng-gysylltiadau newydd wrth i'r prosiectau hyn fynd drwy gamau adeiladu a gweithredu.

Yn ystod y flwyddyn:

- Yn dilyn ymgynghoriad ar ein safbwynt i "ystyried" ar adolygiad ôl-adeiladu Cysylltiad Nemo ar gyfer ei rhyng-gysylltwr trydan, cyhoeddwyd penderfyniad gennym, a oedd yn nodi'r gwerthoedd a bennwyd gennym ac yn gosod lefelau terfynol y Cap a'r Terfyn Uchaf.
- Cyhoeddwyd papur ymgynghori ar newidiadau arfaethedig i drwydded rhyng-gysylltwr trydan National Grid IFA2, i weithredu'r trefniadau capio a phennu terfyn isaf, rhwng systemau Trawsyrru Prydain Fawr a Ffrainc, a ddatblygwyd ar y cyd â Réseau de Transport d'Électricité. Disgwylir penderfyniad yn 2020

## Sicrwydd rhwydweithiau

Yn unol â'n Camau Gweithredu Datgarboneiddio, parhawyd i roi cyngor i helpu Llywodraeth EM i benderfynu ar fodelau ariannu yn y dyfodol ar gyfer ffynonellau ynni carbon isel. Mae hyn yn cynnwys model ariannu sylfaen asedau rheoleiddiedig ar gyfer prosiectau ynni niwclear, a thechnolegau eraill o bosibl megis dal a storio carbon.

## Ymateb i faterion sy'n ymwneud â pherfformiad rhwydweithiau

Yn sgil toriad pŵer mawr ym mis Awst 2019, cynhaliwyd ymchwiliad gennym i ganfod yr amgylchiadau a'r achosion a'r gwersi y gellir eu dysgu er mwyn gwella cydnerthedd rhwydwaith ynni Prydain Fawr. Edrychodd yr ymchwiliad hefyd ar gydymffurfiaeth â'r partïon dan sylw a drwyddedwyd â rhwymedigaethau eu trwydded a chodau. Ym mis Ionawr 2020, nodwyd ein canfyddiadau allweddol. Roedd y rhain yn cynnwys y canfyddiad nad oedd y trwyddedeion isod, i bob golwg, wedi bodloni eu gofynion o ran trwyddedau na chodau a thanlinellodd y digwyddiad bwysigrwydd prosesau cadarn ar gyfer cydymffurfiaeth y diwydiant.

- Mae Hornsea 1 Limited a RWE Generation UK plc ill dau wedi cydnabod eu rôl wrth gyfrannu at y toriad, gan gytuno i wneud taliadau gwirfoddol o £4.5m yr un i Gynllun Taliadau Unioni Gwirfoddol y Diwydiant Ynni.
- Mae Eastern Power Networks plc a South Eastern Power Networks plc ill dau wedi cydnabod eu bod wedi torri eu gofynion yn dechnegol, gan gytuno i wneud taliadau gwirfoddol o £1.5m gyda'i gilydd i Gynllun Taliadau Unioni Gwirfoddol y Diwydiant Ynni.

Ym mis Mai 2019, gwnaethom hefyd orffen ein hymchwiliad i gamadrodd a diffygion gweithdrefnol Cadent Plc mewn perthynas â'i waith o reoli Adeiladau Amlfeddiannaeth Uchel ar ei rwydwaith. Cymerodd Cadent gamau i ymchwilio i'r problemau a'u hunioni am gost o £3.6m a dalodd yn llawn, a gwnaeth daliad o £3m i Gronfa Taliadau Unioni Gwirfoddol yr Ymddiriedolath Arbed Ynni er mwy cydnabod ei ddiffygion

# Pennod 4: Rhagoriaeth mewn swyddogaethau statudol a chraidd

## Ein nod

Ar adeg o newid sylweddol ac ansicrwydd, mae'n hanfodol y gall defnyddwyr ddibynnu ar y rheoleiddiwr i ddiogelu eu buddiannau a sicrhau gwerth da a gwasasnaethau da gan y farchnad ynni.

Er mwyn sicrhau y cynhelir y lefel hon o ddiogelwch, parhawyd i ymrwymo i gyflawni rhagoriaeth wrth gyflawni ein swyddogaethau craidd a statudol. Mae'r swyddogaethau hyn yn cynnwys monitro'r farchnad, cydymffurfiaeth, gorfodi a chyflawni mentrau a chynlluniau mewn partneriaeth â Llywodraeth EM.

Bu pedair agwedd ar ein gwaith i sicrhau rhagoriaeth wrth gyflawni ein holl swyddogaethau statudol a chraidd:

A. Sicrhau trefniadau effeithiol ar gyfer trwyddedu a'r farchnad

B. Monitro'r farchnad a diogelu defnyddwyr yn rhagweithiol

C. Cyflawni rhaglenni ynni adnewyddadwy a chymdeithasol yn effeithiol

D. Gwella ein sgiliau a'n galluoedd arbenigol sy'n ymwneud â'r diwydiant.

**A. Sicrhau trefniadau effeithiol ar gyfer trwyddedu a'r farchnad**

Mae trefniadau Ofgem ar gyfer trwyddedu a'r farchnad ar waith er mwyn helpu i sicrhau bod y rhwydwaith ynni yn dal i fod yn ddibynadwy ac yn ddiogel i'w ddefnyddio, a bod cwsmeriaid yn dal i fod wedi'u cysylltu â rhwydwaith cynyddol effeithlon, a hefyd gael eu diogelu rhag arferion gwael.

Fel y nodir ar dudalen 10, cynhaliwyd adolygiad o drefniadau trwyddedu cyflenwyr manwerthu gennym, a chyflwynwyd gofynion mynediad newydd ym mis Gorffennaf 2019. Parhawyd hefyd i ymgynghori ar ofynion presennol a threfniadau ymadael, er mwyn sicrhau bod gan gyflenwyr brosesau rheoli risg effeithiol ar waith a'u bod yn cynnal trefniadau llywodraethu priodol, yn gwella eu hatebolrwydd, yn parhau â'u trosolwg o'r farchnad ac yn gwella profiad defnyddwyr dan sylw o'r Cyflenwr Pan Fetho Popeth Arall.

Ar gyfer ein trefniadau ar gyfer y farchnad gyfanwerthu, ystyriwyd cynigion newydd ar gyfer codi tâl am drawsyrru nwy a chyhoeddwyd cynnig mewn ymateb ar gyfer sylwadau, er mwyn adlewyrchu'r defnydd newidiol o'r rhwydwaith a chydymffurfiaeth â strwythurau tariffau cysoni cod yr UE. Ceir rhagor o fanylion ar dudalen 16.

Gwnaethom hefyd ddatblygu a chyhoeddi trefniadau wrth gefn ar gyfer ymchwiliadau REMIT, pe bai'r DU yn gadael yr UE heb gytundeb. Er bod Llywodraeth EM yn parhau i ddatgan ei bwriad i adael yr UE gyda chytundeb, fel rheoleiddiwr cyfrifol, rydym wedi cynllunio ar gyfer pob digwyddiad posibl, gan gynnwys gadael heb gytundeb.

**B. Monitro'r farchnad a diogelu defnyddwyr yn rhagweithiol**

Drwy ein gwaith parhaus o fonitro'r farchnad ynni manwerthu, ein nod yw parhau i gael dealltwriaeth sy'n seiliedig ar dystiolaeth o dueddiadau'r farchnad ac iechyd cyflenwyr ynni manwerthu unigol, fel y gallwn ymateb yn effeithiol i ddiogelu defnyddwyr.

Yn ystod y flwyddyn, parhawyd i fod yn ymrwymedig i bwysleisio i gwmnïau ynni eu dyletswydd i roi eu defnyddwyr yn gyntaf – drwy ein dull o ymgysylltu a monitro – yn unol â'u rhwymedigaethau rheoliadol. Ein nod, fel bob amser, oedd gweld mwy o ymwybyddiaeth o'u rhwymedigaethau i ddefnyddwyr, a'u bod yn gwella eu gallu i nodi risgiau a'u rheoli'n effeithiol. Lle y bydd pethau'n mynd o chwith, rhaid i ddefnyddwyr gael eu trin â pharch, a hynny heb oedi a, lle bo angen, rhaid cynnig taliadau unioni addas. Er mwyn llywio hyn, parhawyd i fonitro'r farchnad ynni gyfanwerthu a'r farchnad ynni fanwerthu.

Os bydd cwmnïau ynni yn methu â gweithredu yn unol â'u rhwymedigaethau, rydym yn ymgymryd â gwaith achos cydymffurfiaeth, sy'n gofyn am weithgarwch gorfodi mewn rhai achosion. Yn 2019-20, cwblhawyd 37 o achosion cydymffurfiaeth a gorfodi lle y talwyd arian i ddefnyddwyr ar ffurf ad-daliadau a/neu iawndal, a/neu talwyd arian fel cosb neu i'r gronfa taliadau unioni gwirfoddol. Hefyd, cyhoeddwyd pedwar Gorchymyn Dros Dro a naw Gorchymyn Terfynol yn ystod y cyfnod hwn. Cafodd

defnyddwyr fudd gwerth £71 miliwn o'r gwaith hwn. Mae Atodiad II yn nodi'r gweithgarwch gorfodi a gynhaliwyd gennym yn 2019-20, crynodeb o'r camau a gymerwyd o ganlyniad i'n gwaith o fonitro'r farchnad gyfanwerthu a'r farchnad fanwerthu, a'n gweithgarwch ar gydymffurfiaeth. Yn unol â'n rhwymedigaethau adrodd statudol, mae'r Atodiad hwn yn cynnwys crynodeb o'r gorchmynion terfynol a thros dro a wnaed gan yr Awdurdod yn ystod blwyddyn adrodd 2019-20 ynghyd â chrynodeb o'r cosbau a osodwyd gan yr Awdurdod yn ystod yr un cyfnod.

Parhawyd hefyd i sicrhau gwerth gorau i ddefnyddwyr drwy'r rhwydweithiau ynni, gan gynnwys cyflawni pedair rheolaeth prisiau yn effeithiol o dan ein fframwaith RIIO-1. Yn ystod y flwyddyn, cawsom geisiadau am gyllid newydd gan bob un o'r chwe Gweithredwr Rhwydwaith Dosbarthu trydan yn ystod cyfnod "ailagor" 2019 a oedd yn cwmpasu amrywiaeth o brosiectau o dan y rheolaeth prisiau dosbarthu trydan. Cadarnhaodd ein penderfyniadau ym mis Hydref 2019 y byddem yn caniatáu £64m o gyllid i Weithredwyr Rhwydweithiau Dosbarthu fuddsoddi mewn prosiectau diogelwch safleoedd ffisegol, gwaith stryd a thrydaneiddio rheilffordd, ond yn gwrthod tua £258 miliwn ar gyfer prosiectau y rhoddwyd cyfiawnhad gwael drostynt neu nad oeddent yn rhoi digon o werth am arian i ddefnyddwyr, yn ein barn ni.

**C. Cyflawni rhaglenni ynni adnewyddadwy a chymdeithasol yn effeithiol**

Mae Ofgem yn cyflwyno portffolio o gynlluniau ynni adnewyddadwy a rhaglenni cymdeithasol ar ran ein partneriaid yn y llywodraeth. Mae'r cynlluniau hyn yn werth dros £9bn y flwyddyn ac yn ystod y degawd diwethaf maent wedi gwneud cyfraniad sylweddol at y broses o ddatgarboneiddio ynni a chost gwresogi i rai o'r bobl mewn sefyllfa fregus iawn. Mae ein perthynas â'n partneriaid yn y llywodraeth yn seiliedig ar roi gwerth da am arian i drethdalwyr, o ran ein gweinyddiaeth a hefyd drwy sicrhau ein bod yn diogelu arian cyhoeddus pan fyddwn yn gwneud taliadau i'r rhai sy'n cyfranogi mewn cynlluniau. Fe'i hategir gan amcan clir i ddiogelu buddiannau defnyddwyr.

O ystyried graddfa'r gwaith hwn, rydym wedi datblygu ein gallu a'n hadnodau'n hwb gwaith penodol sylweddol sy'n rhychwantu ein swyddfeydd yn Glasgow a Llundain. Yn ystod y flwyddyn, rydym wedi datblygu ein gallu ac wedi gweithio'n agos gyda'n partneriaid yn y llywodraeth i bennu ein blaenoriaethau cyflawni a'n hawydd i gymryd risgiau ac arweiniodd hyn at gyfres o flaenoriaethau clir y gwnaethom weithio tuag at eu cyflawni dros y flwyddyn diwethaf, sef:

- Diogelu pwrs y wlad:
  - o Buddsoddi mewn sicrwydd ym meysydd archwilio, risg, twyll a chydymffurfiaeth
  - o Rheoli'n annibynnol y dirwedd a reolir gennym a'i sicrhau.
- Cyflawni ein hagenda ddeddfwriaethol:
  - o Ymgysylltu â'r farchnadd a galluogi mynediad at y cynlluniau a weinyddir gennym
  - o Canolbwyntio ar brosesu ceisiadau mewn modd cadarn ac amserol.
- Gwneud penderfyniadau sy'n gadarn yn gyfreithiol:
  - o o Cymhwyso ein hawydd i gymryd risgiau i ddiogelu pwrs y wlad mewn ffordd gyfreithlon, ond a all gael ei herio.
- Sicrhau bod unrhyw newid deddfwriaethol yn cael ei roi ar waith:
  - o Rheoli unrhyw newidiadau i'r drefn reoleiddio, paratoi canllawiau ac ymgysylltu â'n rhanddeiliaid
  - o Parhau â'r holl waith adrodd deddfwriaethol ar gyfer cynlluniau.
- Galluogi ymgeiswyr a chyfranogwyr gael mynediad at y cynlluniau:
  - o Cynnal ein systemau er mwyn rhoi mynediad hawdd i'r cyhoedd
  - o Ailysgrifennu dwy o'n cofrestrau allweddol.

Er i ni gyflawni cryn dipyn yn erbyn y blaenoriaethau hyn, roeddem hefyd yn wynebu llawer o gyfyngiadau cyllidebol, a oedd yn golygu bod yn rhaid i ni beidio â blaenoriaethu'r gwaith o ddatblygu ein systemau, ymgysylltu â rhanddeiliaid, a gwella rhai o'n hamseroedd proseu. Yn benodol, canolbwyntiwyd ar ddiogelu pwrs y wlad, cyflwyno rhaglen archwilio ystadegol lawn ar y cymhellion gwres adnewyddadwy a hefyd gefnogi gwaith Adran Economi Gogledd Iwerddon ar archwilio safleoedd cymhellion gwres adnewyddadwy a gefnogwyd gan ei chynllun.

## Trydan Adnewyddadwy

Mae cynlluniau'r Rhwymedigaeth Ynni Adnewyddadwy a'r Tariff Cyflenwi Trydan bellach ar gau i newydd-ddyfodiaid, ond byddant yn parhau i roi cymorth ar gyfer trydan adnewyddadwy cymwys dros y degawdau sydd i ddod. Rydym yn parhau i weinyddu'r ddau gynllun ar gyfer y cynhyrchwyr ynni achrededig a oedd yn cyfateb i fwy na 31% o holl gyflenwad trydan y DU yn 2018-19, gan sicrhau y parheir i gydymffurfio â nhw. Yn ystod 2018-19, gwerth cyfunol y cynlluniau hyn oedd £7.4bn.

Hon oedd nawfed flwyddyn y cynllun Tariff Cyflenwi Trydan. Tyfodd cyfanswm y capasiti a ddefnyddir o dan y cynllun o 6.02 gigawatt ym mlwyddyn wyth i 6.21 gigawatt ym mlwyddyn naw, sef cynnydd o 3%. Cynhyrchodd gosodiadau tariff cyflenwi trydan gyfanswm o 8,454 o oriau gigawatt.

Rhoddwyd 105.9 miliwn o dystysgrifau rhwymedigaeth ynni gennym, yn seiliedig ar 79.1 o oriau terawatt o gynhyrchu ynni adnewyddadwy. Ynghyd â'r 8.45 o oriau terawatt a gynhyrchwyd gan osodiadau tariff cyflenwi trydan, mae'r ffigur hwn yn cynyddu i 31.8% o'r cyfanswm.

Yn ystod 2018-19, methodd 21 o gyflenwyr â chyflawni eu rhwymedigaethau, a arweiniodd at ddiffyg o £97.5m yn y gronfa allbrynu. Arweiniodd y diffyg hwn at gilyddu am yr ail dro yn hanes cynllun y Rhwymedigaeth Ynni Adnewyddadwy.

Ym mis Ionawr 2020, cyflwynodd Llywodraeth EM y Gwarant Allforio Clyfar, sy'n sicrhau bod cyflenwyr sydd dan rwymedigaeth yn darparu generaduron, o dan 5 megawatt, am bris cadarnhaol ar gyfer y trydan y maent yn ei allforio i'r grid. Yn wahanol i gynlluniau cymorth trydan blaenorol, arweinir y cynllun hwn gan y farchnad, gyda rôl Ofgem yn canolbwyntio ar gydymffurfiaeth cyflenwyr, ac fel y cyfryw, ni chofnodir unrhyw wybodaeth achredu.

## Cymhelliant Gwres Adnewyddadwy

Cyflwynwyd y cynllun Cymhelliant Gwres Adnewyddadwy Domestig yn 2014 ac, erbyn 31 Mawrth 2020, rydym wedi achredu 76,000 o geisiadau ers lansio'r cynllun. Ers 2014, mae'r cynllun wedi cynhyrchu mwy na 44,544 o oriau gigawatt o wres adnewyddadwy.

Ym mis Rhagfyr 2019, roedd mwy na 19,800 o gyfranogwyr wedi cofrestru â'r Cynllun Cymhelliant Gwres Adnewyddadwy Annomestig, gan roi dros £2.3 biliwn o gymorth i'r rhai sy'n trosglwyddo gwres adnewyddadwy.

Hefyd, mae'r cynllun Cymhelliant Gwres Adnewyddadwy Annomestig yn cefnogi'r broses o roi Bionwy yn y grid. Dros y flwyddyn diwethaf, mae hyn wedi cefnogi dros 90 o safleoedd sy'n rhoi "nwy gwyrdd" yn y grid. Er mwyn ein helpu i gofrestru'r safleoedd hyn a sicrhau bod gweithfeydd ond yn cael cymorth os ydynt yn gymwys, lansiwyd "cais am dystiolaeth" ynglŷn â chomisiynu gweithfeydd bionwy, er mwyn ceisio nodi prosesau cyffredin, a'n helpu i gofrestru'r safleoedd hyn a sicrhau bod gweithfeydd ond yn cael cymorth os ydynt yn gymwys.

Parhawyd i gefnogi'r gwaith o weinyddu Cynllun Cymhelliant Gwres Adnewyddadwy Gogledd Iwerddon, gan gynnwys y rhaglen arolygu. Yn y cyfnod cyn cyhoeddi adroddiad yr ymchwiliad i Gynllun Gwres Adnewyddadwy Gogledd Iwerddon ym mis Mawrth 2020, gwnaethom weithio'n agos gyda Llywodraeth Gogledd Iwerddon i fynd i'r afael â'r pryderon a godwyd yn ystod yr ymchwiliad ac rydym yn ystyried unrhyw oblygiadau i weinyddiaeth ein cynlluniau yn y dyfodol ac i Ofgem yn fwy cyffredinol.

## Rhaglenni Effeithlonrwydd Ynni a Chymdeithasol

Parhaodd ein gwaith o weinyddu'r Rhwymedigaeth Cwmni Ynni drwy gydol y flwyddyn, a rododd gymorth i ddefnyddwyr sydd mewn sefyllfa fregus, gan eu helpu i leihau cost gwresogi eu cartrefi. Ar ôl lansio trydydd cam y cynllun hwn, ym mis Ionawr 2020, gwelwyd newid mawr yn y ffordd rydym yn ei gyflawni, er mwyn cynnwys rhanddeiliad trydydd parti. Bydd TrustMark, sef corff sicrwydd ansawdd, bellach yn goruchwylio cydymffurfiaeth yr holl fesurau ôl-osod a roddir ar waith o dan y cynllun. Gweithwyd yn agos gyda TrustMark er mwyn sicrhau y gallem ddibynnu ar ei brosesau i ymgymryd â'r mesurau diogelu defnyddwyr a'r safonau ansawdd a gyflwynwyd gennym wrth weinydddu'r cynllun Rhwymedigaeth Cwmni Ynni.

Rydym hefyd wedi gweithio gyda phanel o arbenigwyr i asesu 48 o geisiadau am gymorth ychwanegol ar gyfer mesurau arloesol.

Rydym yn parhau i weinyddu'r Gostyngiad Cartrefi Cynnes, a ddarparodd £140 yr un i fwy na 2.2 miliwn o gwsmeriaid mewn sefyllfa fregus sy'n wynebu'r risg o dlodi tanwydd neu sydd mewn tlodi tanwydd. Dros oes y cynllun, mae wedi darparu dros £2.45 biliwn o gymorth uniongyrchol i ddefnyddwyr mewn sefyllfa fregus a mentrau'r diwydiant.

## Sicrwydd

Mae ein Hwb Sicrwydd E-Serve bellach wedi gweithredu'r system o wiriadau a rheolaethau a elwir yn "Dair Llinell Amddiffyn", gyda'r nod o sicrhau bod ein prosesau mewnol a'n prosesau gwneud penderfyniadau yn gadarn a bod ein risgiau'n cael eu rheoli'n dda.

Yn ystod y flwyddyn, aethom ati i feithrin ein gallu i ddadansoddi data, gan eu defnyddio i nodi tueddiadau o ran peidio â chydymffurfio a dechrau deall y data a gasglwn oddi wrth gyfranogwyr mewn cynlluniau yn fwy trwyadl. Ein nod yw bod hyn yn ein helpu i wahaniaethu rhwng gwallau o ganlyniad i achosion gwirioneddol o beidio â chydymffurfio a gweithgareddau twyllodrus.

Dros y flwyddyn diwethaf, cynhaliwyd dros 2,500 o archwiliadau o gyfranogwyr mewn cynlluniau a hefyd gyflenwyr sydd dan rwymedigaeth. Gwelwyd cynnydd o 20% yn nifer yr archwiliadau ystadegol o'r cynllun Cymhelliant Gwres Adnewyddadwy Domestig a chynnydd o 50% yn nifer yr archwiliadau wedi'u targedu ar gyfer generaduron tariff cyflenwi trydan. Hefyd, oherwydd yr oedi yn y rhaglen o archwiliadau yn 2018-19, bu'n rhaid i ni fwrw ymlaen â'r rhain ochr yn ochr â'n harchwiliadau ar gyfer 2019-20.

Rydym yn nodi lefel y gwallau a chamliwio y mae ein gwaith gweinyddol yn eu canfod ac yn eu hatal. Dros y flwyddyn ariannol diwethaf, gwnaeth ein gwaith atal gwallau gwerth dros £601 miliwn a chanfod gwallau gwerth dros £4.4 miliwn, y gallwn fynd i'r afael â nhw ar y cyd â chyfranogwyr mewn cynlluniau. Daw'r swm mwyaf o'r RO (~£0.5 biliwn) ac felly mae'n atal hyn rhag cael ei drosglwyddo i dalwyr biliau. Mae'r ffigur gwallau cyffredinol hwn yn deillio'n bennaf o benderfyniadau cadarn i wrthod ceisiadau a wneir yn ein hwb gweithrediadau a chamau a gymerir gan ein hwb sicrwydd a chydymffurfiaeth i gywiro gwallau, er enghraifft lle mae cyfranogwyr yn ein cynlluniau yn gwneud camgymeriadau wrth gyflwyno data i ni.

## Technoleg

Rydym wedi dechrau ar y gwaith o ailysgrifennu'r system TG sy'n sail i'n gwaith o weinyddu'r cynlluniau trydan adnewyddadwy, a fydd, yn y pen draw, yn disodli ein cofrestr, sydd wedi bod ar waith ers dros ddeng mlynedd. Rydym wedi ymgymryd â'r gwaith hwn mewn cydweithrediad agos â thîm strategaeth ddigidol Llywodraeth EM, sy'n anelu at greu cynnyrch sy'n fwy ystyriol o ddefnyddwyr. Drwy weithredu mewn ffordd "Ystwyth" wrth ddatblygu'r system hon, dylai fod modd i ni ailddefnyddio elfennau a luniwyd ar gyfer y system hon mewn cynlluniau eraill, megis y system sy'n sail i'r cynllun Cymhelliant Gwres Adnewyddadwy Annomestig, y bu'n rhaid i ni beidio â'i blaenoriaethu yn 2019-20.

**D. Gwella ein sgiliau a'n galluoedd arbenigol sy'n ymwneud â'r diwydiant**

Yn ystod y flwyddyn, parhawyd i ddefnyddio arbenigedd ein staff er mwyn sicrhau bod ein gwasanaethau cymorth a chyflawni yn cyfrannu'n effeithiol at ein gwaith datblygu polisi. Roedd hyn yn cynnwys cyngor gan gydweithwyr arbenigol cyfreithiol, economaidd, peirianyddol, ymchwil ymddygiad, data a seiberddiogelwch. Yn benodol, parhawyd i sicrhau ansawdd modelau sy'n hanfodol i'r busnes, asesu effaith a gwerthuso, yn unol â'r argymhellion yn adolygiad Trysorlys EM o sicrhau ansawdd modelau dadansoddol y Llywodraeth.[2] Drwy'r gwaith hwn, rydym yn helpu ein timau polisi i ddatblygu eu modelau dadansoddol ac adolygu eu dadansoddiadau cost a budd a'u hasesiadau o effaith.

Yn benodol, parhawyd i sicrhau ansawdd modelau sy'n hanfodol i'r busnes, asesu effaith a gwerthuso, yn unol â'r argymhellion yn adolygiad Trysorlys EM o sicrhau ansawdd modelau dadansoddol y Llywodraeth. Drwy'r gwaith hwn, rydym yn helpu ein timau polisi i ddatblygu eu modelau dadansoddol ac adolygu eu dadansoddiadau cost a budd a'u hasesiadau o effaith.

[2] https://www.gov.uk/government/publications/review-of-quality-assurance-of-government-models

# Pennod 5: Ein rhanddeiliaid ym Mhrydain Fawr

Erys ymgysylltu â rhanddeiliaid wrth wraidd ein gwaith, felly rydym yn ystyried amrywiaeth eang o safbwyntiau yn ein gwaith i reoleiddio'r system ynni. Oherwydd Covid-19, adolygwyd y ffordd rydym yn ymgysylltu er mwyn lleihau beichiau ar y sector a symudwyd y gweithgarwch ymgysylltu sy'n weddill i lwyfannau rhithwir. Cynhaliwyd y rhan fwyaf o'r gweithgarwch ymgysylltu a ddisgrifir isod cyn pandemig Covid-19

## Ymgysylltu â defnyddwyr a'r rhanddeiliad

Yn 2019-20, rydym wedi parhau i gynnal digwyddiadau a gweithdai ym mhob rhan o Brydain Fawr er mwyn siarad â rhanddeiliaid gwahanol fel rhan o'n prosesau gwneud penderfyniadau. Eleni, cynhaliwyd pedair cynhadledd ynni ym Mhort Talbot, Birmingham, Glasgow a Llundain i ymgynghori ar ein Blaenraglen Waith a'n Cynllun Gweithredu Datgarboneiddio. Daeth cryn nifer o'r sector ynni i'r rhain. Gwahoddwyd hefyd y grwpiau hynny sydd weithiau heb gynrychiolaeth ddigonol yn ein digwyddiadau, megis grwpiau defnyddwyr ac elusennol bach a chwsmeriaid diwydiannol a masnachol mawr er mwyn sicrhau eu bod yn rhan o'r trafodaethau.

Fel rhan o'r Cynllun Gweithredu Datgarboneiddio, gwahoddwyd defnyddwyr ynni'r dyfodol drwy banel gweithwyr proffesiynol ifanc er mwyn trafod heriau datgarboneiddio a'r cyfaddawdau cysylltiedig yn y sector ynni. Lluniwyd partneriaeth hefyd â'r elusen addysgol 'Inspiring the Future', er mwyn i blant ysgol lleol gyflwyno eu safbwyntiau am ddatgarboneiddio yn y digwyddiadau a chael cymryd rhan yn y trafodaethau.

Parhawyd â'n rhaglen ymgysylltu i'n huwch-arweinwyr drwy ymweliadau â rhanddeiliaid a defnyddwyr ledled Prydain Fawr. Roedd hyn yn cynnwys ymweld ag ardal wledig Northumberland i glywed am yr heriau sy'n gysylltiedig â thlodi tanwydd gwledig. Gwelsom rai prosiectau ynni arloesol eithriadol ar Ynys Môn, gan gynnwys Parth Arddangos Morol Morlais. Rydym wedi parhau i gyfarfod â Citizens Advice Scotland a'u swyddfeydd yn rheolaidd er mwyn clywed yn uniongyrchol gan ddefnyddwyr am yr heriau y maent yn eu hwynebu ac ymwelsom â siop gyfleustra yn Surrey i drafod yr adolygiad o ficrofusnesau.

Fel yn ystod blynyddoedd blaenorol, cynhaliodd yr Awdurdod gyfarfodydd yng Nghaerdydd, yn Glasgow ac, am y tro cyntaf eleni, yng Ngogledd-ddwyrain Lloegr. Yn ogystal â chyfarfodydd bwrdd, ymwelodd yr aelodau â nifer o randdeiliaid lleol er mwyn cael cipolwg gwerthfawr ar y gwaith sy'n cael ei wneud yn y gymuned. Yng Nghymru, ymwelwyd ag Ynni Lleol Llangatwg, sef ateb system ynni arloesol, ac ar yr un daith, ymwelwyd hefyd â Phrosiect Gwresogi Hybrid FREEDOM ym Mhen-y-bont ar Ogwr a Fferm Wynt a Pharc Ynni Pen y Cymoedd. Yn Sunderland, cyfarfu'r aelodau â defnyddwyr a oedd wedi cael budd o gynlluniau ynni a gwelsant rwydwaith gwres arall yn Loch Lomond yn yr Alban. Hefyd, cynhaliwyd ciniawau â swyddogion y llywodraeth a rhanddeiliaid lleol i drafod yr heriau lleol yn y sector ynni.

Eleni, rydym wedi bod yn gweithio gydag elusennau lleol yn Glasgow a Llundain drwy weithgareddau gwirfoddoli a chodi arian. Mae nifer o grwpiau ac elusennau defnyddwyr hefyd wedi rhoi cyflwyniadau i'n staff ar eu gwaith gyda defnyddwyr a'r heriau y maent yn eu hwynebu yn ogystal â'r gwaith o weithredu polisïau Ofgem yn llwyddiannus neu gyflawni cynlluniau amgylcheddol a chymdeithasol.

Rydym yn parhau i redeg nifer o weithgorau i gyfarfod â grwpiau rhanddeiliaid allweddol megis defnyddwyr mawr ac academyddion. Rydym hefyd yn siarad mewn nifer mawr o ddigwyddiadau ledled y wlad. Mae prif areithiau gan ein huwch-dîm ar gael ar ein gwefan.

Rydym wedi cynnal nifer o weminarau dros y flwyddyn. Ers Covid-19, rydym wedi cynyddu ein gweithgarwch ymgysylltu digidol yn sylweddol a byddwn yn parhau i ymgysylltu'n rhithwir â rhanddeiliaid ledled Prydain Fawr gan dreialu technoleg newydd i wella rhyngweithio a thrafodaethau.

## Ymgysylltu â'r Llywodraeth

Mae ein gwaith yn cynnwys ymgysylltu'n rheolaidd ag adrannau a gweinidogion y llywodraeth (yn enwedig BEIS) ac rydym wedi parhau i rannu ein dealltwriaeth a'n harbenigedd yn ein rôl fel y rheoleiddiwr ynni dros y flwyddyn diwethaf. Mae Ofgem yn atebol i Senedd y DU, ac mae ein tîm cysylltiadau allanol yn bwynt cyswllt dynodedig i gynrychiolwyr etholedig ledled Prydain Fawr. Rydym yn gweithio i sicrhau deialog rheolaidd ynghylch camau gweithredu Ofgem i ddiogelu defnyddwyr, a'r gwaith o ddatblygu ein Blaenraglen Waith. Rydym wedi cyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig a llafar i ymchwiliadau seneddol perthnasol, wedi anfon siaradwyr i grwpiau trawsbleidiol, yn ogystal â chynnal cyfarfodydd â seneddwyr unigol ynglŷn â materion yn ymwneud ag ynni a lefel genedlaethol ac etholaethol.

# Pennod 6: Adroddiad ar yr Effaith ar Ddefnyddwyr

## Dangos y buddiannau rydym yn eu sicrhau

Fel rheoleiddiwr y sector, mae Ofgem yn gwneud popeth o fewn ei allu i sicrhau gwerth da i ddefnyddwyr ynni a hefyd sicrhau bod y farchnad ynni yn gweithio cystal â phosibl i bawb. Rydym yn cael ein hariannu drwy ffi trwydded a godwn ar y diwydiant ynni ac sy'n cael ei thalu, yn y pen draw, gan ddefnyddwyr drwy eu biliau ynni. Felly, mae'n bwysig ein bod yn ennyn ymddiriedaeth defnyddwyr drwy ddangos y buddiannau rydym yn eu sicrhau am yr arian a delir ganddynt. Cyhoeddwyd ein trydydd Adroddiad ar yr Effaith ar Ddefnyddwyr ar gyfer y flwyddyn ariannol 2019-20 ym mis Mehefin 2020.

Mae ein gwaith yn rhychwantu'r system ynni cyfan. Rydym yn ystyried cannoedd o faterion cymhleth bob blwyddyn, ac mae ein penderfyniadau yn cael dylanwad mawr ar y ffordd y mae'r system ynni yn gweithio. **Rydym yn hyderus ein bod, yn gyffredinol, yn sicrhau gwerth gwirioneddol i ddefnyddwyr ynni ym Mhrydain Fawr.**

## Nodi ac asesu'r buddiannau rydym yn eu sicrhau i ddefnyddwyr

Rydym yn dilyn proses drylwyr o asesu buddiannau clir disgwyliedig ein penderfyniadau mawr. Mae hyn yn dilyn fframwaith a elwir yn Asesiad o'r Effaith. Mae'n defnyddio canllawiau gan Drysorlys EM i sicrhau safon uchel, gyson o ddadansoddi buddiannau a chostau disgwyliedig ein penderfyniadau. Rydym yn anelu at gyfrifo'r buddiant clir mewn £ i ddefnyddwyr y gallai'r penderfyniad ei greu o gymharu â chostau ei weithredu. Fodd bynnag, yn aml, nid oes modd gwneud hynny. Felly, rydym hefyd yn ystyried y buddiannau hyn i ddefnyddwyr mewn ffordd fwy ansoddol y tu hwnt i'r ffigurau ariannol. Mae hyn yn llawn cyn bwysiced â'r buddiannau a fesurwyd. Un enghraifft amlwg o hyn yw ein gwaith dros ddefnyddwyr mewn sefyllfaoedd bregus sy'n sicrhau buddiannau sylweddol, ond rhai anodd i'w mesur. Enghraifft arall yw ein gwaith monitro a chydymffurfiaeth, lle y gall buddiannau uniongyrchol y camau a gymerir yn erbyn cwmnïau fod yn gymharol fach, ond mae effaith ataliol ein parodrwydd i weithredu yn debygol o sicrhau buddiannau llawer mwy. Nid yw'r broses yn berffaith. Er enghraifft, bydd rhai o'n penderfyniadau mawr yn parhau am flynyddoedd – mewn sector ynni sy'n newid yn gyflym, a chymdeithas sy'n newid o hyd, sut y gallwn fod yn sicr y bydd y buddiannau a ddisgwyliwn heddiw yn digwydd mewn gwirionedd? A sut y gallwn fod yn sicr bod penderfyniadau a wnaed gennym yn y gorffennol yn sicrhau buddiannau yn awr? Mae hon yn her rydym yn ei chydnabod. Dyna pam rydym yn gweithio'n agos gydag arbenigwyr academaidd a rhanddeiliaid eraill er mwyn sicrhau bod ein prosesau asesu yn adlewyrchu arferion gorau presennol. Rydym hefyd yn bwriadu cynnal adolygiadau ôl-weithredol o rai o benderfyniadau rheoleiddio allweddol Ofgem er mwyn cadarnhau a yw ymyriadau wedi sicrhau'r buddiannau disgwyliedig.

## Faint mewn £ y disgwylir ei sicrhau i ddefnyddwyr?

Weithiau, mae ein penderfyniadau yn rhai arwyddocaol iawn a wneir yn dilyn blynyddoedd o waith (er enghraifft, ar ddyfodol rheolaeth prisiau rhwydwaith) ac weithiau maent ond yn golygu mân newidiadau i'r ffordd rydym eisoes yn disgwyl i'r farchnad weithredu. Gan fod maint effaith ein penderfyniadau yn anwastad, gyda nifer y penderfyniadau rheoleiddio mawr yn amrywio o un flwyddyn i'r llall, ond bod buddiannau'r penderfyniadau hyn yn rhai hirbarhaol fel arfer, rydym yn asesu buddiant mewn £ y penderfyniadau a wnaed gennym dros gyfnod aml-flwyddyn. Yn yr Adroddiad ar yr Effaith ar Ddefnyddwyr eleni, rydym yn asesu penderfyniadau a wnaed yn ystod y cyfnod o dair blynedd rhwng 2017-18 (pan gyhoeddwyd yr Adroddiad ar yr Effaith ar Ddefnyddwyr gyntaf) a 2019-20. Rydym yn disgwyl i'r penderfyniadau a wnaed gennym yn y blynyddoedd hyn sicrhau buddiannau gwerth £3,821.7 miliwn ar gyfartaledd i ddefnyddwyr. Nid ydym yn disgwyl i'r rhain ddigwydd yn ystod y tair blynedd hyn yn unig, ac y byddant yn cronni dros gyfnodau hwy o amser. O ystyried costau cyfartalog Ofgem ers 2017-18, sef £99.8 miliwn, mae hyn yn rhoi cymhareb cost a budd o 38.3.

## Trosolwg o'r buddiannau a sicrhawyd gennym

Yn ystod y flwyddyn ariannol 2019-20, sicrhaodd Ofgem y buddiannau mesuradwy canlynol i ddefnyddwyr.

Yn y farchnad fanwerthu, cyflwynwyd yr ail tranche o'r Safonau Perfformiad Gwarantedig, a oedd yn ymwneud ag oedi wrth newid rhwng cyflenwyr ynni, cyfrifoldeb am newidiadau drwy gamgymeriad, a methiant i roi bil terfynol yn amserol. Rydym yn disgwyl i'r safonau hyn fod yn gymhelliant i wella ymddygiad cyflenwyr a chyfrannu at wneud defnyddwyr yn fwy parod eto i ymgysylltu â'r farchnad, ac i annog cyflenwyr i wella eu systemau ar yr un pryd. Rydym yn disgwyl y bydd y mesurau yn sicrhau buddiannau gwerth £63 miliwn i ddefnyddwyr dros flwyddyn ynghyd â buddiannau anariannol eraill.

Lansiwyd adolygiad o'r ffordd rydym yn trwyddedu ac yn rheoleiddio cyflenwyr yn 2018 er mwyn codi safonau ynglyn â chadernid ariannol a gwasanaeth cwsmeriaid. Bydd hyn yn helpu i wella safonau i ddefnyddwyr ac, o bosibl, yn lleihau achosion o gyflenwyr yn gadael y farchnad ac yn amharu ar gwsmeriaid. Daeth y cam cyntaf o'n hadolygiad i ben ym mis Gorffennaf 2019 gyda diwygiadau i'n proses gwneud cais am drwydded, a fydd yn ein helpu i graffu'n well ar ddarpar newydd-ddyfodiaid. Mae hyn oll yn helpu blaenoriaeth ein Naratif Strategol i 'ddiogelu defnyddwyr, yn enwedig y rhai mewn sefyllfa fregus, drwy fynd i'r afael ag arferion diegwyddor a sicrhau eu bod yn cael eu trin yn deg' a 'galluogi cystadleuaeth ac arloesedd, gan ostwng prisiau a chreu cynhyrchion a gwasanaethau newydd o ganlyniad i hynny'.

Wrth reoleiddio rhwydweithiau a'r system ynni ehangach, gwrthodwyd derbyn tua £5.6m o gostau o ganlyniad i'r rheolaeth prisiau ar y Cwmni Data a Chyfathrebu. Gwnaethom leihau'r cap ar refeniw a'r terfyn isaf ar rhyng-gysylltwr Cysylltiad Nemo rhwng Prydain Fawr a Gwlad Belg, drwy leihau amlygiad defnyddwyr i risg a'i gwneud yn fwy tebygol y bydd taliadau cap drwy gydol y 25 mlynedd o'r drefn reoleiddio. Ym mis Hydref 2019, gwrthodwyd derbyn ceisiadau am arian gwerth tua £258m gan gwmnïau rhwydweithiau dosbarthu trydan ar gyfer prosiectau na roddwyd cyfiawnhad priodol drostynt neu a oedd yn rhoi gwerth gwael am arian, yn ein barn ni. Ataliwyd Rhwymedigaeth Creu Marchnad – Sicrhau a Hyrwyddo a ddaeth i rym ar 18 Tachwedd 2019 er mwyn osgoi costau anghymesur ac annheg o bosibl. Mae'r mesurau hyn yn helpu o ran blaenoriaethau ein Naratif Strategol i 'ddiogelu defnyddwyr' a 'galluogi cystadleuaeth ac arloesedd'. Mae ein gweithgareddau gorfodi a chydymffurfiaeth yn atal ac yn unioni ymddygiad anghyfreithlon neu wrthgystadleuol ac achosion o dorri amodau trwydded. Rydym am i ddefnyddwyr gael budd o ddatrys mewn modd amserol unrhyw niwed iddynt o ganlyniad i dorri amodau ac o berthynas well rhwng cyflenwyr a chwsmeriaid. O ran y penderfyniadau gorfodi a chydymffurfiaeth a wnaed gennym rhwng mis Ebrill 2019 a mis Mawrth 2020, rydym yn disgwyl buddiannau gwerth tua £71 miliwn i ddefnyddwyr.

Rydym hefyd yn gweithio i ddiwallu anghenion defnyddwyr mewn sefyllfa fregus. Mae dyletswydd statudol arnom i ystyried anghenion rhai grwpiau penodol o ddefnyddwyr mewn sefyllfa fregus, megis y rhai sydd ag anableddau neu gyflyrau iechyd hirdymor, o oedran pensiwn, ar incwm isel neu sy'n byw mewn ardaloedd gwledig. Rydym wedi ehangu hyn i gynnwys amrywiaeth ehangach o sefyllfaoedd bregus, gan gynnwys sefyllfaoedd bregus dros dro megis colli swydd, profedigaeth neu salwch meddwl byrdymor.

Cyhoeddwyd ein Strategaeth ar gyfer Defnyddwyr mewn Sefyllfa Fregus yn 2019, sy'n nodi ein blaenoriaethau tan 2025 er mwyn sicrhau bod defnyddwyr mewn sefyllfaoedd bregus wrth wraidd ein gwaith.

At hynny, rydym yn gweinyddu rhaglenni ynni gwyrdd a chymdeithasol ar ran Llywodraeth y DU sy'n mynd i'r afael â thlodi tanwydd ym Mhrydain Fawr ac yn helpu defnyddwyr mewn sefyllfaoedd bregus.

[3] Ofgem (2019) 'Strategic Narrative' p.8 https://www.ofgem.gov.uk/system/files/docs/2019/07/our-strategic-narrative-2019-23.pdf

Ymestynnodd y llywodraeth y cynllun Gostyngiad Cartrefi Cynnes tan fis Mawrth 2021 fel rhan o'i Strategaeth Tlodi Tanwydd. Bydd y cynllun Rhwymedigaeth Cwmni Ynni yn parhau tan fis Mawrth 2022 ac yn gosod rhwymedigaeth ar gyflenwyr mawr i gyflwyno mesurau effeithlonrwydd ynni i gartrefi ym Mhrydain Fawr. Mae ein gwaith i ddefnyddwyr sydd mewn sefyllfa fregus hefyd yn helpu i gyflawni blaenoriaeth ei Naratif Strategol i 'ddiogelu defnyddwyr, yn enwedig y rhai mewn sefyllfa fregus, drwy fynd i'r afael ag arferion diegwyddor a sicrhau eu bod yn cael eu trin yn deg'

## Edrych ymlaen at y flwyddyn nesaf

Mae tri maes ychwanegol o'n gwaith yn 2019-20 i 2020-21 rydym yn disgwyl y byddant yn cael effaith gadarnhaol sylweddol ar ein gwaith i ddefnyddwyr yn y dyfodol:

- Gwaith ar rwydweithiau a'r system ynni (Adolygiad o Daliadau Wedi'u Targedu, rheolaeth prisiau rhwydwaith RIIO-2, a'r trefniadau capio a phennu terfyn isaf) y gallem ei gynnwys yn ein hasesiad o fuddiannau defnyddwyr.
- Ein Cynllun Gweithredu Datgarboneiddio, a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2020, sy'n nodi'r camau cychwynnol y byddwn yn eu cymryd i helpu i gyflawni allyriadau nwyon tŷ gwydr sero net erbyn 2050.
- Ein Fframwaith Effaith Ddosbarthiadol a gyhoeddwyd ym mis Mai 2020, a fydd yn ein helpu i asesu pa grwpiau o ddefnyddwyr a all neu na allant gael budd o benderfyniadau penodol y gallem eu gwneud.

Dyma'r prif enghreifftiau ac mae'n debygol y bydd rhagor. Byddwn yn anelu at ymgorffori'r rhain, ac unrhyw rai eraill, yn ein hasesiad o fuddiannau defnyddwyr yn y dyfodol.

# Pennod 7: Adroddiad Cynaliadwyedd

## Uchafbwyntiau:

- Gostyngodd teithio hedfan domestig 41% o gymharu â'r llynedd
- Mae'r defnydd o garbon mewn adeiladau wedi gostwng 15% o gymharu â'r llynedd
- Yn Llundain, mae'r hyn sy'n cael ei argraffu gennym yn llai nag 20% o'r hyn a fu cyn 2010.

Rydym wedi mabwysiadu arferion gweithio doethach ac wedi uwchraddio ein cyfleusterau fideogynadledda sydd wedi cyfrannu'n fawr at y gwelliannau hyn.

Rydym ar y trywydd cywir i gyflawni Targedau Gwyrddu'r Llywodraeth, sy'n cynnwys yr amcanion canlynol (yn erbyn llinell sylfaen o 2009-10):

- **Lleihau carbon cyffredinol 32%**
- **Lleihau gwastraff tirlenwi i 10% o gyfanswm gwastraff**
- **Cynyddu'r gyfran o wastraff a ailgylchir**
- **Lleihau defnydd o bapur 50%**
- **Lleihau'r defnydd o ddŵr**


Eleni, rydym wedi sefydlu Grŵp Cynaliadwyedd Mewnol a arweinir gan y staff. Mae'n rhwydwaith cydweithredol i'r staff sydd â diddordeb mewn cyflawni ein potensial fel sefydliad i ddangos arweinyddiaeth ar yr hinsawdd.

Ymhlith y meysydd y canolbwyntir arnynt ar hyn o bryd mae:

- **Adolygu ein heffaith amgylcheddol fel sefydliad a nodi meysydd lle y gallwn wella ymhellach.**
- **Cynnig ffordd i'r staff gyfrannu syniadau ar gyfer dileu rhwystrau i ymddygiad gwyrdd a chyflawni ein hamcanion o ran datgarboneiddio.**
- **Cyflwyno mentrau diwylliannol i rymuso staff i gyfrannu'n gadarnhaol at gynaliadwyedd drwy newid ymddygiad, codi ymwybyddiaeth a datblygu arweinwyr ar yr hinsawdd.**

Mae'r rhan fwyaf o'r data sy'n ymwneud ag eiddo isod yn cyfeirio at ein swyddfa yn Llundain yn unig, y mae eu cyfleustodau yn cael eu mesur a'u dosrannu rhwng tenantiaid yr adeilad. Mae landlord ein swyddfa yn Glasgow yn llai parod i rannu gwybodaeth a chan ein bod yn talu cost sefydlog am y cyfleustodau a ddefnyddir gennym, ni allwn ddarparu unrhyw ddata ac felly nid ydym yn cynnwys Glasgow yn ein cyfrifiadau lle y bo'n gymwys.


## Cyfanswm Carbon




Mae cyfanswm y carbon wedi gostwng 34% o gymharu â'r llynedd. Mae hyn yn cynnwys gostyngiad o 15% mewn carbon adeilad a gostyngiad o 38% mewn carbon teithio.


Mae'r gostyngiad o ran carbon adeilad yn deillio o'r gwaith gyda rheolwyr ein swyddfa yn Hwb y Llywodraeth yn Canary Wharf (10 South Colonnade, neu "10SC") ac uwchraddio System Rheoli'r Adeilad. Mae'r Grŵp Cynaliadwyedd Mewnol ar y cyd â rheolwyr 10SC yn gobeithio parhau â'r gwelliannau hyn.

## Defnydd Carbon gan FTE




Mae'r gostyngiad cyffredinol mewn carbon yn golygu i ni gyflawni gostyngiad o 35% yn y defnydd o garbon fesul gweithiwr CALI o gymharu â'r llynedd.

## Teithio Carbon




Bu gostyngiad o 39% yng nghyfanswm y teithiau y flwyddyn ariannol hon o gymharu â'r llynedd. Er bod rhywfaint o'r gostyngiad hwnnw o ganlyniad i Covid-19, dim ond o fis Chwefror ymlaen bu cyfyngiadau ar deithio, felly mae effaith y pandemig yn gymharol fach. Y prif reswm dros y gostyngiad mewn carbon teithio yw bod teithiau hedfan domestig wedi gostwng 41%, yn rhannol drwy gynyddu teithio ar y trên 33%. Mae teithio domestig ar y rheilffordd chwe gwaith yn fwy effeithlon o ran carbon na hedfan. Mae hyn wedi arwain at ostyngiad o 38% yng nghyfanswm carbon teithio.

Mae gwaith i uwchraddio ein cyfleusterau fideogynadledda er mwyn cefnogi lleihad yn nifer y cyfarfodydd wyneb yn wyneb a gynhelir wedi cyfrannu'n fawr at leihau carbon teithio o gymharu â 2018-19.


Rydym yn dal wrthi'n gwneud rhagor o welliannau ac rydym yn annog defnydd gwell o dechnoleg a gweithio doethach er mwyn lleihau teithio yn y dyfodol.

| Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr | | 2009-10 | 2018-19 | 2019-20 |
|---|---|---|---|---|
| Dangosyddion Anariannol ($tCO_2e$) | Cyfanswm yr allyriadau gros | 1,670 | 1,015 | 671 |
| | Fesul CALI | 2.23 | 1.43 | 0.92 |
| | Cyfanswm yr allyriadau net | 1,671 | 1,015 | 860 |
| | Cwmpas 1: Allyriadau nwyon tŷ gwydr uniongyrchol | 511 | 49 | 7 |
| | Cwmpas 2: Allyriadau nwyon tŷ gwydr anuniongyrchol ynni | 1,045 | 431 | 330 |
| | Cwmpas 3: Allyriadau nwyon tŷ gwydr anuniongyrchol eraill | 115 | 535 | 334 |
| Data Defnydd Cysylltiedig (kWh) | Trydan: Adnewyddadwy (k) | 1,130 | 1,521 | 1,292 |
| | Nwy (k) | 1,578 | 269 | 35 |
| Dangosyddion Ariannol | Gwariant ar ynni | £138,240 | £308,870 | - |
| | Gwariant ar deithiau busnes swyddogol | N/A | £523,530 | - |

## Effeithlonrwydd ynni yn ein hadeiladau

Defnyddir Tystysgrifau Ynni i'w Harddangos i ddangos effeithlonrwydd ynni adeiladau cyhoeddus. Gradd y Dystysgrif Ynni i'w Harddangos ar gyfer adeilad cyfan 10SC yw F-143. Credwn y gellid gwella hyn a byddwn yn gweithio gyda rheolwyr 10SC i ddeall ble y defnyddir ynni yn well ac ystyried cyfleoedd ar gyfer mesurau rheoli gwell ar gyfer systemau ein hadeilad, yn enwedig goleuadau.

### Gwastraff




Mae ein gwastraff dros y flwyddyn diwethaf wedi cynyddu 17 tunnell.

Caiff y cynnydd hwn ei wrthbwyso gan y ffordd y cyfrifwyd am wastraff yn ystod y flwyddyn flaenorol. Symudodd Ofgem i 10SC ym mis Ebrill 2018 fel y deiliad cyntaf a dim ond ar ddiwedd yr haf y dechreuodd rhagor o ddeiliaid ddod nes bod yr adeilad yn llawn erbyn mis Hydref 2018. Gan fod gwastraff yn cael ei ddosrannu rhwng deiliaid yr adeilad, mae'r cynnydd y llynedd, o'i allosod, yn cyfateb yn fras i lefelau 2018-19 ac ni fydd modd cymharu'n gywir tan y flwyddyn adrodd nesaf


Nid ydym wedi tirlenwi gwastraff ers 2010, sef un o Dargedau'r Llywodraeth a gyflawnwyd ac y parhawyd i'w gyflawni ers 2010.

| Gwastraff | | | 2009-10 | 2018-19 | 2019-20 |
|---|---|---|---|---|---|
| Non-financial indicators (tonnes) | Targed | | - | - | - |
| | Cyfanswm y Gwastraff | | 149 | 26 | 43 |
| | Cyfanswm y Gwastraff fesul CALI | | 0.2 | 0.04 | 0.05 |
| | Gwastraff Peryglus | | 1 | - | - |
| | Gwastraff nad yw'n Beryglus | Tirlenwi | 23 | 0 | 0 |
| | | Ailddefnyddiwyd/ Ailgylchwyd | 81 | 15 | 28 |
| | | Llosgi/ ynni o wastraff | 44 | 11 | 16 |
| Financial indicators | Cyfanswm y Gost Gwaredu | | £11,845 | £9,798 | - |

## Defnydd o Bapur

Y nod datganedig yw lleihau faint o bapur a ddefnyddir 50% o'r flwyddyn llinell sylfaen.

### Dirywiad yn y maes argraffu yn Llundain





Yn ein swyddfa yn Llundain, mae'r hyn sy'n cael ei argraffu llai nag 20% o'r hyn a fu cyn 2010. Mae ein swyddfa yn Glasgow wedi aros yr un fath i raddau helaeth am y tair blynedd diwethaf, a hynny oherwydd yr angen i argraffu dogfennau yn ein swyddfa yn Glasgow i fodloni gofynion statudol y cynlluniau amgylcheddol y mae Ofgem yn eu goruchwylio.

## Dŵr

Mae ein defnydd o ddŵr fesul CALI wedi lleihau fymrym o gymharu â'r llynedd ac mae islaw'r nod o 6m$^3$ a ddatganwyd gennym yn flaenorol.

### Dŵr fesul FTE




| Dŵr | | | 2009-10 | 2018-19 | 2019-20 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Dangosyddion Anariannol** | **Targed** | | | **6.00** | |
| | Defnydd o Ddŵr (m$^3$) | Cyflenwyd | 7,116 | 3,608 | 3,875 |
| | | Per FTE | 9.5 | 5.6 | 4.2 |
| **Dangosyddion Ariannol** | Costau Cyflenwi Dŵr | | £9,026 | £8,444 | |



**Jonathan Brearley**
Prif Weithredwr

**15 Gorffennaf 2020**

# Adroddiad ar Atebolrwydd



# Adolygiad ariannol

## Nodir dangosyddion perfformiad allweddol Ofgem yn Atodiad 1.

Yn ystod y flwyddyn, defnyddiodd Ofgem ei gyllideb i gefnogi ei Flaengynllun Gwaith ac ar ddiwedd y flwyddyn roedd wedi tanwario o £53,000 (all-dro o £648,000 o gymharu â'r amcangyfrif o £701,000). Y prif reswm dros hyn oedd bod rhai prosiectau mawr wedi datblygu'n arafach na'r bwriad gwreiddiol. Nid oedd Ofgem yn gallu defnyddio'r gyllideb gyfalaf a neilltuwyd at ddibenion adnewyddu TG yn llawn, gan wario £682,000 yn llai na'r amcangyfrif. Y rheswm dros hyn oedd yr oedi wrth gynhyrchu oherwydd effaith Covid-19.

Prif ffynhonnell incwm Ofgem yw'r ffioedd trwyddedu sy'n daladwy gan y sector. Defnyddir unrhyw warged (dros adennill ffioedd, lle mae'r gwariant yn llai na'r gyllideb) i leihau'r ffioedd a godir y flwyddyn ganlynol. Cafodd ffioedd trwyddedu 2019-20 a oedd yn daladwy eu lleihau o warged 2018-19, sef £2.995 miliwn.

Derbyniwyd incwm o £76.149 miliwn gan y sector yn 2019-20, a oedd £3.955 yn fwy na'r gwariant. Felly, caiff ffioedd trwyddedu 2020-21 a godir ar y sector eu lleihau o'r gwarged o £3.955 miliwn.

Costau staff yw'r rhan fwyaf o gostau Ofgem. Roedd cyfanswm y costau staff £3.655 miliwn (6%) yn uwch yn 2019-20 o gymharu â 2018-19, a oedd yn adlewyrchu cyfraniadau pensiwn ychwanegol yn bennaf. Cynyddodd nifer y staff hefyd, a oedd yn adlewyrchu'r gofynion ychwanegol o ran rheoleiddio a chyflawni cynlluniau, ochr yn ochr ag ymdrech i leihau dibyniaeth ar staff asiantaeth, gyda gwariant Ofgem ar staff asiantaeth yn gostwng £3.993 miliwn (50%) dros y flwyddyn.

Cafwyd cynnydd net o £2.077 miliwn mewn darpariaethau ariannol (lle mae Ofgem wedi neilltuo cyllideb yn awr ar gyfer taliad tebygol yn y dyfodol). Y prif ffactor ysgogi oedd cynnydd o £1.531 miliwn i gydnabod costau posibl yn y dyfodol sy'n gysylltiedig â swyddfa Ofgem yn Llundain.

Cydnabuwyd £0.515 miliwn o leihad mewn gwerth yn ystod y flwyddyn er mwyn adlewyrchu newid yn oes ddisgwyliedig rhai o'r asedau.

# Adroddiad Llywodraethu Corfforaethol

## Adroddiad y Cyfarwyddwyr

Yr Awdurdod Marchnadoedd Nwy a Thrydan ("yr Awdurdod") sy'n gwneud pob penderfyniad mawr ac sy'n pennu blaenoriaethau polisi. Mae'r Awdurdod yn cynnwys aelodau gweithredol ac anweithredol.

### Aelodau gweithredol o'r Awdurdod a wasanaethodd yn ystod y flwyddyn:

- Penodwyd Dermot Nolan, y Prif Swyddog Gweithredol, ym mis Chwefror 2014. Nid yw'n gyfarwyddwr mewn unrhyw gwmni arall. Gadawodd Ofgem ar 31 Ionawr 2020.
- Ymunodd Jonathan Brearley, Cyfarwyddwr Gweithredol, System a Rhwydweithiau ag Ofgem ym mis Mai 2016 ac fe'i penodwyd i'r Awdurdod ym mis Tachwedd 2018. Fe'i penodwyd yn Brif Swyddog Gweithredol ac ymgymerodd â'r rôl ar 1 Chwefror 2020.
- Ymunodd Sarah Cox, Prif Swyddog Gweithredu, ag Ofgem ym mis Mai 2016 ac fe'i penodwyd i'r Awdurdod ym mis Tachwedd 2018. Mae'n Ddirprwy Gadeirydd ac yn Aelod Bwrdd o CSSC (Chwaraeon a Hamdden) ac yn gynghorydd i'r Awdurdod Seilwaith a Phrosiectau (Amddiffyn a Rhyngwladol, gan wasanaethu, er enghraifft, fel cynghorydd annibynnol ar y Bwrdd cynghrair strategol gyda'r Weinydiaeth Amddiffyn, Babcock a BAE Systems; ac fel arweinydd tîm risg uchel). Gadawodd Ofgem ar 31 mis Mawrth 2020.
- Ymunodd Mary Starks, Cyfarwyddwr Gweithredol, Defnyddwyr a Marchnadoedd, ag Ofgem ym mis Medi 2018 ac fe'i penodwyd i'r Awdurdod ym mis Tachwedd 2018. Mae'n un o ymddiriedolwyr elusen Working Families.

### Aelodau anweithredol o'r Awdurdod a wasanaethodd yn ystod y flwyddyn:

- Ymunodd Martin Cave ym mis Gorffennaf 2018 fel cyfarwyddwr anweithredol, ac fe'i penodwyd yn Gadeirydd ym mis Hydref 2018 am gyfnod o bum mlynedd. Mae'n Athro gwadd yn Adran y Gyfraith yn Ysgol Economeg Llundain, yn gynghorydd i Gomisiwn Masnach Seland Newydd, yn gynghorydd i Brifysgol Chalmers, Sweden ac yn aelod bwrdd o'r Ganolfan ar Reoleiddio yn Ewrop (CERRE), sef melin drafod ym Mrwsel.
- Ymunodd Christine Farnish ym mis Ionawr 2016. Daw ei phenodiad i ben ym mis Ionawr 2021. Mae'n un o gyfarwyddwyr anweithredol Ofwat, yn aelod anweithredol o Fwrdd Grŵp Zopa a Chadeirydd Zopa ltd (busnes benthyca rhwng cymheiriaid Zopa), ac yn aelod o fwrdd cynghori defnyddwyr Fairer Finance.
- Ymunodd yr Athro Paul Grout ym mis Hydref 2012. Daw ei benodiad i ben ym mis Medi 2022. Mae ganddo Gadair mewn Economi Wleidyddol ym Mhrifysgol Caerfaddon ac ef yw Cadeirydd y grŵp cynghori arbenigol ar gyfer Loteri Cenedlaethol 4 yn y Comisiwn Gamblo a'r Uwch Gynghorydd ar Gystadleuaeth ym Manc Lloegr.
- Ymunodd Keith Lough ym mis Hydref 2012. Ef yw Cadeirydd Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yr Awdurdod. Mae'n gyfarwyddwr anweithredol, ac ef yw Uwch-gyfarwyddwr Annibynnol Rockhopper Exploration Ltd. Mae hefyd yn un o gyfarwyddwyr anweithredol Cairn Energy plc, ac yn gyfarwyddwr anweithredol ac yn uwch-gyfarwyddwr annibynnol yn Hunting plc. Gadawodd y Bwrdd ar 31 Gorffennaf 2019.
- Ymunodd Ann Robinson ym mis Gorffennaf 2018. Daw ei phenodiad i ben ym mis Gorffennaf 2023. Mae'n gwneud gwaith pro bono gydag elusennau, yn cadeirio a hwyluso cyfarfodydd, yn gweithio gydag Ofwat ar ei Adolygiad o Brisiau ac agor y farchnad i BBaChau yn ogystal â chadeirio cwmni y mae'r Cyngor Diogelwch Trydan yn berchen arno.

- Ymunodd Lynne Embleton ym mis Gorffennaf 2018. Daw ei phenodiad i ben ym mis Gorffennaf 2023. Mae'n brif weithredwr yn IAG Cargo, yn aelod o bwyllgor rheoli IAG, yn un o gyfarwyddwyr anweithredol Bwrdd BA ac yn gyfarwyddwr yn Zenda.
- Ymunodd John Crackett ym mis Rhagfyr 2018. Daw ei benodiad i ben ym mis Rhagfyr 2023. Mae wedi cyflawni rolau anweithredol yn y Swyddfa Rheoleiddio Niwclear ac mewn cwmni telathrebu.Mae hefyd wedi bod yn aelod o Fwrdd y Fyddin, mae'n cynghori'r Weinyddiaeth Amddiffyn ar gynhyrchu a dosbarthu trydan, ac mae'n weithgar gydag elusennau tai ac elusennau i gyn-filwyr.
- Ymunodd Myriam Madden ym mis Ionawr 2020 fel un o gyfarwyddwyr anweithredol a Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg. Daw ei phenodiad i ben ym mis Ionawr 2025. Mae wedi dal uwch swyddi gweithredol ym maes cyllid a gweithrediadau mewn cwmnïau technoleg byd-eang, gwasanaethau ariannol yn y DU, yr UD ac Ewrop, yn ogystal â'r sector cyhoeddus.
- Ymunodd Barry Panayi â'r Bwrdd ym mis Mawrth 2020. Daw ei benodiad i ben ym mis Mawrth 2025. Ef yw Prif Swyddog Data Grŵp Bancio Lloyds.

Ystyrir bod yr aelodau anweithredol yn annibynnol ar y rheolwyr ac maent yn cyfrif am y mwyafrif o aelodau'r Awdurdod.

## Buddiannau arwyddocaol eraill a ddelir gan aelodau'r Awdurdod

Mae Keith Lough, sydd wedi gweithio i gwmnïau ynni yn y gorffennol, yn aelod o gynllun pensiwn cyn-gyflogwr. Gweinyddir y cynllun hwn yn unol â rheolau'r Rheoleiddiwr Pensiwn ac mae ar wahân i fusnes y cwmni a reoleiddir.

## Trefniadau archwilio

Y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol, a benodwyd o dan statud ac sy'n atebol i Senedd y DU, sy'n archwilio'r cyfrifon adnoddau a'r datganiadau ymddiriedaeth. Cost dybiannol archwilio'r cyfrifon adnoddau a'r datganiad ymddiriedaeth oedd £100,000 (2018–19: £85,000). Ni thalwyd unrhyw gydnabyddiaeth, gwirioneddol neu dybiannol, i archwilwyr am waith nad oedd yn waith archwilio.

Mae'r Swyddog Cyfrifyddu wedi gwneud popeth y dylai ei wneud er mwyn sicrhau ei fod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i gadarnhau bod ein harchwilwyr yn ymwybodol o'r wybodaeth honno. Nid yw'n ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw ein harchwilwyr yn cael mynediad ati.

Mae ein gwasanaeth archwilio mewnol yn mesur ac yn gwerthuso'n annibynnol pa mor ddigonol, dibynadwy ac effeithiol yw ein systemau rheoli a rheolaeth ariannol. Mae'n gwneud argymhellion ac yn rhoi adroddiad sicrwydd i'r swyddog cyfrifyddu bob blwyddyn. Rydym wedi gosod y swyddogaeth archwilio mewnol ar gontract allanol er mwyn sicrhau ein bod yn cael dadansoddiad ac argymhellion annibynnol a phroffesiynol. Cyflawnodd Deloitte y swyddogaeth archwilio mewnol am ran o'r flwyddyn, nes i'w gontract ddod i ben ar 30 Mehefin 2019. Cynhaliwyd proses gaffael gystadleuol yn 2019 a phenodwyd Mazars i ddarparu'r gwasanaeth o 26 Medi 2019 am gyfnod cychwynnol hyd at 31 Mawrth 2021.

Fel rhan o'n proses sicrwydd cyflawni prosiectau, rydym yn cael sicrwydd annibynnol ar wahân ar gamau allweddol prosiect. Gosodwyd y gwasanaeth hwn ar gontract i Deloitte, Mazars a chwmnïau eraill a oedd ar gael drwy ein fframwaith caffael yn ystod y flwyddyn.

# Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu

O dan Ddeddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000, mae Trysorlys EM wedi cyfarwyddo Ofgem i baratoi, ar gyfer pob blwyddyn ariannol, gyfrifon adnoddau yn nodi'r adnoddau a gafwyd, a ddaliwyd neu a waredwyd yn ystod y flwyddyn a'r defnydd ohonynt gan yr adran yn ystod y flwyddyn. Paratoir y cyfrifon ar sail croniadau a rhaid iddynt roi darlun cywir a theg o sefyllfa Ofgem ac o'i incwm a'r wariant, Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol a'r llifau arian parod ar gyfer y flwyddyn ariannol.

Wrth baratoi'r cyfrifon, mae'n ofynnol i'r Swyddog Cyfrifyddu fodloni gofynion Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth a gwneud y canlynol yn benodol:

- dilyn y Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddwyd gan Ofgem, gan gynnwys y gofynion cyfrifyddu a datgelu perthnasol, a chymhwyso polisïau cyfrifyddu addas yn gyson;
- llunio barn ac amcangyfrifon ar sail resymol;
- nodi p'un a ddilynwyd safonau cyfrifyddu cymwys, fel y'u nodwyd yn Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth, a datgelu ac egluro unrhyw wyriadau perthnasol yn cyfrifon;
- paratoi'r cyfrifon ar sail busnes gweithredol;
- cadarnhau bod yr Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon, yn eu cyfanrwydd, yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy a'i fod yn cymryd cyfrifoldeb personol am yr Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon a'r dyfarniadau sydd eu hangen i benderfynu ei fod yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy.

Mae Trysorlys EM wedi penodi'r Prif Swyddog Gweithredol yn Swyddog Cyfrifyddu Ofgem. Mae cyfrifoldebau Swyddog Cyfrifyddu, gan gynnwys cyfrifoldeb am briodoldeb a rheoleidd-dra'r arian cyhoeddus y mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn atebol amdano, am gadw cofnodion cywir ac am ddiogelu asedau Ofgem, wedi'u nodi yn Rheoli Arian Cyhoeddus, a gyhoeddwyd gan Drysorlys EM.

Fel y Swyddog Cyfrifyddu, rwyf wedi cymryd yr holl gamau y dylwn fod wedi eu cymryd er mwyn sicrhau fy mod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i gadarnhau bod archwilwyr Ofgem yn ymwybodol o'r wybodaeth honno. Hyd y gwn, nid oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw'r archwilwyr yn ymwybodol ohoni. Rwyf hefyd yn cadarnhau bod yr adroddiad blynyddol a chyfrifon, yn eu cyfanrwydd, yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy a fy mod yn cymryd cyfrifoldeb personol am yr adroddiad blynyddol a chyfrifon a'r dyfarniadau sydd eu hangen i benderfynu ei fod yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy.

# Datganiad Llywodraethu

## Pwy sy'n rhan o'r Awdurdod?

### Sut y gwneir penodiadau

Mae'r Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol yn penodi aelodau anweithredol yr Awdurdod ar ôl ymgynghori â'r Cadeirydd. Penodir aelodau gweithredol yr Awdurdod gan yr Ysgrifennydd Gwladol yn unol â Chod Rheoli'r Gwasanaeth Sifil. Maent yn dal eu swydd am gyhyd ag y byddant yn dal eu huwch swyddi yn Ofgem, yn amodol ar yr uchafswm cyfnodau swydd a nodir yn Nhrydydd Pecyn Ynni'r UE a'i reolau ynglŷn â phenodiadau i awdurdodau rheoleiddio cenedlaethol mewn aelod-wladwriaethau.

Dangosir manylion cydnabyddiaetha aelodau'r Awdurdod a'u trefniadau pensiwn yn yr adroddiad ar gydnabyddiaeth sy'n dechrau ar dudalen 49).

### Sut mae'r Awdurdod yn gweithio

Mae'r Awdurdod yn cyfarfod yn ffurfiol o leiaf 10 gwaith y flwyddyn. Yn ogystal â hynny, mae aelodau'r Awdurdod hefyd yn mynychu sesiynau briffio anffurfiol rheolaidd i'w galluogi i adolygu materion sy'n datblygu ar lefel uchel a gwasanaethu ar bwyllgorau'r Awdurdod, y nodir eu manylion isod.

Yn 2019-20, adolygodd y Cadeirydd berfformiad unigol aelodau'r Awdurdod, gan ystyried eu cyfraniadau i waith yr Awdurdod. Pennodd yr aelodau anweithredol eraill amcanion i'r Cadeirydd ar ôl trafodaeth ag ef a byddant yn adolygu ei berfformiad yn erbyn yr amcanion hyn.

Mae'r Awdurdod yn adolygu gweithgareddau, cynlluniau a pherfformiad y sefydliad yn erbyn ei amcanion strategol ac yn adolygu gweithgareddau a blaenoriaethau ei brif swyddogaethau cymorth. Caiff gweithgareddau a blaenoriaethau E-Serve eu hadolygu gan yr Awdurdod hefyd. Mae'r Awdurdod hefyd yn ystyried galluogrwydd ac iechyd y sefydliad ac yn gwneud penderfyniadau ar faterion rheoleiddio mawr penodol nad ydynt wedi'u dirprwyo.

Rydym yn anelu at wneud y defnydd gorau o'n hadnoddau a'n pwerau i wneud gwahaniaeth cadarnhaol dros y defnyddwyr presennol a defnyddwyr y dyfodol dros y blynyddoedd i ddod. Bob blwyddyn cyhoeddwn ein Blaenraglen Waith yn dilyn ymgynghoriad ac ymgysylltu â rhanddeiliaid. Cyhoeddwyd ein Blaenraglen Waith ddrafft ar gyfer y cyfnod estynedig o 2020-22 ar gyfer ymgynghoriad ym mis Rhagfyr 2019. Ym mis Mawrth 2020, cadarnhawyd, yng ngoleuni effaith Covid-19, mai'r ymgynghoriad a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2019 sy'n cynrychioli prosiectau arfaethedig Ofgem orau ac y byddwn yn cyhoeddi cyfrif llawnach o'n gwaith arfaethedig maes o law.

Rydym yn cyhoeddi cofnodion cyfarfodydd yr Awdurdod ar ein gwefan, ynghyd â chylch gorchwyl y pwyllgorau. Rydym hefyd yn paratoi agendâu dros dro ar gyfer prif gyfarfodydd yr Awdurdod. Mae'r Cadeirydd a'r aelodau anweithredol eraill yn chwarae rhan lawn ym musnes yr Awdurdod. Buont yn bresennol yng nghyfarfodydd llawn yr Awdurdod a chyfarfodydd pwyllgorau fel a ganlyn:

| Aelodau | Yr Awdurdod | Y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg | Bwrdd E-Serve | Pwyllgor Pobl a Chydnabyddiaeth | Pwyllgor RIIO 2 |
|---|---|---|---|---|---|
| Christine Farnish | 10/10 | - | 1/1 | 4/4 | 5/7 |
| Dermot Nolan | 8/8 | 2/2 | 2/2 | 4/4 | 4/5 |
| Sarah Cox | 10/10 | 3/3 | 3/3 | 5/5 | - |
| Mary Starks | 9/10 | - | - | - | - |
| Jonathan Brearley | 10/10 | 1/1 | 1/1- | 1/1 | 5/5 |
| Martin Cave | 10/10 | 2/3 | - | 5/5 | 5/5 |
| Ann Robinson | 8/10 | - | - | 4/5 | - |
| Keith Lough | 4/4 | 1/1 | - | - | - |
| Lynne Embleton | 10/10 | 3/3 | 1/1 | - | 2/4 |
| John Crackett | 10/10 | 1/1 | - | - | 5/5 |
| Paul Grout | 10/10 | - | 1/1 | 5/5 | 5/5 |
| Myriam Madden[1] | 2/2 | 1/1 | - | - | - |
| Barry Panayi[2] | 1/1 | - | - | - | - |

[1] Penodwyd Myriam Madden yn un o gyfarwyddwyr anweithredol yr Awdurdod ym mis Ionawr 2020.
[2] Penodwyd Barry Panayi yn un o gyfarwyddwyr anweithredol yr Awdurdod ym mis Mawrth 2020.

Cyfarfu'r Awdurdod yn Glasgow ar 26 Mehefin 2019, ac yn Durham ar 31 Gorffennaf 2019, gan ddefnyddio'r ddau achlysur i gyfarfod â chynrychiolwyr gwleidyddol a rhanddeiliaid ynni lleol yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat. Cynhaliwyd cyfarfodydd â phartïon â diddordeb ar ôl rhai o'r prif gyfarfodydd, gan roi cyfle i'r Awdurdod drafod pynciau cyfoes â rhanddeiliaid.

## Pa bwyllgorau sydd gan yr Awdurdod?

Mae strwythur yr Awdurdod, a ategir gan bwyllgorau sydd â chylch gorchwyl clir, yn ymdrechu i gefnogi trefniadau llywodraethu effeithiol.

### Y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg

Mae'r pwyllgor hwn yn cynghori'r Awdurdod a'r Swyddog Cyfrifyddu ar y canlynol:

- prosesau sicrwydd a chamau gweithredu mewn perthynas â rheoli risgiau;
- prosesau strategol ar gyfer risg, rheolaeth a llywodraethu;
- polisïau cyfrifyddu, cyfrifon ac adroddiad blynyddol y sefydliad;
- gweithgareddau arfaethedig a chanlyniadau gwaith archwilio mewnol ac allanol;
- digonolrwydd ymatebion rheolwyr i faterion a godir gan weithgarwch archwilio;
- polisïau gwrth-dwyll, prosesau chwythu'r chwiban a threfniadau ar gyfer ymchwiliadau arbennig.

Cyfarfu'r Pwyllgor dair gwaith yn ystod 2019-20. Tan fis Gorffennaf 2019, roedd y pwyllgor yn cael ei gadeirio gan Keith Lough. John Crackett oedd y Cadeirydd dros dro ar gyfer y cyfarfod ym mis Hydref 2019. Penodwyd Myriam Madden yn Gadeirydd y Pwyllgor pan ymunodd â'r Bwrdd ym mis Ionawr 2020. Mae Martin Cave a Lynne Embleton hefyd yn aelodau anweithredol o'r pwyllgor.

Eleni, roedd gwaith y pwyllgor yn cynnwys:

- cael adroddiadau gan archwilwyr mewnol ac allanol, gan gynnwys, er enghraifft, ar feysydd lle roedd gwendidau rheoli, yn ein barn ni, y gofynnwyd i'r archwilwyr mewnol eu hadolygu; monitro'r camau a gymerwyd i ymdrin â gwendidau yn deillio o adroddiadau sicrwydd,

y tynnwyd sylw'r Pwyllgor atynt gan unrhyw Is-bwyllgor arall o'r Awdurdod neu'r Bwrdd Gweithredol;

- cael adroddiadau ar faterion megis TG a seiberddiogelwch yn y sefydliad, yn ogystal â pholisïau a phrosesau gwrth-dwyll a chwythu'r chwiban, a'r camau a gymerwyd gan y sefydliad mewn ymateb i ddigwyddiadau andwyol.

## Pwyllgor Bwrdd E-Serve

Mae Bwrdd E-Serve yn gweithredu ar ran yr Awdurdod ac yn monitro effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd E-Serve wrth gyflawni ei weithgareddau perthnasol ac yn rhoi sicrwydd i'r Awdurdod ynghylch y ffordd y caiff y gweithgareddau hynny eu cyflawni. Mae Bwrdd E-Serve hefyd yn gwneud argymhellion i'r Awdurdod ynglŷn â phenderfyniadau allweddol sy'n effeithio ar E-Serve, gan gynnwys agweddau polisi, strategol a gweithredol pwysig ar waith E-Serve. Ei brif ffocws yw adolygu ac argymell strategaeth, cynlluniau busnes blynyddol a chyllideb gyffredinol E-Serve mewn perthynas â'r gweithgareddau perthnasol a chytuno ar amcanion a thargedau blynyddol E-Serve. Mae Bwrdd E-Serve yn cyfarfod dair gwaith y flwyddyn a chaiff ei gadeirio gan y Prif Swyddog Gweithredol.

## Panel Penderfyniadau Gorfodi

Mae'r Panel Penderfyniadau Gorfodi wedi cael ei sefydlu i wneud penderfyniadau mewn achosion gorfodi a ymleddir ar ran yr Awdurdod. Mae aelodau'r Panel yn arbenigwyr penodedig, sy'n sicrhau gwahaniad gweladwy rhwng swyddogaethau ymchwilio a gwneud penderfyniadau.  Ar ddechrau'r flwyddyn, John Swift CF oedd y Cadeirydd. O fis Mehefin 2019, daeth Megan Forbes yn Gadeirydd ar y Panel. Mae aelodau'r Panel hefyd yn cadeirio Pwyllgorau Setliadau Gorfodi (gweler yr adran nesaf). I gael rhagor o fanylion am y Panel Taliadau Gorfodi, gweler tudalennau'r panel ar wefan Ofgem https://www.ofgem.gov.uk/about-us/how-we-work/our-approach-regulation/enforcement-decision-panel.

## Pwyllgorau Setliadau Gorfodi

Gellir sefydlu Pwyllgorau Setliadau Gorfodi i benderfynu a ddylid awdurdodi gweithdrefn setliad mewn perthynas ag ymchwiliad o dan Ddeddf Cystadleuaeth 1998 neu mewn perthynas ag achosion honedig o dorri'r gyfraith o dan adrannau amrywiol o Ddeddf Nwy 1986, Deddf Trydan 1989 a deddfwriaeth arall. Penodir pwyllgorau ar wahân ar gyfer pob achos ac fel arfer maent yn cynnwys dau aelod o'r Panel Penderfyniadau Gorfodi a enwebir gan ei Gadeirydd yn ogystal ag Uwch Was Sifil a enwebir gan gadeirydd yr Awdurdod.

## Pwyllgor Pobl a Chydnabyddiaeth

Mae'r pwyllgor hwn, a gadeirir gan Christine Farnish, yn ystyried tâl a pherfformiad uwch-aelodau o staff, cynllunio ar gyfer olyniaeth, iechyd sefydliadol, amrywiaeth a chynhwysiant, a materion eraill sy'n ymwneud â phobl. Am fanylion aelodau'r pwyllgor, ei rôl, a chyflog a hawliadau pensiwn uwch aelodau o staff, gweler yr adroddiad ar gydnabyddiaeth yn ddiweddarach yn yr adran hon.

## Tasglu'r Bwrdd

Y llynedd, sefydlodd y Bwrdd Dasglu hefyd, a gadeirir gan Gadeirydd Ofgem ac sy'n cynnwys nifer o gyfarwyddwyr anweithredol, i oruchwylio'r defnydd effeithiol o gyllideb 2019-20 Ofgem a'i baratoadau ar gyfer yr Adolygiad o Wariant Y llynedd, sefydlodd y Bwrdd Dasglu hefyd, a gadeirir gan Gadeirydd Ofgem ac sy'n cynnwys nifer o gyfarwyddwyr anweithredol, i oruchwylio'r defnydd effeithiol o gyllideb 2019-20 Ofgem a'i baratoadau ar gyfer yr Adolygiad o Wariant.

# Sut y caiff perfformiad yr Awdurdod ei fesur?

Cynhaliwyd adolygiad o effeithiolrwydd y Bwrdd gan yr Ysgrifenyddiaeth ym mis Hydref 2019. Adolygiad llai manwl ydoedd. Daeth yr adolygiad i'r casgliad bod Bwrdd yr Awdurdod yn gweithredu mewn ffordd effeithlon, gydag aelodau anweithredol egnïol a phwrpasol yn gwneud cyfraniadau amrywiol; perthynas dda a oedd yn cynnwys her a gwrando rhwng aelodau gweithredol ac anweithredol; ac ymrwymiad clir gan y Cadeirydd sydd wedi cael effaith gadarnhaol ar y Bwrdd.

Cafodd y Bwrdd ei gryfhau yn 2019-20 drwy benodi dau gyfarwyddwr anweithredol newydd, a gynigiodd graffter ym maes cyfrifeg, cyllid a data i'r Awdurdod.

Bydd yr adolygiad nesaf o effeithiolrwydd y Bwrdd yn fanylach a chaiff ei gynnal yn ail hanner 2020.

## Y fframwaith llywodraethu gweithredol

### Uwch Dîm Arwain

Mae'r Uwch Dîm Rheoli yn cefnogi'r Prif Swyddog Gweithredol yn y gwaith o redeg Ofgem o ddydd i ddydd. Yn ystod 2019-20, roedd yr Uwch Dîm Arwain yn cynnwys pob un o'r aelodau gweithredol a ddangosir yn yr adroddiad ar gydnabyddiaeth, yn ogystal â'r Cwnsler Cyffredinol, y Prif Economegydd a'r Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro dros Systemau a Rhwydweithiau, yn dilyn penodiad Jonathan Brearley yn Brif Swyddog Gweithredol. Maent yn cyfarfod yn wythnosol ac yn penderfynu ar bopeth yn ymwneud â rheoli ac adnoddau, yn ddarostyngedig i reolaeth gyffredinol yr Awdurdod.

### Fframwaith Llywodraethu

Mae ein fframwaith llywodraethu gweithredol yn canolbwyntio ar arweinyddiaeth a strategaeth, prosesau gwneud penderfyniadau cyflym o ansawdd uchel a sicrhau ein bod yn defnyddio ein hadnoddau yn effeithlon ac yn effeithiol er budd defnyddwyr. Ar ôl cael ei benodi'n Brif Swyddog Gweithredol, mae Jonathan Brearley wedi dechrau adolygiad o lywodraethu gweithredol, er mwyn cefnogi prosesau gwneud penderfyniadau cadarn ac o ansawdd uchel a goruchwyliaeth effeithiol o'r sefydliad yn ei gyfanrwydd, gan gynnwys goruchwylio risgiau gweithredol a strategol yn effeithiol. Bydd hyn yn digwydd yn 2020-21. Roedd y byrddau gweithredol canlynol ar waith yn 2019-20 ac roeddent yn cyfarfod bob mis fel arfer.

### Bwrdd Perfformiad a Chyflawni

Mae'r Bwrdd Perfformiad a Chyflawni yn goruchwylio perfformiad lefel uchel y sefydliad ac yn dwyn timau i gyfrif am berfformiad a chyflawni ym mhob rhan o'r sefydliad, gan ystyried a gwneud y penderfyniadau gweithredol mwyaf arwyddocaol hynny. Y Bwrdd sy'n sicrhau ein bod yn rhoi gweithdrefnau a phrosesau busnes priodol a chadarn ar waith sy'n hwyluso gwaith cyflawni o safon uchel, a'n bod yn eu gweithredu'n effeithiol. Mae'r Bwrdd yn monitro ac yn herio cynnydd tuag at gyflawni ein rhaglen waith ac yn gwneud argymhellion i'r Awdurdod ynglŷn â sicrhau canlyniadau'r rhaglen waith ac unrhyw gamau unioni sydd eu hangen i gyflawni amcanion cynlluniau a chynnal effeithlonrwydd y sefydliad. Yn 2019-20, fel arfer, cyfarfu bob mis o dan gadeiryddiaeth y Prif Swyddog Gweithredu.

### Bwrdd Rheoleiddio

Mae'r Bwrdd Rheoleiddio yn sicrhau y creffir yn briodol ar brosesau gwneud penderfyniadau yn y sefydliad, yn rhoi arweiniad ar gam cynnar ar faterion polisi ac yn rhoi barn yr uwch dîm arwain ar faterion sy'n cael eu cyflwyno i'r Awdurdod. Nid yw'r Bwrdd yn gwneud penderfyniadau rheoleiddio – lle'r Awdurdod, neu unigolion ag awdurdod dirprwyedig yw gwneud y rhain. Cadeirir y Bwrdd bob yn ail gan y Cyfarwyddwr Gweithredol dros Ddefnyddwyr a Marchnadoedd, a'r Cyfarwyddwr Gweithredol dros Systemau a Rhwydweithiau. Yn 2019-20, cyfarfu bob mis fel arfer.

### Pwyllgor Llywodraethu a Chyflawni (E-Serve)

Diben y Pwyllgor hwn yw sicrhau bod gwaith llywodraethu, cyflawni cynlluniau a datblygu E-Serve yn cael ei wneud yn effeithiol ac yn effeithlon ac yn unol ag amcanion a strategaeth E-Serve, fel y pennir gan yr Awdurdod a Bwrdd E-Serve. Mae gan y Pwyllgor bwerau gwneud penderfyniadau gweithredol ar gyfer materion sydd o fewn i gwmpas, ond nid oes ganddo'r pŵer i wneud penderfyniadau ar gyfer unrhyw un o gynlluniau neu raglenni E-Serve sy'n swyddogaethau y mae'r Awdurdod yn gyfrifol amdanynt o dan y fframwaith cyfreithiol perthnasol. Mae'r Pwyllgor yn cyfarfod yn wythnosol a chaiff ei gadeirio gan Gyfarwyddwr E-Serve.

### Risg a Rheoli

Mae ein strategaeth Rheoli Risg yn amlinellu sut y dylid ymgorffori rheoli risg ym mhob rhan o Ofgem; sut y dylem nodi, gweinyddu a rheoli risgiau. Rydym yn cydnabod y gall amlygiad i risg arwain at ganlyniadau negyddol ond hefyd ganlyniadau

cadarnhaol: ein tasg yw rheoli nid yn unig y risgiau a all fod yn andwyol i ddefnyddwyr ond hefyd y cyfleoedd hynny a allai amlygu defnyddwyr i'r canlyniadau cadarnhaol sy'n deillio o gystadleuaeth a rheoleiddio gwell. Llywir y dull gweithredu gan:

- Naratif strategol y Bwrdd
- Strategaeth rheoli risg
- Awydd i gymryd risgiau
- Llywodraethu risgiau
- Risgiau strategol
- Hyfforddiant a chodi ymwybyddiaeth o risgiau.

Y Bwrdd sydd â'r cyfrifoldeb cyffredinol am y fframwaith rheoli risg, gan bennu ein hawydd i gymryd risgiau a chytuno ar ein themâu risg corfforaethol. Mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn cynnal adolygiadau tebyg cyn adolygiad yr Bwrdd, yn ogystal â chynnal adolygiad manwl sy'n cynnwys trafodaeth fanwl am risgiau neu faterion penodol, er mwyn sicrhau ei fod yn mynd at wraidd y materion dan sylw.

Mae ein tîm gweithredol yn pennu goddefiant risg ar gyfer ei feysydd cyfrifoldeb, yn adolygu cynlluniau lliniaru ar gyfer meysydd risg sylweddol o fewn ei gylch gwaith ac yn monitro symudiadau risg. Mae ein Bwrdd Perfformiad a Chyflawni yn cael adroddiadau rheolaidd o'n meysydd gweithgarwch amlycaf ac yn goruchwylio risgiau penodol a thematig a chynlluniau lliniaru cysylltiedig yn gyffredinol. Mae'r wybodaeth hon am risg yn helpu i sicrhau bod y bobl gywir yn cael y sgyrsiau cywir, fel y gallwn ddatblygu cynlluniau lliniaru yn brydlon, ac mae'n arbennig o ddefnyddio pan ddaw risgiau i'r amlwg sy'n rhychwantu meysydd polisi gwahanol. Hefyd, mae gan y Pwyllgor gyfrifoldeb cyffredinol am fonitro a chyfarwyddo gwaith rheoli risg gweithredol yn y sefydliad.

Caiff archwiliadau annibynnol o'n prosesau rheoli risg eu cynnal gan ein swyddogaeth Archwilio Mewnol ar gylch o ddwy i dair blynedd.

Er bod y ffordd rydym yn rheoli risg yn weithredol ym mhob rhan o'r adran, ceir rhai anghysondebau o ran y ffordd y mae'n gweithio'n ymarferol ac rydym yn cydnabod bod angen cryfhau'r dull gweithredu. Rydym yn cyflwyno fframwaith rheoli risg mwy ffurfiol ac yn cefnogi hyn drwy ddulliau cyfathrebu a hyfforddiant cadarn er mwyn sicrhau bod arferion gorau safonol yn gweithio'n effeithiol ym mhob rhan o'r Adran.

## Methiannau cyflenwyr ynni manwerthu

Mae'r nifer cynyddol o gyflenwyr yn y farchnad ynni yn ystod y blynyddoedd diwethaf wedi dod â buddiannau i ddefnyddwyr drwy fwy o gystadleuaeth o ran prisiau a phwysau ar y cyflenwyr presennol i wella'r gwasanaeth cwsmeriaid a gynigir ganddynt. Fodd bynnag, rydym hefyd wedi gweld cynnydd yn nifer y cyflenwyr sy'n methu. Mae gennym bwerau i benodi cyflenwr pan fetho popeth arall er mwyn sicrhau y caiff defnyddwyr eu diogelu os bydd eu cyflenwr ynni yn methu. Yn ystod y flwyddyn, aethom ati'n gyflym i benodi cyflenwr pan fetho popeth arall i ddiogelu tua 200,000 o gwsmeriaid pan adawodd saith cyflenwr y farchnad.

Mae ein broses o benodi cyflenwr pan fetho popeth arall yn sicrhau y caiff pob cyflenwad ynni a balansau credyd pob cwsmeri domestig eu diogelu, ac yn lleihau nifer biliau'r diwydiant heb eu talu i'r eithaf. Serch hynny, gall methiant darfu ar ddefnyddwyr a pheri dryswch iddynt. Gall hefyd arwain at gostau i gystadleuwyr a pherygl y caiff hyder defnyddwyr yn y farchnad ei danseilio.

Drwy ein Hadolygiad o Drwyddedu Cyflenwyr, rydym yn anelu at gryfhau ein cyfundrefn trwyddedu a rheoleiddio er mwyn codi safonau ymhlith cyflenwyr sy'n perfformio'n wael a lleihau'r risgiau ariannol sy'n wynebu cystadleuwyr a defnyddwyr, a gwasanaeth cwsmeriaid gwael, cymaint â phosibl. O ganlyniad i'n hadolygiad, ym mis Gorffennaf 2019, cyflwynwyd gofynion llymach er mwyn cael trwydded gyflenwi ac yn ystod hydref 2019 ymgynghorwyd ar y gofynion presennol a gofynion ymadael newydd i gyflenwyr, rydym yn anelu at eu llunio'n derfynol yn y flwyddyn sydd i ddod.

## Rheolaethau prisiau rhwydwaith

Parhaodd rhaglen rheolaethau prisiau rhwydwaith Ofgem i olrhain ei ddwy risg lefel uchaf yn ystod y flwyddyn. Rydym yn rheoli'r risgiau hyn drwy ein "tair llinell amddiffyn". Mae sicrwydd yn canolbwyntio ar sicrhau bod pob penderfyniad yn seiliedig ar resymau a thystiolaeth gadarn, y caiff risgiau cyfreithiol eu nodi a'u lliniaru'n rhagweithiol, ac y caiff ansawdd yr holl waith dadansoddi, ffigurau a modelau ei sicrhau'n drwyadl.

Mae'r tair llinell amddiffyn yn cynnwys:

- ▪Sicrwydd mewnol gan y rhai sy'n goruchwylio gwaith polisi a dadansoddi yn y sector.
- Sicrwydd mewnol gan arbenigwyr swyddogaethol (ORE; cyfreithiol; peirianyddol; a chyllid).

- Sicrwydd allanol gan adolygwyr sicrwydd a achredir gan y llywodraeth (Adolygiadau Porth IPA).

Ein risg lefel uchaf gyntaf yw nad yw ein penderfyniadau o'r ansawdd angenrheidiol ac nad oes modd eu hamddiffyn yn gyfreithiol. Caiff y risg hon ei lliniaru fel a ganlyn:

- Gweithredir mewn ffordd gyson i ddefnyddio methodolegau sy'n benodol i'r sector mewn penderfyniadau, gan adlewyrchu'r amcanion cyffredinol a'r egwyddorion dylunio cyfun sy'n sail i fframwaith RIIO-2.
- Caiff y dystiolaeth a'r dadansoddiad sy'n ategu penderfyniadau polisi a phenderfyniadau drafft a therfynol eu profi a'u sicrhau drwy adolygiadau mewnol ac allanol.
- Mae gan aelodau bwrdd rhaglenni allweddol rolau sicrwydd o ran sicrhau agweddau ar y rheolaeth sy'n ymwneud â materion technegol, cyllidol, peirianyddol, cyfreithiol a dadansoddoll.

Ein hail risg lefel uchel yw nad oes gennym yr adnoddau na'r gallu i reoli prisiau. Rydym wedi creu tîm mewnol cadarn sy'n cynnwys yr arbenigedd angenrheidiol ac sydd wedi penodi tair partner ymgynghorol strategol sy'n cynnig arbenigedd penodol yn ystod cyfnodau prysur o weithgarwch yn y cylch rheoli prisiau.

## Cyflawni cynlluniau cymdeithasol ac amgylcheddol

Mae Ofgem yn gyfrifol am gynlluniau cymdeithasol ac amgylcheddol gwerth mwy na £9 biliwn. Fel y cyfryw, rydym wedi gweithredu pwyllgor risg a sicrwydd ar wahân, sef Pwyllgor Risg a Sicrwydd E-Serve ("ERAC") ers 2017. Mae ERAC yn cyfarfod i geisio diweddariadau ffurfiol ar brosiectau allweddol, megis y gwaith i fynd i'r afael â chanfyddiadau adolygiad "gwerth am arian" y Swyddfa Archwilio Genedlaethol o'n cynlluniau Cymhelliant Gwres Adnewyddadwy.

Mae'r Pwyllgor hefyd yn edrych yn rheolaidd ar gynnydd wrth gymryd camau y cytunwyd arnynt o archwiliadau ac adolygiadau a gynhaliwyd mewn gwahanol rannau o weithgareddau E-Serve Ofgem.

Un o'i ddyletswyddau allweddol yw craffu ar y prif risgiau a materion y mae E-Serve yn eu hwynebu a chynnig arweiniad i berchenogion y risgiau ar y ffordd y dylid mynd i'r afael â nhw a phenderfynu lle mae angen uwchgyfeirio risgiau i Brif Swyddog Gweithredol Ofgem. Mae Cadeirydd ERAC yn rhoi diweddariadau rheolaidd ar y risgiau a'r materion a wynebir gan ein cynlluniau i Bwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg Ofgem ac i Fwrdd E-Serve.

Yn 2018, aeth E-Serve ati i ddiwygio'r ffordd y mae'n rheoli risg er mwyn gweithredu'n unol â'r egwyddorion a'r canllawiau a amlinellir yn Safon Brydeinig IS031000 ac mae wedi buddsoddi mewn staff penodol i helpu'r busnes i nodi a lliniaru'r risgiau sy'n gysylltiedig â gweinyddu ein cynlluniau cymdeithasol ac amgylcheddol yn llwyddiannus. Mae'r gwaith hwn yn golygu craffu ar risgiau tactegol a strategol bob mis a'u huwchgyfeirio yn Ofgem, pan fo angen. Mae'n golygu trafodaethau agored a thryloyw gyda'n partneriaid cyllido ynglŷn â'r risgiau a'r materion a wynebwn. Mae ERAC yn parhau i ystyried risgiau, yn ôl math, er mwyn sicrhau y cânt eu mesur mewn ffordd gywir a chsyon. O ganlyniad i'r gwaith hwn, mae nifer o risigau allweddol a oedd wedi aros yn ddigyfnewid wedi cael eu lleihau drwy roi adnoddau neu sylw ychwanegol.

Yn ystod y flwyddyn, creodd E-Serve gofrestrau unigol o risgiau a materion E-Serve er mwyn eu gwneud yn fwy gweladwy a chaiff y rhain eu cyflwyno i gynulleidfaoedd gwahanol yn unol â chylch y cytunwyd arno, i sicrhau trefniadau goruchwylio a rheoli effeithiol. O ganlyniad, cyflwynwyd rheolaethau newydd hefyd i liniaru risgiau hysbys a risgiau sy'n dod i'r amlwg.

Ar ddiwedd 2019, cwblhawyd gwaith i ailystyried awydd E-Serve i gymryd risgiau ac ystyried ein risgiau hysbys a risgiau a oedd yn dod i'r amlwg yng nghyd-destun y diwygiad hwnnw i'r awydd i gymryd risgiau.

## Cefnogi datgarboneiddio

Yn ystod y flwyddyn, cyhoeddwyd Cynllun Gweithredu Datgarboneiddio, er mwyn sicrhau y gallem ymateb yn effeithiol i dargedau allyriadau carbon sero net y Llywodraeth erbyn 2050. Drwy roi'r cynllun gweithredu hwn ar waith, rydym yn dangos sut rydym yn ymateb i'r heriau a nodwyd yn nogfen Naratif Strategol Ofgem. Hefyd, rydym wedi diwygio ein canllawiau mewnol ar Asesu Effaith er mwyn sicrhau mwy o dryloywder a chysondeb o ran

y ffordd rydym yn asesu effeithiau polisi ar lwybrau sero net a chostau datgarboneiddio i ddefnyddwyr a thrwy hynny atgyfnerthu'r gofyniad i gyfrif yn llawn am effeithiau carbon yn ein prosesau gwneud penderfyniadau.

## Covid-19

Mae pandemig Covid-19 wedi dod â chryn ansicrwydd yn ei sgil a nifer o heriau sy'n newid yn gyflym a fydd yn gofyn am ystwythder ac ymdrechion mawr i ymateb iddynt, er mwyn sicrhau bod gweithrediadau hanfodol yn parhau a bod risgiau yn cael eu deall a'u rheoli o fewn amgylchedd dynamig.

Yn ogystal â'r angen i nodi ac ymateb i risgiau'n hyblyg ac yn gyflym, mae dangos diwylliant risg priodol yn dal i fod yn hanfodol. Yn fwy na'r prosesau a sefydlwyd, mae cynnal gwerthoedd ac ymddygiad disgwyliedig ar bob lefel yn cefnogi'r amgylchedd priodol lle y gellir parhau i wneud penderfyniadau ymarferol a synhwyrol.

Bu angen gwneud penderfyniadau yn gyflym er mwyn canfod ac asesu natur a maint y risgiau y mae'r sefydliad yn agored iddynt, gan ddefnyddio dull dynamig sy'n datblygu o hyd o sicrhau'r canlyniadau gorau.

Roedd yn anochel ac yn angenrheidiol bod ffocws cychwynnol Ofgem ar risgiau/materion ac ymatebion yn y byrdymor, ond yn awr bydd yn canolbwyntio fwy ar y tymor canolig a'r hirdymor, gan gynnwys yr ymatebion i sicrhau adferiad llwyddiannus.

Ymhlith y meysydd gwaith y mae Covid-19 yn debygol o gael effaith benodol arnynt mae:

- Cyllid a Sefydlogrwydd Cyflenwyr
- Cwsmeriaid â Mesuryddion Rhagdalu
- Yr effaith ar y Farchnad a lledaenu

We have been assessing the impacts of these risks and implementing appropriate mitigations.

Rydym wedi bod yn asesu effeithiau'r risgiau hyn ac yn cymryd camau lliniaru priodol.

Er mwyn cefnogi prosesau gwneud penderfyniadau yn ystod y cyfnod hwn o ansicrwydd, rydym wedi defnyddio cynllunio senarios i nodi ac ystyried natur y risgiau a fydd yn dod i'r amlwg dros amser a thrwy thybiaethau gwahanol o ran graddfa a chwmpas sefydlogi a dychwelyd i amgylchiadau arferol.

## Diogelwch Mewnol, Preifatrwydd a Chydnerthedd Ofgem

Rydym yn parhau i ganolbwyntio ar gynnal lefelau priodol a chymesur o ddiogelwch, preifatrwydd a chydnerthedd er mwyn diogelu: data dinasyddion a busnesau, ein pobl a gweithrediadau rhag niwed. Yn ystod y flwyddyn, rydym wedi cynyddu ein hadnoddau i liniaru niwed o'r fath. Datblygwyd strategaeth ar sail cyfuno rheolaethau diogelwch, sydd wedi gwella'r broses o fonitro diogelwch ac wedi sicrhau arbedion blynyddol o £191,000. Wynebodd Ofgem nifer o ddigwyddiadau risg isel ac ymatebodd drwy roi hyfforddiant cysylltiedig a chodi ymwybyddiaeth er mwyn gwella ein prosesau a'n gweithdrefnau. Cafwyd un hysbysiad tor-rheol i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth a oedd yn effeithio ar unigolyn, a achosodd i Ofgem gynnal ymarfer "gwersi a ddysgwyd" a fu'n gyfle i ni wneud gwaith dilynol gyda Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ar weithgareddau gwella.

Dros y flwyddyn sydd i ddod, byddwn hefyd yn canolbwyntio ar wella'r ffordd rydym yn integreiddio â systemau ac adnoddau'r Ganolfan Seiberddiogelwch Genedlaethol a chefnogi'r agweddau ar y gwaith uwchraddio TG arfaethedig sy'n ymwneud â gwella diogelwch

## Gwella Seiberddiogelwch a Systemau'r Diwydiant Ynni

Ym mis Mai 2018, daeth Ofgem a BEIS yn Awdurdod Cymwys ar y cyd o dan Reoliadau Systemau Rhwydwaith a Gwybodaeth 2018, sy'n gweithredu Cyfarwyddeb 2016 yr EU ar ddiogelwch systemau rhwydwaith a gwybodaeth. O ran ein sector, bwriedi'r i'r Rheoliadau wella seiberddiogelwch a chydnerthedd cyffredinol Gweithredwyr Gwasanaethau Hanfodol nwy a thrydan – 55 ar adeg ysgrifennu.

Ein rôl yw asesu a yw'r Gweithredwyr Gwasanaethau Hanfodol yn rhoi gwrthfesurau seiberddiogelwch a chydnerthedd systemau priodol a chymesur ar waith, a thrwy fonitro, cydymffurfiaeth a gorfodi, leihau effaith digwyddiadau ar y gwasanaeth hanfodol. Hefyd, mae Ofgem yn monitro sicrwydd diogelwch y Cod Ynni Clyfar sy'n sail i'r rhaglen Mesuryddion Deallus.

Dros y flwyddyn diwethaf, mae Ofgem wedi adeiladu ein galluoedd seiberddiogelwch a systemau, er mwyn canolbwyntio ar systemau rheoli diwydiannol yn y sector ynni. Cymerwyd rhan mewn mwy na 100 o weithdai gyda'r cwmnïau ynni, gan gynnwys y gwaith o ddadansoddi ac adolygu cynlluniau hunanasesu a gwella Gweithredwyr Gwasanaethau Hanfodol.

Dros y flwyddyn sydd i ddod, byddwn yn parhau i ymgysylltu'n uniongyrchol â phob un o'r cwmnïau ynni yn unigol a thrwy ddigwyddiadau cymunedol ac i ganolbwyntio ar cynlluniau gwella'r Rheoliadau, adolygu a monitro rhaglenni rheoli prisiau ar gyfer Seiberddiogelwch a chynnal arolygiadau o gwmnïau ynni. Yn sail i raglen Ofgem, byddwn yn ymgymryd â gweithgareddau trawslywodraethol, gan weithio'n agos gyda BEIS, yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch a'r Ganolfan Seiberddiogelwch Genedlaethol yn benodol, o ran cyfrifoldebau Awdurdod Cymwys, yn ogystal â'r agweddau ar fesuryddion deallus a newid cyflenwr sy'n ymwneud â diogelwch

## Gwasanaethau Corfforaethol

Parhaodd rhaglen trawsnewid Gwasanaethau Corfforaethol yn 2019-20 i ddatblygu swyddogaethau Adnoddau Dynol, Cyllid, Caffael, Rheoli Risg a Digidol, Data a Thechnoleg i feithrin partneriaethau agosach â holl adrannau Ofgem er mwyn cefnogi penderfyniadau strategol a sicrhau ymateb cadarn i flaenoriaethau sy'n dod i'r amlwg.

Ymhlith y newidiadau sylweddol a ddigwyddodd yn ystod y flwyddyn mae'r canlynol:

- Sefydlu timau partneru busnes strategol ar draws timau Adnoddau Dynol, Cyllid a Chaffael er mwyn cysoni ag adrannau Ofgem i'w alluogi i reoli pobl a chyllidebau'n well.
- Sefydlu canolfannau rhagoriaeth ym maes Cyllid ac Adnoddau Dynol er mwyn sicrhau rheolaeth effeithlon ac effeithiol dros weithgarwch trafodiadol.
- Creu timau Caffael a Dysgu a Datblygu newydd i gefnogi adrannau Ofgem mewn meysydd lle bu bylchau gynt.
- Dechrau recriwtio staff i'r strwythur sefydliadol newydd ym maes Digidol, Data a Thechnoleg er mwyn gallu datblygu o gyfleuster cymorth TG tuag at swyddogaeth galluogi busnes ac ysgogi ffyrdd mwy ystwyth ac addasol o weithio drwy'r sefydliad cyfan

Gwelwyd cryn drosiant staff yn y Gwasanaethau Corfforaethol yn ystod yr ymarfer ad-drefnu. Arweiniodd hyn at fylchau yn y tîm am ran helaeth o'r flwyddyn a cholli gwybodaeth sefydliadol mewn meysydd allweddol. O ganlyniad, nid oedd gwybodaeth reoli na rhai rheolaethau hanfodol megis cysoniadau'r fantolen mor effeithiol ag y dylent fod wedi bod am ran o'r flwyddyn. Craffwyd ar gywirdeb cofnodion ariannol yn fanwl cyn diwedd y flwyddyn ariannol er mwyn lliniaru risg gwallau, ac mae ein rheolaethau yn cael eu cryfhau ymhellach wrth i'r broses o drawsnewid y Gwasanaethau Corfforaethol barhau.

Y camau nesaf yn y rhaglen yw cryfhau galluoedd ym maes cyllid, rheoli pobl a digidol ym mhob rhan o Ofgem a datblygu gwell prosesau, canllawiau a systemau er mwyn sicrhau bod y Gwasanaethau Corfforaethol yn cael yr effaith fwyaf posibl wrth gefnogi gweddill yr Adran er mwyn gallu defnyddio gweithlu medrus a hyblyg a sicrhau'r gwerth mwyaf am arian o'r cyllidebau sydd ar gael.

## Effeithiau gadael yr UE

Parhaodd Ofgem i reoli risgiau mewn perthynas â'i weithgareddau trawsffiniol ynglyn â rhyng-gysylltwyr, yng nghyd-destun penderfyniad y DU i adael yr Undeb Ewropeaidd (gweler 16). Er nad ymddangosdd unrhyw risgiau “Diwrnod Cyntaf” ar ôl i'r DU adael ar 31 Ionawr, rydym yn ystyriol o hyd y gall heriau godi yn y dyfodol ac rydym yn parhau i fonitro'r sefyllfa.

## Chwythu'r Chwiban

Mae polisi chwythu'r chwiban mewnol Ofgem yn cynnig proses i'r staff godi unrhyw bryderon chwythu'r chwiban ac yn cefnogi diwylliant lle mae cyflogeion yn teimlo'n hyderus i godi materion sy'n achos pryder. Mae'n gyson â'r argymhellion a'r arferion da a gyhoeddwyd gan y Gwasanaeth Sifil a Public Concern at Work.

Cwblhawyd adolygiad blynyddol o'n polisi ym mis Medi 2019 a chymerwyd camau ychwanegol i sicrhau bod y polisi yn fwy amlwg i'r staff a bod llinellau cyfathrebu yn glir ac ar gael i bob aelod o'r staff. Yn ystod 2019-20, cyflwynwyd dau fater o dan y polisi hwn. Ar ôl ymchwiliad, cadarnhawyd nad oedd y rhain yn dod o dan gategori chwythu'r chwiban.

## Cwynion i'r Ombwdsmon Seneddol

Cyfeiriwyd un achos at yr Ombwdsmon Seneddol mewn perthynas ag un o gwsmeriaid y cynllun Cymhelliant Gwres Adnewyddadwy, a gaewyd ym mis Medi 2019. Adolygodd Ofgem yr achos a chytunodd i weithredu heb fod angen ymchwiliad llawn. Ceir rhagor o wybodaeth yn Adroddiad Gwaith Achos 2019 yr Ombwdsmon..

## Barn Sicrwydd Archwilio Mewnol

Penodwyd Mazars LLP yn Archwilydd Mewnol ym mis Medi 2019 a chwblhaodd rhestr o adolygiadau y cytunwyd arni rhwng mis Rhagfyr 2019 a mis Ebrill 2020, a nodwyd drwy waith cynllunio Archwilio Mewnol a oedd yn seiliedig ar risg a chyfweliadau â rheolwyr Ofgem a'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd. Arweiniodd hyn at dargedu rhai meysydd â blaenoriaeth uchel. Yn seiliedig ar ei waith, mae barn sicrwydd Mazars ynglŷn â'r fframwaith llywodraethu, rheoli risg, a rheolaeth yn gyfyngedig o ran ei digonolrwydd a'i heffeithiolrwydd cyffredinol. Nododd rai gwendidau ac eithriadau drwy ei waith archwilio, ond nid ystyriwyd bod unrhyw un yn hanfodol.

## Ffynonellau sicrwydd ychwanegol

Yn ychwanegol at y Farn Sicrwydd Flynyddol gan yr Archwilydd Mewnol, rydym hefyd yn cynnal asesiad mewnol o amgylchedd rheoli Ofgem. Mae pob Cyfarwyddwr yn gyfrifol am lofnodi Datganiad Sicrwydd blynyddol, sy'n rhoi sicrwydd bod systemau rheoli Ofgem yn cael eu cymhwyso'n gyson ac yn effeithiol yn ei (ha) adran berthnasol.

Mae proses y Datganiad Sicrwydd yn cwmpasu 18 o reolaethau mewnol allweddol. Eleni, roedd y blaenoriaethau a nodwyd ar gyfer gwelliant fel a ganlyn:

- Datblygu fframwaith rheoli risg gwell er mwyn creu dull mwy cyson o nodi, cofnodi, lliniaru ac uwchgyfeirio risgiau.
- Parhau â'r gwaith o drawsnewid y Gwasanaethau Corfforaethol er mwyn cryfhau'r cymorth a gynigir i weddill Ofgem a meithrin galluoedd ariannol, rheoli pobl a digidol cryfach drwy'r Adran gyfan.
- Mynd i'r afael â rhai diffygion sylfaenol mewn systemau a phrosesau cyllid ac adnoddau dynol.
- Dull gwell a mwy cyson o sicrhau rheolaeth effeithiol dros ddata

## Casgliad

Rwy'n fodlon ar drefniadau llywodraethu Ofgem o ran diogelu'r defnydd a wneir o'i gyllidebau. Fodd bynnag, credaf fod angen gwella ymhellach. Bwriadaf arwain proses o adnewyddu ein trefniadau rheoli risg a llywodraethu gweithredol er mwyn sicrhau bod Ofgem yn y sefyllfa orau i reoli'r materion sy'n dod i'r amlwg ac sy'n newid yn gyflym a fydd yn codi ym marchnad ynni Prydain. Byddwn yn parhau i gryfhau trefniadau llywodraethu dros y flwyddyn sydd i ddod er mwyn sicrhau gwerth am arian o'r adnoddau sydd ar gael i ni a chyflawni ein hamcan allweddol o ddiogelu buddiannau defnyddwyr.



**Jonathan Brearley**
Swyddog Cyfrifyddu

**15 Gorffennaf 2020**

# Adroddiad ar Gydnabyddiaeth a Staff



# Adroddiad ar Gydnabyddiaeth a Staff

## Pwyllgor Pobl a Chydnabyddiaeth

Mae'r pwyllgor hwn yn cynnwys aelodau gweithredol ac anweithredol yr Awdurdod a benodir drwy benderfyniad cyffredin gan yr Awdurdod. Cadeirir y pwyllgor gan Christine Farnish. Yr aelodau eraill yn ystod 2019-20 oedd Paul Grout, Ann Robinson, Martin Cave (Cadeirydd Ofgem), Dermot Nolan (Prif Swyddog Gweithredol tan fis Ionawr 2020), Jonathan Brearley (Prif Swyddog Gweithredol o fis Chwefror 2020) a Sarah Cox (Prif Swyddog Gweithredol tan 31 Mawrth 2020). Rôl y pwyllgor yw adolygu a chymeradwyo'r dyfarniad cyflog blynyddol a lefel unrhyw fonws i gyflogeion yr Uwch Dîm Rheoli. Mae hefyd yn ystyried materion eraill sy'n ymwneud â thâl a pherfformiad uwch-aelodau o staff Ofgem. Dyfernir tâl a thaliadau bonws ar sail perfformiad o fewn y terfynau a bennwyd gan Swyddfa'r Cabinet, a'r Corff Adolygu Cyflogau Uwch ar gyfer cyflogau'r Uwch Wasanaeth Sifil. Mae'r pwyllgor hefyd yn adolygu gwaith cynllunio ar gyfer olyniaeth a rheoli talent uwch-aelodau o staff.

## Polisi Cydnabyddiaeth

Nodir cydnabyddiaeth pob un o'r cyflogeion yn eu contractau a chaiff ei hadolygu'n flynyddol yn unol â'r dyfarniadau y cytunwyd arnynt gan Swyddfa'r Cabinet ac, ar gyfer uwch-weision sifil, yn unol ag argymhellion y Corff Adolygu Cyflogau Uwch. Ar wahân i'r Cadeirydd, mae pob un o'n huwch-gyflogeion yn aelodau parhaol o staff. Nid oes gan yr un ohonynt gyfnod rhybudd sy'n hwy na chwe mis.

Mae pob un o gyflogeion yr Uwch Dîm Rheoli yn gymwys i fod yn rhan o gynllun bonws sy'n unol â chanllawiau Swyddfa'r Cabinet. Mae'r bonws yn seiliedig ar berfformiad yr unigolyn. Mae taliadau bonws yn rhai ar wahân i gyflog ac nid ydynt yn bensiynadwy.

## Contractau gwasanaeth

Mae Deddf Diwygio a Llywodraethu Cyfansoddiadol 2010 yn ei gwneud yn ofynnol i benodiadau'r gwasanaeth sifil gael eu gwneud ar sail teilyngdod ac ar sail cystadleuaeth deg ac agored. Mae'r egwyddorion recriwtio a gyhoeddir gan Gomisiwn y Gwasanaeth Sifil yn nodi pryd y gellir gwneud penodiadau fel arall.

Oni nodir fel arall, mae'r swyddogion a gwmpesir yn yr adroddiad hwn yn dal penodiadau sy'n ben agored. Pe bai Ofgem yn terfynu penodiad yn gynnar, ac eithrio o ganlyniad i gamymddwyn, byddai iawndal yn cael ei roi i'r unigolyn fel y nodir yng Nghynllun Iawndal y Gwasanaeth Sifil.

Ceir rhagor o wybodaeth am waith Comisiwn y Gwasanaeth Sifil yn **https://civilservicecommission.independent.gov.uk**

## Cydnabyddiaeth (gan gynnwys cyflog) a hawliadau pensiwn

Mae'r wybodaeth yn y tablau canlynol wedi cael eu harchwilio gan archwilwyr allanol.

Dangosir cyflog cyflogeion lefel uchaf Ofgem, eu taliadau bonws a gwerth unrhyw fuddiannau trethadwy mewn da iddynt yn 2019-20 yn y tabl drosodd:

## Cyfanswm cydnabyddiaeth gyfan

| | Cyflog (£000) | | Taliadau bonws (£000) | | Buddiannau mewn da (i'r £100 agosaf) | | Buddiannau pensiwn (i'r £1,000 agosaf)‡ | | Cyflog (£000) | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2019-20 | 2018-219 | 2019-20 | 2018-19 | 2019-20 | 2018-19 | 2019-20 | 2018-19 | 2019-20 | 2018-19 |
| **Uwch-aelodau gweithredol Ofgem** | | | | | | | | | | |
| **Dermot Nolan** Prif Swyddog Gweithredol (gadawodd 29/02/20) | 180-185 | 190-195 | 5-10 | - | - | – | 32,000 | 36,000 | 220-225 | 230-235 |
| ***Jonathan Brearley** Cyfarwyddwr Gweithredol (daeth i ben 31 Ionawr 2020)/Prif Swyddog Gweithredol (o 1 Chwefror 2020) | 155-160* | 145-150 | 5-10 | 15-20 | - | - | 92,000 | 57,000 | 255-260 | 215-220 |
| **Sarah Cox** Prif Swyddog Gweithredu | 145-150 | 135-140 | 5-10 | 15-20 | - | - | 73,000 | 52,000 | 225-230 | 185-190 |
| ****Mary Starks** Cyfarwyddwr Gweithredol (dechreuodd 10/09/18) | 165-170 | 90-95** | 0-5 | - | - | - | 64,000 | 36,000 | 235-240 | 125-130 |
| **Aelodau anweithredol yr Awdurdod** | | | | | | | | | | |
| ****Martin Cave** Cadeirydd (dechreuodd 01/10/18) | 160-165 | 80-85** | 0-5 | - | - | - | - | - | 160-165 | 80-85 |

* Cyflog sylfaenol cyfatebol blynyddol yn 2019-20 ar gyfer rôl Cyfarwyddwr Gweithredol (heb gynnwys tâl perfformiad) yw 150,000-155,000 a rôl Prif Swyddog Gweithredol (heb gynnwys tâl perfformiad) yw £180,000 - £185,000.

** Cyflog sylfaenol cyfatebol blynyddol yn 2018-19 (heb gynnwys tâl perfformiad) i Mary Starks oedd 165,000-170,000 ac i Martin Cave oedd £160,000 - £165,000.

‡ Cyfrifir gwerth buddiannau pensiwn a gronnwyd yn yn ystod y flwyddyn fel y cynnydd gwirioneddol mewn pensiwn wedi'i luosi gan 20, llai'r cyfraniadau a wnaed gan yr unigolyn. Nid yw'r cynnydd gwirioneddol yn cynnwys unrhyw gynnydd neu leihad o ganlyniad i drosglwyddo hawliau pensiwn.

| Aelodau anweithredol eraill o'r Awdurdod | 2019-20 | | 2018-19 | |
|---|---|---|---|---|
| a dalwyd | Honorariwm | Lwfans | Honorariwm | Lwfans |
| Christine Farnish | £20,000 | £3,000 | £20,000 | £3,000 |
| Paul Grout | £20,000 | £3,000 | £20,000 | £3,000 |
| Lynne Embleton | £20,000 | - | £15,000 | - |
| Keith Lough (gadawodd ym mis Gorffennaf 2019)* | £6,667 | £1,000 | £20,000 | £3,000 |
| Ann Robinson | £20,000 | - | £15,000 | - |
| John Crackett | £20,000 | £3,000 | £6,667 | - |
| Myriam Madden (o fis Ionawr 2020)* | £5,000 | - | - | - |
| Barry Panayi (o fis Mawrth 2020)* | £860 | - | - | - |

* Swm cyfatebol blynyddol £20,000

Mae penodiadau aelodau anweithredol am gyfnod penodol, am hyd at bum mlynedd fel arfer. Nid yw'r penodiadau hyn yn adnewyddadwy. Ceir gwybodaeth am ddyddiadau penodi ar dudalen 36. Yr Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol sy'n pennu cydnabyddiaeth ac yn gwneud penodiadau, ar ôl ymgynghori â'r Cadeirydd. Telir cydnabyddiaeth iddynt ar ffurf honorariwm ynghyd â lwfans ychwanegol am gadeirio unrhyw un o bwyllgorau'r Awdurdod. Nid oes ganddynt yr hawl i gael tâl ar sail perfformiad na phensiwn. Telir iawndal am derfynu penodiad yn gynnar yn ôl disgresiwn yr Ysgrifennydd Gwladol. Dechreuodd penodiad Cadeirydd anweithredol yr Awdurdod, Martin Cave, ar 10 Gorffennaf 2018 a bydd yn para am bum mlynedd.

Yn ogystal â honoraria, sydd wedi'u cynnwys mewn cyflogau, caiff cyfarwyddwyr anweithredol hawlio treuliau gwirioneddol, os rhoddir tystiolaeth ar ffurf derbynebau.

Cyhoeddir y treuliau a hawlir gan ein huwch-gyflogeion a'n cyfarwyddwyr anweithredol ar ein gwefan **www.ofgem.gov.uk**

## Cyflog

Mae "cyflog" yn cynnwys cyflog gros ac unrhyw lwfans arall i'r graddau y mae'n drethadwy yn y DU.

## Taliadau Bonws

Yn 2019-20, rhoddwyd bonws i 697 o aelodau o staff (621 yn 2018-19). Y taliad bonws cyfartalog oedd £1,277.84 (£1,527.74 yn 18/19) a'r cyfanswm a dalwyd mewn taliadau bonws oedd £890,651.12 (2018-19 £948,727.30). Cafodd tri unigolyn y taliad bonws mwyaf o £12,500 (2018-19: un a gafodd y taliad bonws mwyaf sef £17,500)

Mae taliadau bonws yn seiliedig ar lefelau perfformiad a chânt eu hasesu fel rhan o'r broses arfarnu. Mae'r taliadau bonws a gofnodwyd yn 2019-20 yn ymwneud â pherfformiad yn 2018-19. Mae'r taliadau bonws a gofnodwyd ar gyfer 2018-19 yn ymwneud â pherfformiad yn 2017-18.

## Lluosrifau cyflog

Mae'n ofynnol i gyrff adrodd ddatgelu'r gydberthynas rhwng cydnabyddiaeth ariannol y cyfarwyddwr sy'n cael y cyflog uchaf yn eu sefydliad a chydnabyddiaeth ariannol ganolrifol gweithlu'r sefydliad.

Cydnabyddiaeth wedi'i bandio'r cyfarwyddwr a gafodd y cyflog uchaf yn 2019-20 oedd £185,000-£190,000 (2018-19: £195,000-£200,000). Roedd hyn 4.7 gwaith (2018-19: 4.69) yn fwy na chydnabyddiaeth ganolrifol y gweithlu, sef £40,009 (2018-19: £41,818).

Yn 2019-20 ni chafodd dim un (2018-19: dim) o gyflogeion Ofgem gydnabyddiaeth yn fwy na'r cyfarwyddwr a gafodd y cyflog uchaf. Roedd cydnabyddiaeth yn amrywio o £18,182 i £190,000 (2018-19: £10,000 i £195,500).

Mae cyfanswm y gydnabyddiaeth yn cynnwys cyflog, tâl anghyfunol yn gysylltiedig â pherfformiad a buddiannau mewn da. Nid yw'n cynnwys taliadau diswyddo, cyfraniadau pensiwn y cyflogwr na gwerth trosglwyddo pensiynau sy'n gyfwerth ag arian parod.

Lleihaodd nifer gyfartalog y staff a gyflogwyd yn barhaol yn 2019-20, fel y dangosir yn yr adroddiad staff isod.

## Buddiannau Pensiwn

| | Pensiwn Cronedig ar ôl cyrraedd oedran pensiwn ar 31 Mawrth 2020 | Cynnydd gwirioneddol mewn pensiwn a chyfandaliad cysylltiedig ar ôl cyrraedd oedran pensiwn | Gwerth trosglwyddo sy'n gyfwerth ag arian parod ar 31 Mawrth 2020 | Gwerth trosglwyddo sy'n gyfwerth ag arian parod ar 31 Mawrth 2019 | Cynnydd gwirioneddol mewn gwerth trosglwyddo sy'n gyfwerth ag arian parod | Cyfraniad cyflogwr i gyfrif pensiwn partneriaeth |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Buddiannau Pensiwn** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | **Agosaf £100** |
| **Uwch-aelodau gweithredol Ofgem** | | | | | | |
| **Dermot Nolan** Prif Swyddog Gweithredol (gadawodd 29/02/20) | - | - | - | - | - | 32,000 |
| **Jonathan Brearley** Cyfarwyddwr Gweithredol (daeth i ben 31 Ionawr 2020) / Prif Swyddog Gweithredol (o 1 Chwefror 2020) | 35-40 ynghyd â chyfandaliad o 65-70 | 5-7.5 ynghyd â chyfandaliad o 2.5-5 | 540 | 456* | 52 | - |
| **Sarah Cox** Prif Swyddog Gweithredu | 35-40 | 2.5-5 | 645 | 564 | 46 | - |
| **Mary Starks** Cyfarwyddwr Gweithredol | 0-5 | 0-2.5 | 67 | 23 | 29 | - |

*Ailgyfrifo gwerth trosglwyddo sy'n gyfwerth ag arian parod 2018-19 i gynnwys buddiannau cyflog terfynol cysylltiedig i Jonathan Brearley. Y swm a ddatgelwyd yng nghyfrifon 2018-19 oedd £104,000.

## Pensiynau'r gwasanaeth sifil

Darperir buddiannau pensiwn drwy drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. O 1 Ebrill 2015 cyflwynwyd cynllun pensiwn newydd ar gyfer gweision sifil – Cynllun Pensiwn Gweision Sifil ac Eraill neu "alpha", sy'n rhoi buddiannau ar sail cyfartaledd gyrfa gydag oedran pensiwn arferol sy'n cyfateb i Oedran Pensiwn y Wladwriaeth yr aelod (neu 65 os yw'n uwch). O'r dyddiad hwnnw ymunodd bron bob gwas sifil newydd ei benodi a'r rhan fwyaf o'r rhai a oedd eisoes yn weision sifil ag "alpha". Cyn y dyddiad hwnnw, bu gweision sifil yn rhan o Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS). Mae gan y cynllun bedair adran: tair yn rhoi buddiannau ar sail cyflog terfynol ("classic", "premium" neu "classic plus") gydag oedran pensiwn arferol o 60 oed; ac un yn rhoi buddiannau ar sail gyrfa gyfan ("nuvos") gydag oedran pensiwn arferol o 65 oed.

Ni chaiff y trefniadau statudol hyn eu hariannu a chaiff costau'r buddiannau eu talu gan arian a bleidleisir gan y Senedd bob blwyddyn. Caiff pensiynau sy'n daladwy o dan y cynlluniau "classic", "premium", "classic plus", "nuvos" ac "alpha" eu cynyddu'n flynyddol yn unol â deddfwriaeth y Cynnydd mewn Pensiynau. Arhosodd unigolion a oedd eisoes yn aelodau o'r PCSPS a oedd o fewn 10 mlynedd i'w hoedran pensiwn arferol ar 1 Ebrill 2012 yn y PCSPS ar ôl 1 Ebrill 2015. Bydd y rhai sydd rhwng 10 mlynedd a 13 mlynedd a 5 mis i ffwrdd o'u hoedran pensiwn arferol ar 1 Ebrill 2012 yn newid i "alpha" rywbryd rhwng 1 Mehefin 2015 ac 1 Chwefror 2022. Mae buddiannau PCSPS pob aelod sy'n newid i "alpha" wedi'u 'bancio', gyda'r rhai sydd â buddiannau cynharach yn un o adrannau cyflog terfynol y PCSPS yn cael eu buddiannau yn seiliedig ar eu cyflog terfynol pan fyddant yn gadael "alpha". (Mae'r ffigurau pensiwn a ddyfynnwyd ar gyfer swyddogion yn dangos bod pensiwn a enillwyd yn PCSPS neu "alpha" yn briodol. Pan fydd gan y swyddog fuddiannau yn y PCSPS ac "alpha", y ffigur a ddyfynnwyd yw gwerth cyfun ei fuddiannau yn y ddau gynllun). Gall aelodau a ymunodd o fis Hydref 2002 ddewis naill ai'r trefniant buddiannau diffiniedig priodol neu bensiwn rhanddeiliaid 'prynu arian' sy'n cynnwys cyfraniad gan y cyflogwr (cyfrif pensiwn partneriaeth).

Mae cyfraniadau cyflogeion yn gysylltiedig â'u cyflog ac yn amrywio rhwng 4.6% ac 8.05% i aelodau classic, premium, classic plus, nuvos ac alpha. Mae buddiannau classic yn cronni ar gyfradd o 1/80fed o enillion pensiynadwy terfynol ar gyfer pob blwyddyn o wasanaeth. Yn ogystal, telir cyfandaliad sy'n gyfwerth â thair blynedd o bensiwn cychwynnol adeg ymddeol. Mae buddiannau premium yn cronni ar gyfradd o 1/60ain o enillion pensiynadwy terfynol ar gyfer pob blwyddyn o wasanaeth ar gyfer premium. Yn wahanol i'r cynllun classic, ni cheir unrhyw gyfandaliad awtomatig. Yn ei hanfod, mae'r cynllun classic plus yn gynllun hybrid â buddiannau mewn perthynas â gwasanaeth cyn 1 Hydref 2002 yn cael eu cyfrifo'n fras fel y cynllun classic a buddiannau mewn perthynas â gwasanaeth o fis Hydref 2002 yn cael eu cyfrifo fel y cynllun premium. Bydd aelod o gynllun nuvos yn cronni pensiwn yn seiliedig ar ei enillion pensiynadwy yn ystod y cyfnod y mae'n aelod o'r cynllun. Ar ddiwedd blwyddyn y cynllun (31 Mawrth) credydir cyfrif pensiwn a enillwyd yr aelod â 2.3% o'i enillion pensiynadwy yn y flwyddyn honno a chaiff y pensiwn cronedig ei uwchraddio yn unol â deddfwriaeth y Cynnydd mewn Pensiynau. Mae buddiannau yn y cynllun alpha yn cronni mewn ffordd debyg i nuvos, ac eithrio'r ffaith y ceir cyfradd gronni o 2.32%. Ym mhob achos, gall aelodau ddewis rhoi rhan o'u pensiwn heibio (gohirio) i ddarparu cyfandaliad hyd at y terfynau a bennir gan Ddeddf Cyllid 2004.

Trefniant pensiwn cyfranddeiliaid yw'r cyfrif pensiwn partneriaeth. Mae'r cyflogwr yn talu cyfraniad sylfaenol rhwng 8% a 14.75% (yn dibynnu ar oedran yr aelod) i mewn i gynnyrch pensiwn cyfranddeiliaid a ddewisir gan y cyflogai o banel gan y darparwr penodedig - Legal & General. Nid oes angen i'r cyflogai gyfrannu ond os bydd yn gwneud cyfraniadau, telir cyfraniad cyfatebol gan y cyflogwr hyd at derfyn o 3% o gyflog pensiynadwy (yn ychwanegol at gyfraniad sylfaenol y cyflogwr). Mae cyflogwyr yn cyfrannu 0.5% pellach o gyflog pensiynadwy hefyd i gwmpasu cost yswiriant buddiant risg a ddarperir yn ganolog (marwolaeth mewn swydd ac ymddeoliad oherwydd salwch).

Y pensiwn cronedig a nodir yw'r pensiwn y mae gan yr aelod hawl i'w gael pan fydd yn cyrraedd oedran pensiwn, neu'n syth ar ôl iddo orffen bod yn aelod gweithredol o'r cynllun os yw eisoes wedi cyrraedd oedran pensiwn neu'n hŷn na hynny. Chwe deg oed yw'r oedran pensiwn ar gyfer aelodau classic, premium a classic plus, 65 oed ar gyfer aelodau nuvos, a 65 neu Oedran Pensiwn y Wladwriaeth, p'un bynnag sydd uchaf, i aelodau alpha. (Mae'r ffigurau pensiwn a ddyfynnwyd ar gyfer swyddogion yn dangos bod pensiwn a enillwyd yn PCSPS neu alpha fel y bo'n briodol. Lle mae gan y swyddog fuddiannau yn y PCSPS ac alpha, y ffigur a ddyfynnwyd yw gwerth cyfun eu buddiannau yn y ddau gynllun ond noder y gall rhan o'r pensiwn hwnnw fod yn daladwy o wahanol oedrannau.)

Ceir rhagor o fanylion am drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil ar y wefan **www.civilservicepensionscheme.org.uk**

## Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod

Gwerth Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod (CETV) yw'r gwerth wedi'i gyfalafu a aseswyd yn actiwaraidd o fuddiannau'r cynllun pensiwn sydd wedi'u cronni gan aelod ar adeg benodol. Y buddiannau a gaiff eu prisio yw buddiannau cronedig yr aelod ac unrhyw bensiwn amodol priod sy'n daladwy o'r cynllun. Mae CETV yn daliad a wneir gan gynllun neu drefniant pensiwn er mwyn diogelu buddion pensiwn cynllun neu drefniant pensiwn arall pan fydd yr aelod yn gadael cynllun ac yn penderfynu trosglwyddo'r buddiannau a gronnwyd yn ei hen gynllun. Mae'r ffigurau pensiwn a ddangosir yn ymwneud â'r buddiannau a gronnwyd gan yr unigolyn o ganlyniad i'w aelodaeth lawn o'r cynllun pensiwn, nid dim ond ei wasanaeth mewn swydd ar lefel uwch y mae datgeliad yn gymwys iddo.

Mae'r ffigurau yn cynnwys gwerth unrhyw fuddiant pensiwn mewn cynllun neu drefniant arall y mae'r aelod wedi'i drosglwyddo i drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Maent hefyd yn cynnwys unrhyw fuddiant pensiwn ychwanegol sydd wedi'i gronni i'r aelod o ganlyniad i brynu buddiannau pensiwn ychwanegol ar ei draul ei hun. Cyfrifir CETVs yn unol â Rheoliadau Cynlluniau Pensiwn Galwedigaethol (Gwerthoedd Trosglwyddo) 2008 ac nid ydynt yn ystyried unrhyw leihad gwirioneddol neu bosibl mewn buddiannau sy'n deillio o Dreth Lwfans Oes a all fod yn ddyledus pan fydd buddiannau pensiwn yn cael eu codi.

## Cynnydd Gwirioneddol mewn CETV

Mae hyn yn adlewyrchu'r cynnydd mewn CETV a ariennir gan y cyflogwr. Nid yw'n cynnwys y cynnydd mewn pensiwn cronedig oherwydd chwyddiant na chyfraniadau a dalwyd gan y cyflogai (yn cynnwys gwerth unrhyw fuddiannau a drosglwyddwyd o gynllun pensiwn neu drefniant arall). Mae'n defnyddio ffactorau cyffredin prisio'r farchnad ar gyfer dechrau a diwedd y cyfnodd.

# Adroddiad Staff

## Nifer y bobl a gyflogwyd ar gyfartaledd (archwiliedig)

Roedd nifer y staff cyfwerth â llawn amser a gyflogwyd yn ystod y flwyddyn fel a ganlyn:

| | | | 2019-20 | 2018-19 |
|---|---|---|---|---|
| | Staff a gyflogir yn barhaol | Eraill | Cyfanswm | Cyfanswm |
| Rheoleiddio | 355 | 37 | **392** | **369** |
| E-Serve | 255 | 33 | **288** | **261** |
| Cyflawni | 209 | 41 | **250** | **221** |
| **Cyfanswm** | **819** | **111** | **930** | **851** |

Roedd 45 o bobl sy'n gyfwerth ag amser cyfan ar gyfartaledd ar radd SCS yn ystod y flwyddyn. O'r rhain roedd 27 ym mand cyflog 1, 15 ym mand cyflog 2, a 3 ym mand cyflog 3. Ni chafodd unrhyw aelodau o'r staff eu hadleoli yn 2019-20 mewn perthynas â Covid-19.

## Costau staff (archwiliedig)

| Mae costau staff yn cynnwys | | | 2019-20 £000 | 2018-19 £000 |
|---|---|---|---|---|
| | Staff a gyflogir yn barhaol | Eraill | Cyfanswm | Cyfanswm |
| Cyflogau | 41,434 | 6,799 | 48,233 | 48,646 |
| Costau nawdd cymdeithasol | 4,591 | 310 | 4,901 | 4,523 |
| Costau pensiwn eraill | 10,315 | 708 | 11,023 | 7,936 |
| Costau staff eraill | 610 | - | 610 | 20 |
| **Cyfanswm** | **57,149** | **7,817** | **64,966** | **61,311** |

Cynllun buddiannau diffiniedig aml-gyflogwr nas ariennir yw Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS), ond ni all Ofgem nodi ei gyfran o'r asedau a'r rhwymedigaethau sylfaenol. Cynhaliwyd prisiad actiwaraidd llawn Ar 31 Mawrth 2020. Ceir manylion yng nghyfrifon adnoddau Swyddfa'r Cabinet: Pensiwn Sifil **(https://www.civilservicepensionscheme.org.uk/about-us/resource-accounts/).**

Ar gyfer 2019/20 roedd cyfraniadau cyflogwyr gwerth £10,806,569 yn daladwy i'r PCSPS (2018/19: £7,665,084) ar un o bedair cyfradd yn yr amrediad 26.6% i 30.3% (2018-19: 20.0% i 24.5%) o enillion pensiynadwy yn seiliedig ar fandiau cyflog. Mae Actiwari'r cynllun yn adolygu cyfraniadau'r cyflogwr bob pedair blynedd fel arfer yn dilyn prisiad llawn o'r cynllun. Diwygiwyd y bandiau cyflog a'r cyfraddau cyfrannu ar gyfer 2019 a byddant yn aros yn ddigyfnewid tan 2020. Mae'r cyfraddau cyfrannu yn adlewyrchu buddiannau wrth iddynt gronni, yn hytrach na phan eir i'r costau mewn gwirionedd, ac maent yn adlewyrchu profiad blaenorol y cynllun.

Gall cyflogeion ddewis agor cyfrif pensiwn partneriaeth, sef pensiwn rhanddeiliaid gyda chyfraniad gan y cyflogwr. Talwyd cyfraniadau cyflogwyr gwerth £214,435 (2018/19: £270,916) i

dri darparwr pensiwn cyfranddeiliaid penodedig. Mae cyfraniadau'r cyflogwr yn gysylltiedig ag oedran ac yn amrywio o 8% i 14.75% (2018-19: 8% i 14.75%) o gyflog pensiynadwy. Bydd cyflogwyr hefyd yn talu cyfraniad sy'n cyfateb i gyfraniad y cyflogai hyd at 3% o gyflog pensiynadwy. Yn ogystal, roedd cyfraniadau'r cyflogwr o £8,217, 0.8 y cant; (2018-19: £10,454), 0.8 y cant o gyflog pensiynadwy, i'r PCSPS i dalu cost darparu buddiannau yn y dyfodol ar ffurf cyfandaliad ar farwolaeth mewn gwasanaeth a ymddeoliad oherwydd salwch y cyflogeion hyn.

Nid oedd unrhyw gyfraniadau yn ddyledus i'r darparwyr pensiwn partneriaeth ar ddyddiad y cyfnod adrodd. Nid oedd unrhyw gyfraniadau wedi'u rhagdalu ar y dyddiad hwnnw.

Nid ymddeolodd neb (2018-19: neb) yn gynnar oherwydd salwch; ni chronnwyd unrhyw rwymedigaethau pensiwn ychwanegol yn ystod y flwyddyn (2018-19: dim).

## Gwariant ar wasanaethau ymgynghori

Ein gwariant ar wasanaethau ymgynghori eraill yn 2019-20 oedd £15.83 miliwn, yn unol â nodyn 3 o'r cyfrifon (2018-19: £18.04 miliwn; 2017-18: £12.37 miliwn). Rydym yn ceisio lleihau ein dibyniaeth ar gymorth allanol drwy gynnal ymgyrchoedd recriwtio wedi'u targedu ar gyfer y sgiliau sydd eu hangen i gyflawni ein strategaeth. Rydym yn parhau i ddefnyddio cymorth gwasanaethau proffesiynol i gael gafael ar arbenigwyr sy'n rhoi cyngor proffesiynol neu gyfreithiol mewn perthynas â chyflawni ein portffolio o waith, yn ogystal â'r rhai sy'n rhoi cymorth cyflawni arbenigol lle nad yw'n ddarbodus cynnal yr arbenigedd hwn yn fewnol.

## Adrodd ar gynlluniau'r gwasanaeth sifil a chynlluniau iawndal eraill – pecynnau ymadael (archwiliedig)

| Band costau pecyn ymadael | 2019-2020 | | | 2018-2019 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer y swyddi a ddilëwyd yn orfodol | Nifer yr ymadawiadau eraill y cytunwyd arnynt | Cyfanswm nifer y pecynnau ymadael fesul band costau | Nifer y swyddi a ddilëwyd yn orfodol | Nifer yr ymadawiadau eraill y cytunwyd arnynt | Cyfanswm nifer y pecynnau ymadael fesul band costau |
| <£10,001 | 0 | 1 | 1 | 0 | 3 | 3 |
| £10,001 - £25,000 | 1 | 10 | 11 | 0 | 3 | 3 |
| £25,001 - £50,000 | 0 | 11 | 11 | 0 | 5 | 5 |
| £50,001 - £100,000 | 0 | 5 | 5 | 0 | 5 | 5 |
| £100,001 - £150,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | 2 | 2 |
| £150,001 - £200,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cyfanswm nifer y pecynnau ymadael | 1 | 27 | 28 | 0 | 18 | 18 |
| **Cyfanswm y gost £000** | **16** | **868** | **884** | **0** | **921** | **921** |

Talwyd costau dileu swyddi a chostau ymadael eraill yn unol â darpariaeth Cynllun Iawndal y Gwasanaeth Sifil, sef cynllun statudol a wnaed o dan Ddeddf Blwydd-daliadau 1972.

Cyfrifir am gostau ymadael yn llawn yn y flwyddyn ymadael. Lle mae'r adran wedi cytuno ar ymddeoliadau cynnar, telir y costau ychwanegol gan yr adran yn hytrach na chynllun pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Caiff costau ymddeol oherwydd salwch eu talu gan y cynllun pensiwn ac nid ydynt wedi'u cynnwys yn y tabl.

## Cynnwys cyflogeion

Eleni, cafodd ein harolwg ymgysylltu â staff gyfradd ymateb o 85%, a mynegai ymgysylltu o 64%, sef cynnydd o dri phwynt canrannol o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Mae ein staff yn parhau i nodi bod eu rolau yn ddiddorol (89%), gan gredu bod eu gwaith yn rhoi ymdeimlad o gyflawniad personol iddynt (76%), a byddent yn argymell Ofgem fel lle gwych i weithio (67% – cynnydd o chwe phwynt canrannol o gymharu â'r flwyddyn flaenorol).

## Polisi cyfle cyfartal

Rydym yn recriwtio staff yn ôl teilyngdod trwy gystadleuaeth deg ac agored, yn unol ag egwyddorion y Gwasanaeth Sifil a lywodraethir gan Gomisiwn y Gwasanaeth Sifil. Mae hyn yn sicrhau cystadleuaeth deg ac agored, heb ystyried:

- hil;
- rhyw;
- cyfeiriadedd rhywiol;
- oedran;
- statws priodasol;
- anabledd;
- crefydd a chred;
- ailbennu rhywedd;
- beichiogrwydd a mamolaeth; na
- phatrwm gweithio.

Caiff yr holl weithgarwch recriwtio ei archwilio gan Gomisiwn y Gwasanaeth Sifil er mwyn sicrhau ein bod yn cydymffurfio â'r canllawiau a nodir yn yr egwyddorion recriwtio.

## Amrywiaeth a Chynhwysiant

Yn ein rôl ddeuol fel cyflogwr a rheoleiddiwr, rydym yn ymrwymedig i gyflawni ein rhwymedigaethau cyfreithiol a hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth ymhlith ein gweithlu, yn y ffordd rydym yn gweithio ac yn y diwydiant rydym yn ei reoleiddio. Yn ystod 2019-20, penodwyd Pennaeth Amrywiaeth a Chynhwysiant sy'n ein helpu i herio ein dyheadau sefydliadol ac yn llywio'r broses o roi ein strategaeth Amrywiaeth a Chynhwysiant ar waith.

Rydym yn hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth yn y gwaith – wrth recriwtio ac mewn cyflogaeth, hyfforddiant a datblygu gyrfa. Ni ddylai neb wynebu gwahaniaethu oherwydd oedran, anabledd, ailbennu rhyw, beichiogrwydd neu famolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw neu gyfeiriadedd rhywiol. Nid ydym yn goddef gwahaniaethu, bwlio nac aflonyddu. Yn arolwg ymgysylltu â staff 2019 cawsom sgôr o 83% ar gyfer cynhwysiant a thriniaeth deg.

Yn 2019, mae Ofgem wedi parhau i gefnogi ein rhwydweithiau amrywiaeth sy'n cwmpasu menywod, LGBT+, ethnigrwydd ac anabledd.

Yn 2019-20, parhawyd i ddarparu hyfforddiant ar amrywiaeth a rhagfarn anymwybodol i staff. Mae hyn yn rhan o'n hymrwymiad i sicrhau bod staff yn deall ac yn cyflawni eu rhwymedigaethau o dan y Ddeddf Cydraddoldeb ym mhopeth a wnânt. Ar 31 Mawrth 2020:

- gwyddys bod gan 3.1% (2018-19: 3.3%) o'r staff anabledd.
- roedd 47% (2018-19: 46%) o staff yn fenywod.
- roedd 43% (2018-19: 42%) o'r staff mewn swyddi rheoli (Band D i SCS3) yn fenywod.
- roedd 46% (2018-19: 44%) o aelodau'r Uwch Wasanaeth Sifil yn Ofgem yn fenywod.
- gwyddys bod 19% (2018-19: 19%) o'r staff o darddiad lleiafrif ethnig.
- gwyddys bod 35% (2018-19: 30%) o'r staff o darddiad ethnig lleiafrif mewn swyddi rheoli (Band D i SCS3).

Mae ein datganiad polisi am gyfle cyfartal ar gael i bob cyflogai.

## Buddsoddi mewn dysgu a datblygu

Rydym wir yn gwerthfawrogi ein pobl. Mae rhoi cyfleoedd iddynt ddysgu sgiliau newydd a datblygu eu gyrfaoedd yn ein helpu i'w cadw a denu pobl newydd mewn sawl ffordd. Mae ein proses o ddyrannu'r gyllideb yn darparu swm fesul cyflogai ar gyfer gweithgarwch dysgu a datblygu. Mae'r gweithgareddau hyn yn amrywio o e-ddysgu i gymorth ar gyfer ennill cymwysterau proffesiynol ac academaidd.

## Ymgysylltu â'r gymuned

Rydym yn mynd ati i gefnogi cyflogeion sy'n rhoi o'u hamser neu eu harian eu hunain i helpu elusennau, neu weithgareddau cymunedol neu wirfoddol eraill. Er enghraifft, efallai y byddem yn rhoi amser i ffwrdd i rywun sy'n gweithredu fel llywodraethwr ysgol, ynad heddwch, aelod o banel tribiwnlys cyflogaeth, neu rywun sy'n gwirfoddoli'n rheolaidd. Rydym yn parhau i weithio gyda Career Ready ac mae aelodau o'n staff yn rhoi cymorth ac arweiniad un i un i bobl ifanc 16-19 oed drwy gynllun mentora. Yn 2018, gwnaethom hefyd dreialu gweithio gyda'r Prince's Trust yn ein swyddfa yn Glasgow. O ganlyniad i lwyddiant y treial hwn, mae E-Serve wedi ymrwymo i gydberthynas barhaus drwy gynnig mentora a phrofiad gwaith i'r rhai sy'n chwilio am gyfleoedd drwy waith y Prince's Trust.

Yn Llundain, rydym wedi parhau i ddatblygu ein gwaith ymgysylltu â'r gymuned drwy Ganolfan Bromley-by-Bow (BBC). Elusen leol yw BBC sy'n rhoi cymorth cymunedol a chyfleoedd i ddysgu a gwella llesiant i drigolion Tower Hamlets. Yn Glasgow, rydym wedi ymgysylltu â Chymuned Simon. Mae Cymuned Simon yn canolbwyntio ar frwydo yn erbyn achosion ac effeithiau digartrefedd.

## Hybu iechyd a diogelwch yn y gwaith

Rydym yn cymryd ein cyfrifoldeb cyfreithiol am iechyd, diogelwch a lles ein cyflogeion o ddifrif. Mae hyn yn cynnwys y rhai sy'n gweithio gyda ni neu i ni, ac unrhyw un arall sy'n defnyddio ein safleoedd. Ein nod yw atal unrhyw ddamwain sy'n cynnwys anaf personol, salwch neu niwed.

Rydym yn cydymffurfio â Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974 ac unrhyw ddeddfwriaeth arall. Mae ein datganiad polisi am iechyd a diogelwch yn disgrifio ein cyfrifoldebau a'n nodau yn fanylach. Mae ar gael i bob cyflogai.

Yn ein swyddfeydd yn Commonwealth House a Canary Wharf, rydym wedi llwyddo i ddarparu amgylcheddau gwaith i gefnogi llesiant ein staff. Mae hyn yn cynnwys cynnig amgylcheddau gwaith gwahanol, desgiau eistedd/sefyll ac offer arbenigol eraill.

## Diwrnodau a gollwyd oherwydd absenoldeb

Yn 2019-20, collwyd 4.6 diwrnod y flwyddyn fesul cyflogai ar gyfartaledd (2018-19: 5.1 diwrnod). Mae hyn yn cymharu'n ffafriol â chyfartaledd y sector cyhoeddus sef 8.4 diwrnod y flwyddyn fesul cyflogai.

## Adolygiad o drefniadau treth penodeion yn y sector cyhoeddus

Ym mis Mai 2012, cyhoeddodd y Llywodraeth adolygiad o drefniadau cyhoeddus o benodeion yn y sector cyhoeddus. Nododd yr adolygiad nifer y penodiadau oddi ar y gyflogres gwerth mwy na £58,200 y flwyddyn ym mhob rhan o'r llywodraeth.

Ceir gwybodaeth am benodeion presennol oddi ar y gyflogres yn Atodiad III. Mae gwybodaeth am amser cyfleuster undeb llafur i'w chael yn Atodiad IV.



**Jonathan Brearley**
Prif Swyddog Gweithredol

**15 Gorffennaf 2020**

# Adroddiad ar Atebolrwydd Seneddol ac Archwiliad



# Datganiad ynghylch y Cyflenwad Seneddol

## Crynodeb o'r alldro adnoddau a chyfalaf 2019-20

Yn ogystal â'r prif ddatganiadau a baratowyd o dan IFRS, mae Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth yn ei gwneud yn ofynnol i'r adran baratoi Datganiad ynghylch y Cyflenwad Seneddol a nodiadau ategol.

Mae'r Datganiad ynghylch y Cyflenwad Seneddol a'r nodiadau cysylltiedig yn cael eu harchwilio, fel y nodwyd yn Nhystysgrif ac Adroddiad Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol Tŷ'r Cyffredin.

Mae'r Datganiad ynghylch y Cyflenwad Seneddol yn ddatganiad atebolrwydd allweddol sy'n dangos, yn fanwl, sut mae endid wedi gwario yn erbyn eu Hamcangyfrif o Gyflenwad. Cyflenwad yw'r ddarpariaeth ariannol (at ddibenion adnoddau a chyfalaf) ac arian parod (a ddaw o'r Gronfa Gyfunol yn bennaf), y mae Senedd y DU yn rhoi awdurdod statudol i endidau ei defnyddio. Mae'r Amcangyfrif yn manylu ar y cyflenwad ac mae Senedd y DU yn ei gymeradwyo drwy bleidlais ar ddechrau'r flwyddyn ariannol.

Os bydd endid yn mynd dros y terfynau a bennir gan eu Hamcangyfrif o Gyflenwad, a elwir yn derfynau rheoli, bydd barn amodol yn cael ei rhoi ar eu cyfrifon.

Mae fformat y Datganiad ynghylch y Cyflenwad Seneddol yn adlewyrchu'r Amcangyfrifon o'r Cyflenwad, a gyhoeddir ar gov.uk, er mwyn ei gwneud yn bosibl cymharu'r hyn y mae Senedd y DU yn ei gymeradwyo a'r alldro terfynol.

Mae'r Datganiad ynghylch y Cyflenwad Seneddol yn cynnwys tabl cryno, sy'n manylu ar berfformiad yn erbyn y terfynau rheoli y mae Senedd y DU wedi'u cymeradwyo drwy bleidlais, arian parod a wariwyd (llunnir cyllidebau ar sail croniadau ac felly ni fyddai alldro yn cyfateb yn union i'r arian parod a wariwyd) a gweinyddiaeth.

Mae'r nodiadau ategol yn manylu ar y canlynol: Alldro fesul llinell o'r Amcangyfrif, sy'n rhoi dadansoddiad manylach (nodyn 1); cysoni alldro â gwariant gweithredu net yn y SOCNE, i gysylltu'r Datganiad ynghylch y Cyflenwad Seneddol â'r datganiadau ariannol (nodyn 2); cysoni alldro â'r gofyniad arian parod net (nodyn 3); a, dadansoddiad o'r incwm sy'n daladwy at y Gronfa Gyfunol (nodyn 4).

| | 2019-20 £000 | | | | | | | 2018-19 £000 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Alldro | | | Amcangyfrif | | | Alldro | |
| | Cymer-adwywyd drwy bleidlais | Nis cy-merad-wywyd drwy bleidlais | Cyfan-swm | Cymer-adw-ywyd drwy bleidlais | Nis cy-merad-wywyd drwy bleidlais | Cyfan-swm | Alldro a gymeradw-ywyd drwy bleidlais o'i gymharu â'r amcangyfrif: arbediad | Cyfanswm |
| **Terfynau Gwariant Adrannol** | | | | | | | | |
| Adnodd | 648 | - | 648 | 701 | - | 701 | 53 | 434 |
| Cyfalaf | 318 | - | 318 | 1,000 | - | 1,000 | 682 | 688 |
| **Gwariant a Reolir yn Flynyddol** | | | | | | | | |
| Adnodd | | - | | | - | | | - |
| Cyfalaf | | - | | | - | | | - |
| **Cyfanswm y Gyllideb** | 966 | - | 966 | 1,701 | - | 1,701 | 735 | 1,122 |
| **Adnodd Annomestig** | | | | | | | | |
| Adnodd | | - | | | - | | - | - |
| **Cyfanswm** | **966** | **-** | **966** | **1,701** | **-** | **1,701** | **735** | **1,122** |
| Cyfanswm yr Adnoddau | 648 | - | 648 | 701 | - | 701 | 53 | 434 |
| Cyfanswm Cyfalaf | 318 | - | 318 | 1,000 | - | 1,000 | 682 | 688 |
| **Cyfanswm** | **966** | **-** | **966** | **1,701** | **-** | **1,701** | **735** | **1,122** |

| | 2019-20 £000 | | | 2018-19 £000 |
|---|---|---|---|---|
| | Alldro | Amcangy-frif | Alldro o'i gymharu â'r amcangyfrif: arbediad | Alldro |
| **Gofyniad arian parod net** | (8,746) | 3,523 | 12,269 | (6,902) |

**Costau gweinyddol**

| 2019-20 £000 | | | 2018-19 £000 |
|---|---|---|---|
| Alldro | Amcangy-frif | Arbediad | Alldro |
| 648 | 701 | 53 | 434 |

Rhoddir esboniadau o'r amrywiannau rhwng yr amcangyfrif a'r alldro yn adroddiad y Cyfarwyddwyr

# Alldro net SoPS1

## SoPS1.1 Dadansoddiad o'r alldro adnoddau net fesul adran

| | 2019-20 £000 | | | | | | 2018-19 £000 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Alldro – Gweinyddu | | | Amcangyfrif | | | |
| | Gros | Incwm | Cyfan-swm net | Cyfan-swm net | Cyfanswm net o'i gymharu â'r Am-cangyfrif | Cyfanswm net o'i gymharu â'r Amcangy-frif wedi'i ad-dasu ar gyfer amrywiant | Cyfan-swm |
| **Gwariant mewn terfynau gwariant adrannol** | | | | | | | |
| A Awdurdod Marchnadoedd Nwy a Thrydan: gweinyddu | 75,350 | (75,350) | - | 701 | 701 | - | - |
| B E-Serve Ofgem: gweinyddu | 24,443 | (23,795) | 648 | - | (648) | - | 434 |
| **Cyfanswm** | **99,793** | **(99,145)** | **648** | **701** | **53** | - | **434** |

## SoPS1.2 Dadansoddiad o’r alldro adnoddau net fesul adran

| | 2019-20 £000 | | | | | 2018-19 £000 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Alldro | Amcangyfrif | | Alldro |
| | Gros | Incwm | Cyfans wm net | Cyfans wm net | Cyfanswm alldro net o’i gymharu â’r amcangyfrif | Cyfans wm |
| **Spending in Departmental Expenditure Limits** | | | | | | |
| A Awdurdod Marchnadoedd Nwy a Thrydan: gweinyddu | 318 | - | 318 | 1,000 | 682 | 688 |
| B E-Serve Ofgem: gweinyddu | - | - | - | - | - | 0 |
| **Cyfanswm** | **318** | **-** | **318** | **1,000** | **682** | **688** |

Rhoddir esboniadau o’r amrywiannau rhwng yr amcangyfrif a’r alldro yn adroddiad y Cyfarwyddwyr.

Mae colofnau cyfanswm yr Amcangyfrif yn cynnwys amrywiannau. Amrywiannau yw ailddyrannu darpariaeth yn yr Amcangyfrifon nad oes angen awdurdod seneddol ar eu cyfer (am nad yw Senedd y DU yn pleidleisio ar lefelau mor fanwl â hynny ac yn dirprwyo i Drysorlys EM). Rhoddir rhagor o wybodaeth am amrywiannau yn y Llawlyfr ar Amcangyfrifon o’r Cyflenwad, sydd ar gael yn gov.uk.

Mae’r golofn alldro v amcangyfrif yn seiliedig ar y cyfanswm, gan gynnwys amrywiannau. Mae cyfanswm yr amcangyfrif cyn amrywiannau wedi’i gynnwys fel y gall defnyddwyr gysylltu’r amcangyfrif â’r Amcangyfrifon a osodwyd gerbron Senedd y DU. Nid oes angen SoPS2 am fod cyfanswm yr alldro adnoddau yn y SoPS yr un peth â’r gwariant gweithredu net yn yr SoCNE.

## SoPS3 Cysoni alldro adnoddau net â'r gofyniad arian parod net

| | | Alldro | Amcangyfrif | Cyfanswm alldro net o'i gymharu â'r amcangyfrif: arbedion/(dros ben) |
|---|---|---|---|---|
| | Note | £000 | £000 | £000 |
| **Alldro adnoddau** | SoPS1.1 | **648** | **701** | **53** |
| **Alldro cyfalaf** | SoPS1.2 | **318** | **1,000** | **682** |
| **Croniadau i addasiadau arian parod:** | | | | |
| ▪ Dibrisiant a lleihad mewn gwerth | 3 | (1,488) | (1,500) | (12) |
| ▪ Darpariaethau newydd ac addasiadau ddarpariaethau | 3 | (2,615) | - | 2,615 |
| ▪ Eitemau anariannol eraill | 3 | 9 | (85) | (93) |
| **Symudiad mewn cyfalaf gwaith:** | | | | |
| - Dyledwyr | | 513 | 2,206 | 1,693 |
| - Credydwyr | | (6,675) | 1,051 | 7,726 |
| ▪ Defnydd o ddarpariaeth | 11 | 544 | 150 | (394) |
| **Gofyniad arian parod net** | | **(8,746)** | **3,523** | **12,269** |

Fel y nodir yn y cyflwyniad i'r SoPS uchod, caiff alldro a'r Amcangyfrifon eu llunio yn erbyn y fframwaith cyllidebu, yn hytrach nag ar sail arian parod. Felly, mae'r cysoniad hwn yn pontio rhwng yr alldro adnoddau a chyfalaf a'r gofyniad arian parod net.

## SoPS4 Dadansoddiad o incwm sy'n daladwy i'r gronfa gyfunol

Ni chasglwyd unrhyw incwm o'r gronfa gyfunol gennym yn 2019-20. Nid yw hyn yn cynnwys unrhyw symiau a gasglwyd gennym wrth weithredu fel asiant y gronfa gyfunol yn hytrach na phenadur. Ceir manylion llawn yr incwm a gasglwyd fel asiant y gronfa gyfunol yn natganiad ymddiriedaeth yr adran, a gyhoeddir ar wahân i'r datganiadau ariannol hyn ond ochr yn ochr â hwy.

## Meysydd eraill o Atebolrwydd Seneddol (archwiliedig)

### Rheoleiddio gwariant

Cymhwyswyd gwariant Ofgem at y dibenion a fwriadwyd gan Senedd y DU.

- Colledion a thaliadau arbennig;
- Datgeliadau ffioedd a thaliadau;
- Rhwymedigaethau digwyddiadol annhebygol;
- Tueddiadau gwariant hirdymor.



**Jonathan Brearley**
Prif Swyddog Gweithredol

**15 Gorffennaf 2020**

# Tystysgrif ac Adroddiad Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol tŷ'r Cyffredin

## Barn ar y datganiadau ariannol

Ardystiaf fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol Swyddfa'r Marchnadoedd Nwy a Thrydan am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2020 o dan Ddeddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000. Mae'r datganiadau ariannol yn cynnwys: y Datganiadau o Wariant Net Cynhwysfawr, y Sefyllfa Ariannol, Llifau Arian Parod, Newidiadau yn Ecwiti Trethdalwyr; a'r nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys y polisïau cyfrifyddu pwysig. Paratowyd y datganiadau ariannol hyn o dan y polisïau cyfrifyddu a nodir ynddynt.

Rwyf hefyd wedi archwilio'r Datganiad ynghylch y Cyflenwad Seneddol a'r nodiadau cysylltiedig, a'r wybodaeth yn yr Adroddiad ar Gydnabyddiaeth a Staff a'r datgeliadau Atebolrwydd Seneddol a ddisgrifir yn yr adroddiad hwnnw fel datganiad sydd wedi cael ei archwilio.

Yn fy marn i:

- mae'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa'r Adran ar 31 Mawrth 2020, ac o gost weithredu net yr Adran ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny;
- mae'r datganiadau ariannol wedi'u paratoi yn unol â Deddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000 a chyfarwyddiadau Trysorlys EM a gyhoeddwyd o dan y ddeddf honno.

## Barn ar reoleidd-dra

Yn fy marn i, ym mhob ffordd berthnasol:

- mae'r Datganiad ynghylch y Cyflenwad Seneddol yn cyflwyno'n briodol yr alldro yn erbyn y cyfansymiau rheoli Seneddol a gymeradwywyd drwy bleidlais ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2020 ac yn dangos nad aethpwyd y tu hwnt i'r cyfansymiau hyn;
- mae'r incwm a'r gwariant a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol wedi'u cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan Senedd y DU ac mae'r trafodion ariannol a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

## Sail y farn

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â Safonau Archwilio Rhyngwladol (y DU) a Nodyn Ymarfer 10 'Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol Endidau Sector Cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig. Mae fy nghyfrifoldebau o dan y safonau hynny wedi'u disgrifio'n fanylach o dan gyfrifoldebau'r Archwilydd ar gyfer yr archwiliad yn adran datganiadau ariannol fy nhystysgrif. Mae'r safonau hynny yn ei gwneud yn ofynnol i mi a'm staff gydymffurfio â Safon Foesegol Ddiwygiedig y Cyngor Adrodd Ariannol 2016. Rwy'n annibynnol ar Swyddfa'r Marchnadoedd Nwy a Thrydan yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm harchwiliad a'r datganiadau ariannol yn y DU. Rwyf i a'm staff wedi cyflawni ein cyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credaf fod y dystiolaeth archwilio a gafwyd gennyf yn ddigonol ac yn briodol o ran cynnig sail dros fy marn.

## Casgliadau sy'n ymwneud â busnes gweithredol

Nid oes gennyf ddim i'w adrodd mewn perthynas â'r materion canlynol, y mae'r Safonau Cyfrifyddu Rhyngwladol (DU) yn ei gwneud yn ofynnol i mi roi gwybod i chi amdanynt os:

- nad yw Swyddfa'r Marchnadoedd Nwy a Thrydan yn gwneud defnydd priodol o'r broses gyfrifyddu ar sail busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol; neu
- nad yw Swyddfa'r Marchnadoedd Nwy a Thrydan wedi datgelu yn y datganiadau ariannol unrhyw ansicrwydd perthnasol a nodwyd a allai daflu amheuon sylweddol ar allu Swyddfa'r Marchnadoedd Nwy a Thrydan i barhau i fabwysiadu'r broses gyfrifyddu ar sail busnes gweithredol am gyfnod o flwyddyn o leiaf o'r dyddiad y caiff y datganiadau ariannol eu hawdurdodi i'w rhyddhau.

## Cyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu ar gyfer y datganiadau ariannol

Fel yr eglurwyd yn llawnach yn Natganiad Cyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu, y Swyddog Cyfrifyddu sy'n gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol ac am gael ei fodloni eu bod yn rhoi darlun gwir a theg.

## Cyfrifoldebau'r Archwilydd ar gyfer yr archwiliad o'r datganiadau ariannol

Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio, ardystio ac adrodd ar y datganiadau ariannol yn unol â Deddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000.

Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio, ardystio ac adrodd ar y datganiadau ariannol yn unol â Deddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000.

Mae a wnelo archwiliad â chasglu tystiolaeth am y symiau a'r datgeliadau yn y datganiadau ariannol sy'n ddigonol i roi sicrwydd rhesymol nad yw'r datganiadau ariannol yn cynnwys unrhyw gamddatganiad perthnasol, boed drwy dwyll neu wall. Mae sicrwydd rhesymol yn cynnig lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n gwarantu y bydd archwiliad a gynhelir yn unol â Safonau Archwilio Rhyngwladol (y DU) bob amser yn canfod camddatganiad perthnasol lle y bydd yn bodoli. Gall camddatganiadau ddeillio o dwyll neu wall ac ystyrir eu bod yn berthnasol os gellid disgwyl yn rhesymol iddynt, yn unigol neu ar y cyd, ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wnaed ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Fel rhan o archwiliad yn unol â Safonau Archwilio Rhyngwladol (y DU), rwyf yn arddel barn broffesiynol ac yn cynnal amheuaeth broffesiynol drwy gydol yr archwiliad. Rwyf hefyd yn gwneud y canlynol:

- nodi ac asesu risgiau o gamddatganiad perthnasol y datganiadau ariannol, boed hynny o ganlyniad i dwyll neu wall, llunio a pherfformio gweithdrefnau archwilio sy'n ymateb i'r risgiau hynny, a chael tystiolaeth sy'n ddigonol ac yn briodol i gynnig sail ar gyfer fy marn. Mae'r risg o beidio â chanfod camddatganiad perthnasol o ganlyniad i dwyll yn uwch na pheidio â chanfod camddatganiad perthnasol o ganlyniad i wall, gan y gall twyll gynnwys cydgynllwynio, ffugio, hepgoriadau bwriadol, achosion o gam-gynrychioli, neu ddiystyru rheolaeth fewnol.
- sicrhau dealltwriaeth o reolaeth fewnol sy'n berthnasol i'r archwiliad er mwyn llunio gweithdrefnau archwilio sy'n briodol o dan yr amgylchiadau, ond nid at ddibenion mynegi barn ar effeithiolrwydd rheolaeth fewnol Swyddfa'r Marchnadoedd Nwy a Thrydan.
- gwerthuso priodoldeb polisïau cyfrifyddu a ddefnyddiwyd a rhesymoldeb amcangyfrifon cyfrifyddu a datgeliadau perthnasol a wnaed gan y rheolwyr.
- gwerthuso cyflwyniad, strwythur a chynnwys y datganiadau ariannol ar y cyfan, gan gynnwys y datgeliadau, a ph'un a yw'r datganiadau ariannol cyfunol yn cynrychioli'r trafodion sylfaenol a'r digwyddiadau mewn ffordd sy'n cyflawni cyflwyniad teg.
- Dod i gasgliad ar briodoldeb defnydd Swyddfa'r Marchnadoedd Nwy a Thrydan  o sail gyfrifyddu busnes gweithredol ac, yn seiliedig ar y dystiolaeth archwilio a gafwyd, dod i gasgliad ynghylch p'un a oes ansicrwydd perthnasol yn bodoli sy'n gysylltiedig â digwyddiadau neu amodau a all fwrw amheuaeth sylweddol dros allu Swyddfa'r Marchnadoedd Nwy a Thrydan i barhau fel busnes gweithredol. Os dof i gasgliad bod ansicrwydd perthnasol yn bodoli, mae'n ofynnol i mi dynnu sylw at y datgeliadau cysylltiedig yn y datganiadau ariannol neu, os bydd datgeliadau yn annigonol, addasu fy marn, yn fy adroddiad. Mae fy nghasgliadau yn seiliedig ar y dystiolaeth a gafwyd hyd at ddyddiad fy adroddiad. Fodd bynnag, gall digwyddiadau neu amodau yn y dyfodol achosi i Swyddfa'r Marchnadoedd Nwy a Thrydan roi'r gorau i weithredu fel busnes gweithredol.

Rwy'n cyfathrebu'r â'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu mewn perthynas ag, ymhlith materion eraill, y cwmpas a'r amseru a gynlluniwyd ar gyfer yr archwiliad a chanfyddiadau sylweddol o'r archwiliad, gan gynnwys unrhyw ddiffygion sylweddol ym maes rheolaeth fewnol rwyf yn eu canfod yn ystod fy archwiliad.

Mae hefyd yn ofynnol i mi gael tystiolaeth sy'n ddigonol i roi sicrwydd rhesymol bod y Datganiad ynghylch y Cyflenwad Seneddol yn cyflwyno'n briodol yr alldro yn erbyn y cyfansymiau rheoli Seneddol a gymeradwywyd drwy bleidlais ac nad aed uwchlaw'r cyfansymiau hynny.

Mae'r cyfansymiau rheoli Seneddol a gymeradwywyd drwy bleidlais yn Derfynau Gwariant Adrannol (Adnoddau a Chyfalaf), Gwariant a Reolir yn Flynyddol (Adnoddau a Chyfalaf), (Adnodd) Nad yw'n Gyllidebol a Gofyniad Arian Parod Net. Mae hefyd yn ofynnol i mi gael tystiolaeth sy'n ddigonol i roi sicrwydd rhesymol bod y gwariant a'r incwm a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol wedi'u cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan Senedd y DU a bod y trafodion ariannol a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

## Gwybodaeth Arall

Y Swyddog Cyfrifyddu sy'n gyfrifol am y wybodaeth arall. Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys gwybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn yr adroddiad blynyddol, ond nid yw'n cynnwys rhannau o'r Adroddiad Cydnabyddiaeth Staff na datgeliadau Atebolrwydd Seneddol y disgrifir yn yr adroddiad hwnnw eu bod wedi'u harchwilio, y datganiadau ariannol ac adroddiad yr archwilydd hwnnw a luniwyd gennyf. Nid yw fy marn ar y datganiadau ariannol yn cynnwys y wybodaeth arall ac nid wyf yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sy'n rhoi sicrwydd ar y wybodaeth honno. Mewn perthynas â'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol, fy nghyfrifoldeb i yw darllen y wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried p'un a yw'r wybodaeth arall yn berthnasol anghyson â'r datganiadau ariannol neu'r wybodaeth a gafwyd gennyf yn yr archwiliad neu sy'n ymddangos ei bod wedi'i chamddatgan yn berthnasol fel arall. Yn seiliedig ar y gwaith rwyf wedi'i gyflawni, os dof i gasgliad bod y wybodaeth arall wedi'i chamddatgan yn berthnasol, mae'n ofynnol i mi roi gwybod am hynny. Nid oes gennyf ddim i'w nodi yn hyn o beth.

## Barn ar faterion eraill

Yn fy marn i:

- mae'r rhannau o'r Adroddiad ar Gydnabyddiaeth Staff a'r datgeliadau Atebolrwydd Seneddol i'w harchwilio wedi cael eu paratoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau Trysorlys EM a wnaed o dan Ddeddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000;
- yng ngoleuni gwybodaeth a dealltwriaeth o Swyddfa'r Marchnadoedd Nwy a Thrydan a'i hamgylchedd a gafwyd yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi canfod unrhyw gamddatganiadau perthnasol yn yr Adroddiad ar Berfformiad na'r Adroddiad ar Atebolrwydd;
- mae'r wybodaeth a roddir yn yr Adroddiadau ar Berfformiad ac Atebolrwydd ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol.

## Materion rwyf yn rhoi adroddiad arnynt drwy eithriad

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w nodi o ran y materion canlynol rwyf yn cyflwyno adroddiad i chi arnynt os bydd yr amgylchiadau canlynol yn berthnasol, yn fy marn i:

- ni chadwyd cofnodion cyfrifyddu digonol, neu ni dderbyniwyd ffurflenni sy'n ddigonol ar gyfer fy archwiliad gan ganghennau nad yw fy staff wedi ymweld â hwy; neu
- nid yw'r datganiadau ariannol na'r rhannau o'r Adroddiad ar Gydnabyddiaeth Staff na'r datgeliadau Atebolrwydd Seneddol i'w harchwilio yn cyd-fynd â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu; neu
- ni chefais yr holl wybodaeth ac esboniadau sy'n ofynnol ar gyfer fy archwiliad; neu
- nid yw'r Datganiad Llywodraethu yn adlewyrchu cydymffurfiaeth â chanllawiau Trysorlys EM.

## Adroddiad

Nid oes gennyf unrhyw sylwadau i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.

Rwyf wedi ardystio ac adrodd ar y datganiadau ariannol hyn yn eu ffurf wreiddoil. Mae'r fersiwn hon yn gyfieithiad o'r fersiwn Saesneg wreiddiol. Mae Ofgem yn gyfrifol am gywirdeb y cyfieithiad hyn.

**Gareth Davies**
Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol
Swyddfa Archwilio Genedlaethole
157-197 Buckingham Palace Road
Victoria, London
SW1W 9SP

**17 Gorffennaf 2020**

# Cyfrifon adnoddau



# Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2020

Mae'r cyfrif hwn yn crynhoi'r gwariant a'r incwm a gynhyrchwyd ac a ddefnyddiwyd ar sail croniadau. Mae hefyd yn cynnwys incwm a gwariant cynhwysfawr arall, sy'n cynnwys newidiadau i werthoedd asedau anghyfredol ac offerynnau ariannol eraill na ellir eu cydnabod fel incwm na gwariant eto.

| | Nodyn | 2019-20 £000 | 2018-19 £000 |
|---|---|---|---|
| Incwm Gweithredu | 4 | (99,145) | (96,728) |
| **Cyfanswm yr incwm gweithredu** | | **(99,145)** | **(96,728)** |
| Costau staff | 3 | 64,966 | 61,311 |
| Gwariant gweithredu arall | 3 | 34,827 | 35,851 |
| **Cyfanswm y gwariant gweithredu** | | **99,793** | **97,162** |
| **Gwariant gweithredu net ar gyfer y cyfnod** | 2 | **648** | **434** |
| **Gwariant net cynhwysfawr arall** | | | |
| Ennill/(colled) actiwaraidd ar rwymedigaethau pensiwn | | - | (15) |
| **Gwariant net cynhwysfawr am y flwyddyn** | | **648** | **419** |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 73 i 87 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

# Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol ar 31 Mawrth 2020

Mae'r datganiad hwn yn cyflwyno sefyllfa ariannol yr adran. Mae iddo dair prif ran: asedau a berchenogir neu a reolir; rhwymedigaethau sy'n ddyledus i gyrff eraill; ac ecwiti, sef gwerth gweddilliol yr endid.

| | Nodyn | | 2019-20<br>£000 | | 2018-19<br>£000 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Asedau anghyfredol:** | | | | | |
| Eiddo, offer a chyfarpar | 5 | 1,502 | | 2,677 | |
| ***Cyfanswm yr asedau anghyfredol*** | | | **1,502** | | **2,677** |
| **Asedau cyfredol:** | | | | | |
| Symiau masnach derbyniadwy a symiau derbyniadwy eraill | 9 | 7,702 | | 7,189 | |
| Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo | 8 | 12,269 | | 9,036 | |
| ***Cyfanswm asedau cyfredol*** | | | **19,971** | | **16,225** |
| ***Cyfanswm yr asedau*** | | | **21,473** | | **18,902** |
| **Rhwymedigaethau cyfredol:** | | | | | |
| Symiau masnach taladwy a symiau taladwy eraill | 10 | (28,290) | | (18,382) | |
| Darpariaethau | 11 | (1,131) | | (570) | |
| ***Cyfanswm y rhwymedigaethau cyfredol*** | | | **(29,421)** | | **(18,952)** |
| **Cyfanswm asedau llai rhwymedigaethau cyfredol** | | | **(7,948)** | | **(50)** |
| **Rhwymedigaethau anghyfredol:** | | | | | |
| Darpariaethau | 11 | (2,853) | | (1,336) | |
| ***Cyfanswm y rhwymedigaethau anghyfredol*** | | | **(2,853)** | | **(1,336)** |
| **Cyfanswm yr asedau llai cyfanswm y rhwymedigaethau** | | | **(10,801)** | | **(1,386)** |
| **Ecwiti trethdalwyr:** | | | | | |
| Cronfa gyffredinol | | (10,801) | | (1,386) | |
| **Cyfanswm ecwiti** | | | **(10,801)** | | **(1,386)** |



**Jonathan Brearley**
Prif Weithredwr

**15 Gorffennaf 2020**

Mae'r nodiadau ar dudalennau 73 i 87 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

# Datganiad o Lifau Arian Parod am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2020

Mae'r Datganiad o Lifau Arian Parod yn dangos y newidiadau mewn arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo ar gyfer yr adran yn ystod y cyfnod adrodd. Mae'r datganiad yn dangos sut mae'r adran yn cynhyrchu ac yn defnyddio arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo drwy ddosbarthu llifau arian parod fel gweithgareddau gweithredu, buddsoddi ac ariannu. Mae swm y llif arian parod net sy'n deillio o weithgareddau gweithredu yn ddangosydd allweddol o gostau gwasanaeth a'r graddau y caiff y gweithrediadau hyn eu hariannu drwy incwm gan dderbynyddion gwasanaethau a ddarparwyd gan yr adran. Mae gweithgareddau buddsoddi yn cynrychioli i ba raddau y mae llifau arian parod i mewn ac allan wedi cael eu gwneud ar gyfer adnoddau y bwriedir iddynt gyfrannu at y broses o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus gan yr adran yn y dyfodol.

| | Nodyn | 2019-20<br>£000 | 2018-19<br>£000 |
|---|---|---|---|
| **Llifau arian parod o weithgareddau gweithredu:** | | | |
| Gwariant gweithredu net | SoCNE | (648) | (434) |
| Addasiadau ar gyfer trafodion nad ydynt yn arian parod | 3 | 4,095 | 1,903 |
| (Cynnydd)/Gostyngiad mewn symiau masnach derbyniadwy a symiau derbyniadwy eraill | 9 | (513) | 11,179 |
| Cynnydd/(Gostyngiad) mewn symiau masnach taladwy | 10 | 9,908 | (2,158) |
| *llai symudiadau mewn symiau taladwy sy'n ymwneud ag eitemau nad ydynt yn mynd drwy'r SoCNE* | 10 | (3,233) | (2,475) |
| Defnydd o ddarpariaethau | 11 | (544) | (425) |
| **Llif arian parod net o weithgareddau gweithredu** | | **9,064** | **7,590** |
| **Llifau arian parod o weithgareddau buddsoddi:** | | - | - |
| Eiddo, offer a chyfarpar a brynwyd | 5 | (318) | (688) |
| **Llif arian parod net o weithgareddau buddsoddi** | | **(318)** | **(688)** |
| **Llifau arian parod o weithgareddau cyllido:** | | | |
| O'r Gronfa Gyfunol (Cyflenwad) – y flwyddyn gyfredol | SOCiTE | 1,389 | - |
| O'r Gronfa Gyfunol (Cyflenwad) – y flwyddyn flaenorol | | | |
| Blaendaliadau o'r Gronfa wrth Gefn | | 20,000 | 15,000 |
| Taliadau i'r Gronfa wrth Gefn | | (20,000) | (15,000) |
| **Cyllid net** | | **1,389** | **-** |
| **Lleihad net mewn arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo yn ystod y cyfnod cyn addasu ar gyfer taliadau i'r Gronfa Gyfunol** | | **10,135** | **(6,902)** |
| Taliadau symiau sy'n ddyledus i'r Gronfa Gyfunol | | (6,902) | (4,427) |
| **Cynnydd/(lleihad) net mewn arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo yn ystod y cyfnod ar ôl addasu ar gyfer derbyniadau a thaliadau i'r Gronfa Gyfunol** | | **3,233** | **2,475** |
| Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo ar ddechrau'r cyfnod | 8 | 9,036 | 6,561 |
| **Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo ar ddiwedd y cyfnod** | 8 | **12,269** | **9,036** |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 73 i 87 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

# Datganiad o Newidiadau yn Ecwiti Trethdalwyr am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2020

Mae'r datganiad hwn yn dangos y symudiad yn ystod y flwyddyn ar y cronfeydd wrth gefn gwahanol a ddelir gan yr adran, wedi'u dadansoddi'n 'gronfeydd cyffredinol wrth gefn' (h.y. y cronfeydd wrth gefn hynny sy'n adlewyrchu cyfraniad o'r Gronfa Gyfunol). Mae'r Gronfa Gyffredinol yn cynrychioli cyfanswm asedau adran llai rhwymedigaethau, i'r graddau nad yw'r cyfanswm wedi ei gynrychioli gan gronfeydd wrth gefn nac eitemau ariannu eraill.

| | | Cronfa gyffredinol |
|---|---|---|
| | **Nodyn** | **£000** |
| **Balans ar 31 Mawrth 2018** | | **5,880** |
| Cydnabyddiaeth yr archwilwyr | 3 | 85 |
| Gwariant net cynhwysfawr am y flwyddyn | SoCNE | (434) |
| Colledion sy'n ymwneud â rhwymedigaethau pensiwn | 11 | (15) |
| Cyllid Seneddol Net – tybiedig | | 2,134 |
| Cyllid Seneddol Net – a hawliwyd | | - |
| Addasiad taladwy i'r cyflenwad | | (9,036) |
| **Balans ar 31 Mawrth 2019** | | **(1,386)** |
| Cydnabyddiaeth yr archwilwyr | 3 | 100 |
| Gwariant net cynhwysfawr am y flwyddyn | SoCNE | (648) |
| Enillion/colledion sy'n ymwneud â rhwymedigaethau pensiwn | 11 | - |
| Cyllid Seneddol Net – tybiedig | | 2,134 |
| Cyllid Seneddol Net – a hawliwyd | | 1,389 |
| Addasiad taladwy i'r cyflenwad | | (12,269) |
| Addasiadau eraill i'r cronfeydd wrth gefn | | (121) |
| **Balans ar 31 Mawrth 2020** | | **(10,801)** |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 73 i 87 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

# Nodiadau i'r cyfrifon adnoddau adrannol

## 1. Datganiad o bolisïau cyfrifyddu

Paratowyd y datganiadau ariannol hyn yn unol â Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth a gyhoeddwyd gan Drysorlys EM. Mae'r polisïau cyfrifyddu a nodir yn y Llawlyfr Adrodd Ariannol yn cymhwyso Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) fel y'u haddaswyd neu y'u dehonglwyd yng nghyd-destun y sector cyhoeddus. Pan fo'r Llawlyfr yn caniatáu dewis o bolisi cyfrifyddu, mae Ofgem wedi dewis y polisi cyfrifyddu y bernir ei fod yn fwyaf priodol i'r amgylchiadau penodol at ddiben rhoi darlun gwir a theg. Disgrifir y polisïau penodol a fabwysiadwyd gennym isod. Fe'u cymhwyswyd yn gyson wrth ymdrin ag eitemau a ystyrir yn berthnasol i'r cyfrifon.

Yn ogystal â'r prif ddatganiadau a baratowyd o dan IFRS, mae'r Llawlyfr Adrodd Ariannol hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r adran baratoi un prif ddatganiad ychwanegol. Mae'r Datganiad ynghylch y Cyflenwad Seneddol (SoPS) a'r nodiadau cysylltiedig yn dangos alldro yn erbyn amcangyfrif o ran y gofyniad adnoddau net a'r gofyniad arian parod net, ac maent wedi'u cynnwys yn yr adran ar yr Adroddiad ar Atebolrwydd Seneddol ac Archwiliad sy'n dechrau ar dudalen 60.

### 1.1 Confensiwn cyfrifyddu

Paratowyd y datganiadau hyn ar sail busnes gweithredol o dan y confensiwn cost hanesyddol. Cyflwynir y cyfrifon i'r £'000 agosaf.

Yn debyg i adrannau eraill y llywodraeth, caiff ein rhwymedigaethau eu hariannu yn y dyfodol drwy grantiau cyflenwi yn y dyfodol a defnyddio incwm yn y dyfodol, y ddau i'w cymeradwyo'n flynyddol gan Senedd y DU. Mae'r symiau sydd eu hangen ar gyfer 2020-21 eisoes wedi'u cymeradwyo ac nid oes unrhyw reswm dros gredu na chaiff symiau yn y dyfodol eu cymeradwyo. Felly rydym wedi ystyried ei bod yn briodol mabwysiadu sail busnes gweithredol ar gyfer paratoi'r datganiadau ariannol hyn.

### 1.2 Incwm gweithredu

Incwm sy'n ymwneud yn uniongyrchol â gweithgareddau gweithredu Ofgem yw incwm gweithredu. Yn bennaf, mae'n cynnwys ffioedd am drwyddedau a ffioedd a thaliadau a godir am wasanaethau a ddarperir ar sail cost lawn.

- **Ffioedd trwyddedu** - mae'n ofynnol i Ofgem godi incwm o'r sector a reoleiddir ganddo er mwyn talu'r costau y mae Ofgem yn mynd iddynt wrth reoleiddio'r sector hwnnw. Felly, mae'r ddeddfwriaeth yn darparu'r gorfodadwyedd ar y naill barti a'r llall er mwyn galluogi Ofgem i adennill ei gostau gan drydydd partïon. Mae'r rhwymedigaethau perfformiad yn gysylltiedig â'r gwaith sylfaenol sydd i'w gyflawni gan Ofgem fel rheoleiddiwr y Farchnad Nwy a Thrydan, ac fel y nodir yn y Flaenraglen Waith. Caiff y taliadau eu cyfrifo drwy adennill costau fel y nodir yng nghyllideb Ofgem a'u haddasu ar gyfer unrhyw achosion o oradennill neu danadennill yn y flwyddyn flaenorol. Cydnabyddir refeniw yn y flwyddyn pan eir i'r rhwymedigaeth perfformiad (cost). Caiff unrhyw refeniw a oradenillir neu a danadenillir ei gronni neu ei ohirio a chaiff unrhyw daliadau yn y dyfodol eu haddasu'n unol â hynny.

- **Taliadau a ailgodir drwy gynlluniau** - O dan gytundebau lefel gwasanaeth/contractau â'r Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol a chyrff eraill y llywodraeth, mae Ofgem yn gweinyddu cynlluniau ynni ac amgylcheddol ar eu rhan. Darperir y gwasanaethau hyn ar sail cost lawn. Cydnabyddir incwm ar sail croniadau wrth i'r rhwymedigaethau perfformiad a amlinellir yn y cytundebau/contractau lefel gwasanaeth gael eu bodloni dros amser.

- **Incwm Arall** - Cyfrifir am incwm arall ar sail croniadau.

## 1.3 Pensiynau

Cwmpesir cyn-gyflogeion a chyflogeion presennol gan ddarpariaethau Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS) a Chynllun Pensiwn Gweision Sifil ac Eraill (CSOPS). Disgrifir y rhain yn yr adroddiad ar staff. Mae'r ddau gynllun yn anghyfrannol a heb eu hariannu. Mae adrannau, asiantaethau a chyrff eraill a gwmpesir gan y ddau gynllun yn cyflawni cost pensiynau a ddarperir ar gyfer y staff a gyflogir ganddynt drwy dalu taliadau a gyfrifir ar sail croniadau. Mae rhwymedigaeth i dalu buddiannau yn y dyfodol yn arwystl ar y cynlluniau. Ceir datganiad cynllun ar wahân ar gyfer y PCSPS a'r CSOPS yn eu cyfanrwydd.

Mae gan ein cyn-brif swyddog gweithredol a chyfarwyddwr cyffredinol drefniadau pensiwn ar wahân sy'n ddigon tebyg i'r PCSPS. Mae'r trefniadau yn darparu ar gyfer cynllun buddiannau diffiniedig heb ei ariannu. Fodd bynnag, yn wahanol i'r PCSPS, mae rhwymedigaeth pensiwn wedi'i chynnwys yn y cyfrifon fel sy'n ofynnol o dan IAS37 (nodyn 11).

## 1.4 Costau gadael yn gynnar

Mae'n ofynnol i Ofgem dalu cost buddiannau ychwanegol y tu hwnt i fuddiannau arferol y PCSPS i gyflogeion sy'n ymddeol yn gynnar. Darparwyd ar gyfer y gost lawn pan fydd y rhaglen ymddeol yn gynnar wedi'i chyhoeddi a'i bod yn gyfrwymol.

## 1.5 Eiddo, offer, cyfarpar a dibrisiant

Delir eiddo, offer a chyfarpar ar gost hanesyddol wedi'i dibrisio fel procsi am werth cyfredol, gan fod hyn yn adlewyrchu'r defnydd o'r ased yn realistig Ni fyddai ailbrisiadau yn achosi gwahaniaeth perthnasol.

Darperir dibrisiant ar gyfraddau a gyfrifir i ddileu eiddo, offer a chyfarpar mewn rhandaliadau hafal dros eu hoes ddefnyddiol amcangyfrifedig, ar ôl ystyried gwerth gweddilliol. Mae oes asedau o fewn yr amrediadau canlynol:

| | |
|---|---|
| Gwelliannau lesddaliadol | Oes y brydles |
| Cyfarpar, dodrefn a ffitiadau swyddfa | Pum mlynedd |
| Cyfarpar TG | Tair blynedd. |

Yr isafswm lefel ar gyfer cyfalafu eiddo, offer a chyfarpar yw £2,000. Caiff cyfarpar TG a dodrefn, lle y gall asedau unigol gostio llai nag £2,000, eu cyfalafu ar sail grŵp.

## 1.6 Prydlesau gweithredu

Caiff rhenti sy'n ddyledus o dan brydlesau gweithredu eu codi ar y datganiad o wariant net cynhwysfawr dros dymor y brydles ar sail llinell syth, neu ar sail rhenti gwirioneddol sy'n daladwy sy'n adlewyrchu'r defnydd yn deg. Bydd hyn yn newid yn 2020-21. Gweler nodyn 1.14.

## 1.7 Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo

Mae arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo yn y datganiad o'r sefyllfa ariannol yn cynnwys arian parod yn y banc ac mewn llaw. At ddiben y datganiad llif arian parod, mae arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo yn cynnwys arian parod yn unig.

## 1.8 Darpariaetha

Lle mae gan Ofgem rwymedigaeth gyfreithiol neu ddeongladwy i dalu rhai costau, bydd Ofgem yn darparu ar gyfer hynny ar sail amcangyfrif y rheolwyr o werth, tebygolrwydd ac amseru taliadau yn y dyfodol.

Pan fo gwerth amser arian yn berthnasol, caiff y ddarpariaeth ei disgowntio i'w gwerth presennol gan ddefnyddio cyfradd ddisgowntio o 0.29%, sef cyfradd safonol y llywodraeth. Bob blwyddyn mae'r taliadau ariannol yn y datganiad o wariant net cynhwysfawr yn cynnwys yr addasiadau i amorteiddio disgownt blwyddyn ac ailddatgan rhwymedigaethau i lefelau prisiau presennol.

## 1.9 Treth ar werth

Dangosir symiau yn glir o dreth ar werth (TAW), ac eithrio'r canlynol:

- codir TAW na ellir ei hadennill ar y datganiad o wariant net cynhwysfawr ac mae wedi'i chynnwys o dan y pennawd sy'n berthnasol i'r math o wariant
- mae TAW na ellir ei adennill ar brynu ased wedi'i chynnwys yng nghost prynu wedi'i chyfalafu yr ased.

Mae'r swm sy'n ddyledus gan Gyllid a Thollau EM ar gyfer TAW wedi'i gynnwys yn y symiau derbyniadwy yn y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol.

## 1.10 Cyfnewid tramor

Caiff trafodion mewn arian cyfred tramor eu trosi'n sterling ar y gyfradd gyfnewid gyfredol ar ddyddiad pob trafodyn.

## 1.11 Risgiau ariannol

Nid yw Ofgem yn sylweddol agored i risgiau sy'n gysylltiedig â hylifedd, cyfradd llog nac arian cyfred. Oherwydd natur ei weithgareddau a'r ffordd y caiff Ofgem ei ariannu, ni chaiff ei amlygu i'r un graddau o risg ariannol ag y mae endidau busnes yn eu hwynebu.

## 1.12 Rhwymedigaethau amodol

Yn ogystal â rhwymedigaethau digwyddiadol a ddatgelir yn unol ag IAS 37 (Darpariaethau, Rhwymedigaethau Digwyddiadol ac Asedau Amodol), cyflwynir adroddiad ar ar rwymedigaethau digwyddiadol statudol ac anstatudol penodol at ddibenion adrodd ac atebolrwydd seneddol. Digwydd hyn lle cred y rheolwyr ei bod yn annhebygol iawn y caiff budd economaidd ei drosglwyddo, ond lle mae adroddiad ar y rhwymedigaethau wedi cael ei gyflwyno i Senedd y DU yn unol â gofynion Rheoli Arian Cyhoeddus.

## 1.13 Asedau sy'n eiddo i drydydd partïon

Ni chaiff asedau sy'n eiddo i drydydd partïon fel y'u datgelir yn Nodyn 14 (megis arian a ddelir mewn perthynas â'r Rhwymedigaeth Ynni Adnewyddadwy a chynlluniau Tariff Cyflenwi Trydan) eu cydnabod yn y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol gan nad oes gan Ofgem unrhyw fudd ynddynt.

## 1.14 Safonau cyfrifyddu a gyhoeddwyd ond nad ydynt yn weithredol eto

- **IFRS 16**

Bydd IFRS 16 Prydlesau yn gymwys o 1 Ebrill 2021 i gyrff FReM ac yn disodli IAS 17 Prydlesau. Mae IFRS 16 Prydlesau yn cynnig model cyfrifyddu un prydlesai, sy'n ei gwneud yn ofynnol i brydleseion gydnabod asedau a rhwymedigaethau ar gyfer pob prydles oni fydd tymor y brydles yn para 12 mis neu lai, neu os bydd yr ased sylfaenol yn bodloni meini prawf IFRS 16 i gael ei ddosbarthu'n ased "gwerth isel".

Mae IFRS 16 yn ei gwneud yn ofynnol i asedau a rhwymedigaethau gael eu cydnabod ar werth wedi'i ddisgowntio'r isafwm taliadau prydles i ddechrau, ac i'r asedau, sydd i'w disgrifio fel asedau "hawl defnyddio", eu cyflwyno o dan Eiddo, Offer a Chyfarpar. Felly, bydd gweithredu IFRS 16 yn cynyddu gwerth asedau eiddo, offer a chyfarpar a gwerth rhwymedigaethau prydles.

Ar ôl cael eu cydnabod i ddechrau, caiff asedau hawl defnyddio eu hamorteiddio ar sail llinell syth a chaiff llog ei gydnabod ar y rhwymedigaethau. O ganlyniad, bydd amseriad cydnabod cyfanswm costau prydlesau yn newid, gan y bydd costau llog yn uwch ar ddechrau prydles.

Disgwylir i'r effaith ddisgwyliedig fod yn berthnasol, ond nid yw wedi'i mesur eto oherwydd newidiadau mewn prydlesau y rhagwelir y byddant yn digwydd cyn y dyddiad gweithredu.

- **IFRS 17**

Nid yw'n debygol y caiff IFRS 17 Contractau yswiriant ei mabwysiadu gan y sector cyhoeddus tan 2020-21 neu ar ôl hynny. Ni ddisgwylir i'r effaith fod yn berthnasol i'r adran.

## 1.15 Polisi Cyfrifyddu ar Benderfyniadau Cyfrifyddu Hanfodol ac Ansicrwydd Ynghylch Amcangyfrifon

- **Darpariaethau**

Mae darpariaethau yn dibynnu ar arfer barn broffesiynol, profiad hanesyddol a ffactorau eraill y disgwylir iddynt ddylanwadu ar ddigwyddiadau yn y dyfodol. Lle y bernir bod rhwymedigaeth yn debygol o grisialu ac y gellir ei mesur gyda sicrwydd rhesymol, cydnabyddir darpariaeth. Datgelir rhagor o wybodaeth yn nodyn 11.

- **Oes ddefnyddiol asedau cyfredol**

Ceir ansicrwydd ynglŷn ag oes ddefnyddiol amcangyfrifedig asedau anghyfredol; caiff y rhain eu hadolygu ar y dyddiad adrodd a'u diweddaru os bydd disgwyliadau yn wahanol i'r amcangyfrifon blaenorol oherwydd traul, darfodiad technegol neu fasnachol neu gyfyngiadau cyfreithiol neu gyfyngiadau eraill ar y defnydd a wneir ohonynt.

## 2. Datganiad o Gostau Gweithredu yn ôl Cylchran Weithredu

| | 2019-20 | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Gweithgareddau Rheoleiddio £000 | Ofgem E-Serve £000 | Gwasanaethau Corfforaethol £000 | Cyfanswm £000 |
| Gwariant gros | 36,117 | 24,443 | 39,233 | 99,793 |
| Incwm | (36,117) | (23,795) | (39,233) | (99,145) |
| **Gwariant net** | **-** | **648** | **-** | **648** |

| | 2018-19 | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Gweithgareddau Rheoleiddio £000 | Ofgem E-Serve £000 | Gwasanaethau Corfforaethol £000 | Cyfanswm £000 |
| Gwariant gros | 33,812 | 25,227 | 38,123 | 97,162 |
| Incwm | (33,812) | (24,793) | (38,123) | (96,728) |
| **Gwariant net** | **-** | **434** | **-** | **434** |

Mae adroddiadau cylchrannol yn cael eu cyflwyno ar sail gweithgarwch, yn unol ag adroddiadau misol i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau yn y sefydliad.

## 3. Gwariant

| | Note | 2019-20 £000 | 2018-19 £000 |
|---|---|---|---|
| **Costau staff*:** | | **64,966** | **61,311** |
| Cyflogau | | 48,233 | 48,646 |
| Costau Nawdd Cymdeithasol | | 4,901 | 4,523 |
| Costau Pensiwn Eraill | | 11,023 | 7,936 |
| Costau Staff Eraill | | 610 | 20 |
| Lefi Prentisiaethau | | 199 | 186 |
| **Rhenti o dan brydlesau gweithredu:** | | **3,479** | **3,309** |
| Prydlesau gweithredu | 6 | 3,479 | 3,309 |
| **Eitemau nad ydynt yn rhai arian parod:** | | **1,588** | **1,458** |
| Cydnabyddiaeth a threuliau'r archwilwyr** | | 100 | 85 |
| Dibrisiant | 5 | 973 | 1,373 |
| Lleihad mewn gwerth | 5 | 515 | - |
| **Gwariant arall:** | | **27,145** | **30,639** |
| Contractwyr | | 15,829 | 18,039 |
| Costau llety | | 1,945 | 2,806 |
| Recriwtio a hyfforddiant | | 1,350 | 1,390 |
| Teithio a chynhaliaeth | | 984 | 1,232 |
| Cyflenwadau a chyfarpar swyddfa | | 4,649 | 5,872 |
| Gwasanaethau Proffesiynol | | 1,352 | 319 |
| Costau sy'n ymwneud â staff | | 366 | 322 |
| Gwariant arall | | 670 | 659 |
| **Darpariaethau (nad ydynt yn rhai arian parod):** | | **2,615** | **445** |
| Darparwyd yn y flwyddyn | 11 | 2,615 | 425 |
| Cost llog | 11 | - | 20 |
| **Cyfanswm** | | **99,793** | **97,162** |

* Ceir rhagor o ddadansoddiad o gostau staff yn yr Adroddiad ar Staff ar dudalen 54

** Nid oedd unrhyw gydnabyddiaeth i archwilwyr am waith nad oedd yn waith archwilio.

## 4. Dadansoddiad o incwm gweithredu

| | | | 2019-20 £000 | | | 2018-19 £000 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Incwm | Costau llawn | Deficit | Income | Full costs | Deficit |
| Ffioedd trwydded | 72,194 | 72,194 | - | 69,143 | 69,143 | - |
| Arall | 26,951 | 27,599 | (648) | 27,585 | 28,019 | (434) |
| **Cyfanswm** | **99,145** | **99,793** | **(648)** | **96,728** | **97,162** | **(434)** |

| | | 2019-20 | 2018-19 |
|---|---|---|---|
| **Mae incwm arall yn cynnwys:** | **Nodyn** | **£000** | **£000** |
| Tâl Tendr Trawsyrru ar y Môr a Ailgodir | | 2,629 | 2,385 |
| Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol (yn ymwneud â rhaglenni amgylcheddol a throsglwyddo staff) | 13 | 16,806 | 19,138 |
| Taliadau wedi'u hailgodi a ariennir gan gynlluniau | | 6,105 | 5,655 |
| Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (yn ymwneud â chostau swyddfeydd wedi'u rhannu a throsglwyddo staff) | | - | (6) |
| Adrannau eraill | | 180 | 137 |
| Amrywiol* | | 1,231 | 276 |
| | | **26,951** | **27,585** |

* Mae incwm amrywiol yn cynnwys ffioedd ar gyfer ceisiadau am drwydded, a mân eitemau eraill. Yn 2019-20, derbyniwyd £0.8 miliwn oddi wrth Innovate UK i dalu costau prosiect a ddechreuodd yn 2018-19.

## 5. Eiddo, Offer a Chyfarpar

| | Dodrefn | Cyfarpar swyddfa | TG | Lesddaliadol | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| **Cost neu brisiad** | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2019 | 332 | 1,999 | 7,162 | 7,533 | 17,026 |
| Ychwanegiadau | 47 | 121 | 109 | 41 | 318 |
| Gwarediadau | (150) | (1,999) | (5,889) | (1,536) | (9,574) |
| Lleihad mewn gwerthoedd | - | - | - | - | - |
| **Ar 31 Mawrth 2020** | **229** | **121** | **1,382** | **6,038** | **7,770** |
| **Dibrisiant** | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2019 | 211 | 1,997 | 6,022 | 6,119 | 14,349 |
| Tâl a godwyd yn y flwyddyn | 52 | 73 | 632 | 216 | 973 |
| Gwarediadau | (150) | (2,062) | (5,827) | (1,530) | (9,569) |
| Lleihad mewn gwerthoedd | - | - | - | 515 | 515 |
| **Ar 31 Mawrth 2020** | **113** | **8** | **827** | **5,320** | **6,268** |
| **Swm cario ar 31 Mawrth 2020** | **116** | **113** | **555** | **718** | **1,502** |
| Swm cario ar 31 Mawrth 2019 | 121 | 2 | 1,140 | 1,414 | 2,677 |

| | Dodrefn | Cyfarpar swyddfa | TG | Lesddaliadol | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| **Cost or valuation** | | | | | |
| At 1 April 2018 | 306 | 1,999 | 6,535 | 7,498 | 16,338 |
| Additions | 26 | - | 627 | 35 | 688 |
| Impairments | - | - | - | - | - |
| **At 31 March 2019** | **332** | **1,999** | **7,162** | **7,533** | **17,026** |
| **Depreciation** | | | | | |
| At 1 April 2018 | 180 | 1,976 | 5,249 | 5,571 | 12,976 |
| Charged in year | 31 | 21 | 773 | 548 | 1,373 |
| Impairments | - | - | - | - | - |
| **At 31 March 2019** | **211** | **1,997** | **6,022** | **6,119** | **14,349** |
| **Carrying amount at 31 March 2019** | **121** | **2** | **1,140** | **1,414** | **2,677** |
| Carrying amount at 31 March 2018 | 126 | 23 | 1,286 | 1,927 | 3,362 |

Ailaseswyd oes ddefnyddiol asedau lesddaliadol ar gyfer Glasgow yn ystod y flwyddyn, gan arwain at tâl lleihad mewn gwerth o £514,856.

Yn ystod y flwyddyn, gwaredwyd asedau sefydlog a oedd wedi costio £9,569,365 yn wreiddiol. Roedd yr asedau yn ddarfodedig, cawsant eu dibrisio'n llawn ac roedd ganddynt gwerth cario o ddim.

## 6. Prydlesau gweithredu

Roedd £3.5m (2018-19: £3.3m) wedi'i gynnwys fel traul ar brydlesau gweithredu yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr.

Nodir cyfanswm yr isafswm taliadau prydles yn y dyfodol o dan brydlesau gweithredu yn y tabl isod ar gyfer pob un o'r cyfnodau canlynol.

| | 2019-20 | 2018-19 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| **Mae rhwymedigaeth o dan brydlesi gweithredu yn cynnwys:** | | |
| Adeiladau:: | | |
| O fewn blwyddyn | 2,194 | 2,134 |
| Ar ôl blwyddyn ond cyn pen pum mlynedd | 8,095 | 8,502 |
| Ar ôl pum mlynedd | 16,292 | 23,626 |
| | **26,581** | **34,262** |

Mae'r swyddfa yn Llundain o dan gontract tan fis Mehefin 2032.

Mae'r swyddfa yn Glasgow o dan brydles tan 2026-27 gyda thoriadau blynyddol o 2021-22.

Disgwylir i'r swyddfa yng Nghaerdydd symud i un o hybiau'r llywodraeth yn ystod 2020-21.

## 7. Offerynnau ariannol

Gan fod gofynion arian parod yr adran yn cael eu bodloni drwy'r broses Amcangyfrifon, mae offerynnau ariannol yn chwarae rhan fwy cyfyngedig o ran creu a rheoli risg nag a fyddai'n gymwys i gorff o faint tebyg nad yw yn y sector cyhoeddus. Mae'r mwyafrif o'r offerynnau ariannol yn ymwneud â chontractau ar gyfer eitemau anariannol yn unol â gofynion prynu a defnyddio disgwyliedig yr Adran ac felly fel arfer nid yw'r Adran yn agored i fawr ddim risg o ran credyd, hylifedd na'r farchnad.

## 8. Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo

| | 2019-20 | 2018-19 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| Balans ar 1 Ebrill | 9,036 | 6,561 |
| Newid net mewn balansau arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo | 3,233 | 2,475 |
| **Balans ar 31 Mawrth** | **12,269** | **9,036** |
| Daliwyd y balansau canlynol ar 31 Mawrth yn: | | |
| Gwasanaeth Bancio'r Llywodraeth | 1,996 | 9,036 |
| Banciau masnachol ac arian parod mewn llaw | 10,273 | - |
| **Balans ar 31 Mawrth** | **12,269** | **9,036** |

Yn ogystal â'r arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo a ddatgelir uchod, mae Ofgem yn dal asedau trydydd parti ar ffurf arian parod a llythyrau credyd sy'n ymwneud â gwarannau datblygwyr tendrau ar y môr, y Rhwymedigaeth Ynni Adnewyddadwy, a chronfeydd y Tariffau Cyflenwi Trydan a'r cynlluniau Cymhelliant Gwres Adnewyddadwy. Disgrifir y rhain yn nodyn 14.

## 9. Symiau masnach derbyniadwy ac asedau cyfredol eraill

| | 2019-20 | 2018-19 |
|---|---|---|
| **Symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn:** | £000 | £000 |
| Incwm a gronnwyd | 5,787 | 5,277 |
| Symiau masnach derbyniadwy | 564 | 565 |
| Rhagdaliadau | 639 | 806 |
| TAW | 660 | 411 |
| Symiau derbyniadwy eraill | 52 | 130 |
| **Balans ar 31 Mawrth** | **7,702** | **7,189** |

Y symiau derbyniadwy eraill yw benthyciadau staff sy'n ddyledus, megis benthyciadau tocyn tymor a benthyciadau drwy'r cynllun beicio i'r gwaith.

## 10. Symiau masnach taladwy a rhwymedigaethau cyfredol eraill

| | 2019-20 | 2018-19 |
|---|---|---|
| **Symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn:** | **£000** | **£000** |
| Symiau a roddwyd o'r gronfa gyfunol i'w cyflenwi ond nas gwariwyd erbyn diwedd y flwyddyn | 3,523 | 2,134 |
| Excess cash payable to the consolidated fund | 8,746 | 6,902 |
| Ffioedd trwydded gohiriedig | 3,955 | 2,995 |
| Croniadau | 6,845 | 3,319 |
| Taliadau eraill | 1,799 | 1,599 |
| Trethiant arall a nawdd cymdeithasol | 2,497 | 1,314 |
| Symiau masnach taladwy | 925 | 119 |
| **Balans ar 31 Mawrth** | **28,290** | **18,382** |

Mae Ofgem yn annog staff i ddefnyddio eu hawl lawn i wyliau bob blwyddyn. Fodd bynnag, gall staff gario hyd at ddeg diwrnod o wyliau nas defnyddiwyd drosodd i'r flwyddyn nesaf. Caiff symiau nas defnyddiwyd ar 31 Mawrth eu cronni fel "symiau taladwy eraill".

## 11. Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau

| | Ymddeol yn gynnar | Rhwymediga-ethau pensiwn | Ymadael gwirfoddol | Dadfeiliadau | Arall | Cyfan-swm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** |
| Balans ar 1 Ebrill 2019 | 147 | 838 | 522 | 368 | 32 | 1,907 |
| Darparwyd yn ystod y flwyddyn | - | - | 6 | 1,531 | 1,116 | 2,653 |
| Darpariaethau diangen a adferwyd | - | - | - | - | (32) | (32) |
| Darpariaethau a ddefnyddiwyd yn ystod y flwyddyn | (16) | - | (528) | - | - | (544) |
| **Balans ar 31 Mawrth 2020** | **131** | **838** | **-** | **1,899** | **1,116** | **3,984** |

| | Ymddeol yn gynnar | Rhwyme-digaethau pensiwn | Ymadael gwirfoddol | Dadfeiliadau | Arall | Cyfan-swm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** |
| Balans ar 1 Ebrill 2018 | 164 | 803 | 504 | 368 | 32 | 1,871 |
| Darparwyd yn ystod y flwyddyn | - | - | 522 | - | - | 522 |
| Darpariaethau diangen a adferwyd | - | - | (97) | - | - | (97) |
| Darpariaethau a ddefnyddiwyd yn ystod y flwyddyn | (17) | - | (407) | - | - | (424) |
| Cost llog | - | 20 | - | - | - | 20 |
| (Ennill)/colled actiwaraidd | - | 15 | - | - | - | 15 |
| **Balans ar 31 Mawrth 2019** | **147** | **838** | **522** | **368** | **32** | **1,907** |

| **Dadansoddiad o amseriad disgwyliedig llifau arian parod wedi'u disgowntio** | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| O fewn blwyddyn | 16 | - | - | - | 1,116 | 1,132 |
| Ar ôl blwyddyn ond cyn pen pum mlynedd | 62 | - | - | 368 | - | 430 |
| Ar ôl pum mlynedd | 53 | 838 | - | 1,531 | - | 2,422 |
| **Balans ar 31 Mawrth** | **131** | **838** | **-** | **1,899** | **1,116** | **3,984** |

### Ymddeol yn gynnar

Mae'r adran yn talu costau ychwanegol buddiannau y tu hwnt i fuddiannau arferol PCSPS i gyflogeion, a oedd yn gweithio yn swyddfa Ofgem yng Nghaerlŷr, drwy dalu'r symiau angenrheidiol bob mis i'r PCSPS.

### Rhwymedigaethau pensiwn

Mae'r ddarpariaeth bensiwn ar gyfer y rhwymedigaethau pensiwn heb eu talu sy'n dod i'n rhan ar gyfer cyn-brif swyddog gweithredol a chyfarwyddwr cyffredinol. Nid yw'r ddarpariaeth bensiwn wedi'i hariannu, gyda'r buddiannau'n cael eu talu wrth iddynt ddod yn ddyledus a'u gwarantu gan Ofgem. Nid oes cronfa, ac felly nid oes gwarged na diffyg.

Cynhaliwyd prisiad actiwaraidd gan Adran Actiwari'r Llywodraeth ar 31 Mawrth 2019. Roedd yr adran yn barnu na fyddai'r symudiad yn y ddarpariaeth yn 2019-20 yn berthnasol ac felly ni chynhaliwyd unrhyw brisiad ar 31 Mawrth 2020. Y prif dybiaethau a ddefnyddiwyd gan yr actiwari Ar 31 Mawrth 2019 oedd:

| | Ar 31 Mawrth 2019 |
|---|---|
| | % (y flwyddyn) |
| Tybiaeth ynglŷn â chwyddiant - CPI | 2.60 |
| Cyfradd y cynnydd ar gyfer pensiynau mewn taliadau ac incwm gohiriedig | 2.60 |

| | 2018-19 |
|---|---|
| **Dadansoddi colled actiwaraidd** | **£000** |
| (Ennill)/colli profiad sy'n deillio o rwymedigaethau'r cynllun | 8 |
| Newidiadau mewn tybiaethau sy'n sail i werth presennol rhwymedigaethau'r cynllun | 7 |
| Yn unol â'r datganiad o newidiadau yn ecwiti trethdalwyr | 15 |

O 31 Mawrth 2018, y gyfradd ddisgowntio ar gyfer rhwymedigaethau'r cynllun pensiwn yw 0.29%. Adlewyrchir y gyfradd hon ym mhrisiad rhwymedigaeth y cynllun pensiwn ar 31 Mawrth 2019.

### Ymadael gwirfoddol

Cytunwyd ar nifer o daliadau ymadael gwirfoddol â Swyddfa'r Cabinet ac unigolion. Roedd y rhain yn deillio o ad-drefnu mewnol o fewn yr is-adran Gwasanaethau Corfforaethol.

### Dadfeiliadau

Mae darpariaethau dadfeiliadau yn rhagweld cost adfer eiddo a brydlesir gan yr adran i'w gyflwr fel yr oedd ar ddechrau'r brydles yn y dyfodol.

### Darpariaethau eraill

Cafodd treth nifer fach o unigolion ei chyfrifo'n anghywir am sawl blwyddyn.

Mae darpariaeth 2019-20 yn amcangyfrif o'r trethi a'r llog sy'n debygol o fod yn ddyledus i CThEM a darpariaeth ailstrwythuro ar gyfer ymarfer ailstrwythuro sydd wedi cael ei gyhoeddi ond nad yw wedi'i weithredu eto.

Roedd darpariaeth 2018-19 yn ymwneud â phrydles yr ymadawodd Ofgem â hi yn 2019-20 a chafodd ei rhyddhau.

## 12. Rhwymedigaethau digwyddiadol a ddatgelir o dan IAS 37

O bryd i'w gilydd byddwn yn destun her gyfreithiol ac adolygiadau barnwrol o benderfyniadau a wneir wrth gynnal ein busnes arferol fel rheoleiddiwr y marchnadoedd nwy a thrydan. Gallai dyfarniadau cyfreithiol arwain at atebolrwydd i dalu costau cyfreithiol ond ni ellir mesur y rhain gan y byddai canlyniad yr achos yn anhysbys.

Felly, mae cryn ansicrwydd ynglŷn â natur a graddau unrhyw rwymedigaeth ganlyniadol. Ar 31 Mawrth 2020, nid oedd unrhyw rwymedigaethau digwyddiadol yr oedd angen eu datgelu.

## 13. Trafodion â phartïon cysylltiedig

Yn ystod y flwyddyn, trosglwyddwyd £10.448 miliwn i'r Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol (BEIS). Roedd £9.338 miliwn o'r swm hwn ar gyfer costau Llais y Defnyddiwr (yn gweithredu fel Dyfodol Defnyddwyr) a Cyngor ar Bopeth a oedd yn gysylltiedig â'r sector ynni. Trosglwyddwyd y £1.110 miliwn oedd yn weddill ar gyfer gwasanaethau metroleg.

Rydym yn gweinyddu rhaglenni amgylcheddol ar ran BEIS, ac yn secondio staff i'r adran honno. Roedd cyfanswm yr incwm gan BEIS a gydnabuwyd yn ystod y flwyddyn yn gwneud cyfanswm o £16.806 miliwn.

Rydym yn gweinyddu cynlluniau Cymhelliant Gwres Adnewyddadwy Gogledd Iwerddon ar ran Adran yr Economi, ac yn gweinyddu Rhwymedigaeth Ynni Adnewyddadwy Gogledd Iwerddon ar ran Awdurdod Rheoleiddio Cyfleustodau Gogledd Iwerddon. Cydnabuwyd costau o £1.134 miliwn ac incwm o £0.856 miliwn oddi wrth Awdurdod Rheoleiddio Cyfleustodau Gogledd Iwerddon, a £0.721 miliwn o incwm oddi wrth Adran yr Economi.

Yn ogystal, rydym wedi ymgymryd â nifer bach o drafodion gydag adrannau eraill o'r llywodraeth a chyrff llywodraeth ganolog. Nid oes dim un o aelodau'r Awdurdod, staff rheoli allweddol na phartïon cysylltiedig wedi ymgymryd ag unrhyw drafodion perthnasol ag Ofgem yn ystod y flwyddyn ac eithrio'r gydnabyddiaeth a nodir ar dudalen 50.

## 14. Asedau trydydd partïon

### Gwarannau Datblygwyr Tendrau ar y Môr

Mae'r Llywodraeth wedi sefydlu cyfundrefn reoleiddio trawsyrru ar y môr gystadleuol i benodi perchennog Trawsyrru ar y Môr drwy broses dendro gystadleuol. Ni sy'n gyfrifol am reoli'r broses dendro gystadleuol y rhoddir trwyddedau trawsyrru ar y môr drwyddi.

Mae rhoi trwyddedau i weithredu asedau trawsyrru ar y môr newydd drwy broses dendro gystadleuol yn golygu y caiff cynhyrchwyr ynni eu partneru â'r rhai mwyaf effeithlon a chystadleuol yn y farchnad.

Dylai hyn arwain at gostau is a safonau gwasanaeth uwch i gynhyrchwyr ynni ac, yn y pen draw, y defnyddwyr. Rhan o strategaeth rheoli risg Ofgem ar gyfer y broses dendro gystadleuol yw dal gwarannau at ddibenion adennill costau os na chwblheir proses dendro.

Mae'r gwarannau hyn ar ffurf llythyr credyd neu arian parod. Ar 31 Mawrth 2020 roedd Ofgem yn dal £9.05m mewn llythyrau credyd (2018-19: £11.750m) a dim mewn arian parod (2018-19: £0.702m).

### Rhwymedigaeth Ynni Adnewyddadwy

Mae'r Rhwymedigaeth Ynni Adnewyddadwy yn un o'r prif ddulliau o gefnogi prosiectau ynni adnewyddadwy ar raddfa fawr yn y DU, a gweinyddir y cynllun gan Ofgem. Caeodd y cynllun i ymgeiswyr yn 2017. Ceir rhagor o wybodaeth am y Rhwymedigaeth Ynni Adnewyddadwy yn https://www.ofgem.gov.uk/environmental-programmes/ro/about-ro Defnyddir sawl cyfrif banc i weinyddu'r cynllun:

- **Cronfeydd allbrynu** – Gall cyflenwyr gyflawni eu rhwymedigaeth ynni adnewyddadwy drwy dalu i mewn i'r gronfa allbrynu. Caiff enillion y gronfa allbrynu eu had-dalu ar sail pro-rata i'r cyflenwyr hynny sy'n cyflawni eu rhwymedigaeth yn llawn.
- **Taliadau hwyr** – Bydd unrhyw daliadau sy'n dod i law ar ôl 31 Awst yn daliadau hwyr. Mae'r rhain yn destun cosb llog ddyddiol flynyddol (5% a chyfradd sylfaenol Banc Lloegr).
- **Cilyddu** – Pan fydd diffyg cyffredinol yn swm y rhwymedigaeth, mae'n ofynnol i gyflenwyr wneud taliad tuag at gilyddu. Caiff cronfeydd cilyddu eu hailddosbarthu i gyflenwyr sy'n cyflawni eu rhwymedigaeth yn llawn.

Roedd cyfanswm o £54.18m o arian parod yn cael ei ddal yn y cyfrifon banc hyn ar 31 Mawrth 2020 (31 Mawrth 2019: £0.1m)

### Cronfeydd lefelu Tariff Cyflenwi Trydan

Rhaglen gan y llywodraeth yw'r cynllun Cyflenwi Trydan, a gyflwynwyd ar 1 Ebrill 2010, gyda'r nod o hyrwyddo'r defnydd o dechnolegau cynhyrchu trydan adnewyddadwy a charbon isel ar raddfa fach.

Mae Ofgem yn gweinyddu'r cynllun ar ran yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol (BEIS), sy'n gyfrifol am bolisi a deddfwriaeth y cynllun Cyflenwi Trydan, ac mae Cyflenwyr Trydan Trwyddedig (Trwyddedeion FIT) yn gweithredu'r agwedd ar y cynllun sy'n wynebu'r cyhoedd. Os bydd gan ddeiliad tŷ, cymuned neu fusnes osodiad cymwys, telir tariff iddynt am y trydan a gynhyrchir ganddynt a thariff am y trydan a allforir ganddynt yn ôl i'r grid gan eu Trwyddedai FIT.

Mae'r broses lefelu a weithredir gan Ofgem yn ailddosbarthu cost y cynllun ymhlith yr holl Gyflenwyr Trydan Trwyddedig, yn seiliedig ar eu cyfran o Farchnad Drydan Prydain Fawr ac unrhyw Daliadau FIT a wnaed ganddynt i osodiadau achrededig. Proses chwarterol yw hon, gyda phroses gysoni flynyddol a gwblheir erbyn mis Medi bob blwyddyn. Fel arfer, mae'r balans yn y gronfa lefelu yn werth bach ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol.

Y swm a ddaliwyd yn y gronfa lefelu ar 31 Mawrth 2020 oedd £2.33m (31 Mawrth 2019: £3.27m).

### Cynlluniau cymhelliant gwres adnewyddadwy (RHI) domestig ac annomestig

Mae'r cynllun RHI domestig yn gynllun ariannol gan y llywodraeth i annog newid i systemau gwresogi adnewyddadwy.

Mae'n ffordd o helpu'r DU i leihau allyriadau carbon ac mae ar gael i gartrefi oddi ar y grid nwy ac ar y grid nwy. Mae'r cynllun RHI annomestig yn rhaglen amgylcheddol gan y llywodraeth sy'n rhoi cymhellion ariannol i gynyddu'r defnydd o wres adnewyddadwy gan fusnesau, y sector cyhoeddus a sefydliadau nid er elw. Mae Ofgem yn gweinyddu'r ddau gynllun ar ran BEIS ym Mhrydain Fawr, ac yn gweinyddu'r cynllun RHI annomestig yng Ngogledd Iwerddon ar ran Adran yr Economi.

Y balansau banc a ddaliwyd mewn perthynas â'r cynlluniau ar 31 Mawrth 2020 oedd: RHI domestig: £4.118m; RHI annomestig Prydain Fawr: £19.448m; RHI annomestig Gogledd Iwerddon: £0.014m (31 Mawrth 2019: £2.739m; £0.354m; £0.027m)

## 15. Digwyddiadau ar ôl y cyfnod adrodd

Cafodd y broses o gyhoeddi'r datganiadau ariannol hyn ei hawdurdodi'n briodol gan y Swyddog Cyfrifyddu ar ddyddiad tystysgrif archwilio'r Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol. Nid yw'r datganiadau ariannol yn adlewyrchu digwyddiadau ar ôl y dyddiad hwn.

# Datganiad ymddiriedaeth



# Rhagair y swyddog cyfrifyddu i'r datganiad ymddiriedaeth

## Cwmpas

Rheolir Ofgem gan yr Awdurdod Marchnadoedd Nwy a Thrydan. Nodir cyfrifoldebau'r Awdurdod yn Neddf Nwy 1986, Deddf Trydan 1989, Deddf Cyfleustodau 2000, Deddf Cystadleuaeth 1998, Deddf Menter 2002, Deddfau Ynni 2004, 2008, 2010, 2011 a 2013 a deddfwriaeth gysylltiedig.

Mae'r Awdurdod yn gyfrifol am gymryd camau gorfodi (gan gynnwys gosod cosbau ariannol) mewn perthynas â'r cwmnïau ynni y mae'n eu rheoleiddio, a chasglu ardollau tanwydd ffosil Cymru a Lloegr, a'r Alban.

Mae'r datganiad ymddiriedaeth yn adrodd ar y refeniw a'r gwariant a'r asedau a'r rhwymedigaethau sy'n gysylltiedig â dirwyon, cosbau a'r ardollau tanwydd ffosil ar gyfer y flwyddyn ariannol 2019-20. Casglwn y symiau hyn er mwyn eu talu i'r gronfa gyfunol .

Paratoir y datganiad hwn hefyd ar gyfer datgelu unrhyw wariant neu incwm perthnasol nas cymhwyswyd at y dibenion a fwriadwyd gan Senedd y DU, neu drafodion perthnasol nad ydynt wedi cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu. Ni fu unrhyw wariant nac incwm o'r fath yn ystod 2019-20.

## Cefndir

### Cosbau

O dan Ddeddf Nwy 1986 a Deddf Trydan 1989 gall yr Awdurdod osod cosb statudol os yw'n fodlon bod parti a reoleiddir (e.e. deiliaid trwydded) wedi mynd yn groes neu yn mynd yn groes i unrhyw amod neu ofyniad perthnasol, neu wedi methu neu yn methu â chyflawni unrhyw safon ragnodedig o berfformiad.

Ni all unrhyw gosb a osodir gan yr Awdurdod o dan Ddeddf Nwy 1986 a Deddf Trydan 1989 fod yn fwy na 10% o drosiant y parti a reoleiddir.

Mae gennym bwerau hefyd o dan Reoliadau Trydan a Nwy (Uniondeb a Thryloywder Marchnadoedd) (Gorfodi etc) 2013 i fonitro, ymchwilio a gosod cosbau mewn perthynas ag achosion o dorri'r Rheoliadau ar Uniondeb a Thryloywder y Farchnad Ynni Gyfanwerthu (REMIT). Mae gennym bwerau hefyd o dan Reoliadau Systemau Rhwydwaith a Gwybodaeth 2018 i osod cosbau mewn perthynas ag achosion o dorri'r Rheoliadau hynny. Mae gennym bwerau cydredol hefyd ar y cyd â'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd i orfodi'r gwaharddiadau ar gytundebau gwrthgystadleuol ac achosion o gamddefnyddio sefyllfa flaenllaw yn y farchnad yn Neddf Cystadleuaeth 1998 ac yn erthyglau 101 a 102 o'r Cytuniad ar Weithrediad yr Undeb Ewropeaidd. Pan gadarnheir achos o dorri rheoliadau, gallwn benderfynu gosod cosb ariannol o hyd at 10% o drosiant cymwys y cwmni os ydym yn fodlon i reoliadau gael eu torri'n fwriadol neu drwy esgeuluster.

Caiff unrhyw symiau a osodir gan yr Awdurdod drwy gyfrwng cosb ddeddfwriaethol ffurfiol eu talu i mewn i'r gronfa gyfunol. Yn 2019-20, gosodwyd tua £3 miliwn o gosbau a oedd yn daladwy i'r gronfa gyfunol . Rydym yn hysbysu'r parti a reoleiddir ein bod yn bwriadu gosod cosb arno ac yn ymgynghori ar hyn.

[3] Ni sy'n casglu'rdirwyon, y cosbau a'r ardollau tanwydd ffosil ar gyfer Cymru, Lloegr a'r Alban. Cafodd hyn ei adolygu gan yr archwilwyr a'i gymeradwyo ar gyfer 2019-20.
[4] Mae'r swm hwn yn cynnwys cosb o £200,000 a osodwyd ar Economy Energy sydd bellach yn nwylo'r gweinyddydd.

# Adolygiad ariannol

Eleni, gosodwyd cosbau ar gwmnïau. Mae'r adolygiad ariannol hwn yn ymdrin â chosbau a arweiniodd at osod cosbau a oedd yn daladwy i'r gronfa gyfunol.

### Engie Global Market

Ymchwiliwyd i Engie Global Market (EGM) gennym am dorri'r Rheoliad ar Uniondeb a Thryloywder y Farchnad Ynni (REMIT). Cafwyd gennym fod EGM wedi torri Erthygl 5 o REMIT. Mae Erthygl 5 yn darparu "any engagement in, or attempt to engage in, market manipulation on wholesale energy markets shall be prohibited'

Cafwyd gennym fod masnachwr a oedd gweithio yn enw EGM, ac ar ei ran, rhwng 1 Mehefin 2016 a 31 Awst 2016, wedi torri Erthygl 5 ar sawl achlysur. Roedd EGM yn atebol am yr achos hwn o dorri'r rheoliadau.

Cafwyd bod EGM wedi trin y farchnad yn amhriodol mewn perthynas â'r contract mis ymlaen llaw ar gyfer dosbarthu nwy naturiol yn y Pwynt Cydbwyso Cenedlaethol ar y farchnad ynni gyfanwerthu dros y cownter. Cyhoeddwyd trafodion neu archebion a roddodd, neu a oedd yn debygol o roi, arwyddion anwir neu gamarweiniol ynglŷn â'r cyflenwad o gynhyrchion ynni cyfanwerthu, neu'r galw amdanynt, neu eu pris neu a sicrhaodd neu a oedd yn debygol o sicrhau pris cynhyrchion ynni cyfanwerthu ar lefel artiffisial.

Cyfaddefodd EGM i Erthygl 5 o REMIT gael ei thorri a chytunodd i setlo yn ystod y cyfnod setlo cynnar. Rhoddwyd disgownt o 30% ar y gosb yn unol â'r Datganiad o Gosbau REMIT a gyhoeddwyd ar 23 Mehefin 2015.Yn ein barn ni, roedd yn briodol lleihau'r gosb ariannol a oedd yn daladwy gan EGM mewn perthhynas ag achosion o dorri Erthygl 5 i £2,128,236.

### E (Gas and Electricity) Limited

Agorwyd ymchwiliad ym mis Medi 2016 i ganfod a oedd Pennod I o Ddeddf Cystadleuaeth 1998 wedi cael ei thorri. Roedd yr ymchwiliad yn ymwneud â chytundeb gwrthgystadleuol a amheuwyd rhwng Economy Energy Trading Limited ("Economy Energy"), E (Gas and Electricity) Ltd ("EGEL") a Dyball Associates ("Dyball") ("y Partïon"). Ar 29 Mai 2018, gwnaethom gyhoeddi datganiad o wrthwynebiadau i'r tri Pharti yn yr ymchwiliad.

Cafwyd gennym fod Economy Energy, EGEL a Dyball wedi ymrwymo i gytundeb a/neu arfer ar y cyd i rannu marchnadoedd a/neu ddyrannu cwsmeriaid rhwng Economy ac EGEL mewn perthynas â chyflenwi nwy a thrydan i gwsmeriaid domestig ym Mhrydain Fawr.O dan y tor-rheol, cytunodd Economy, EGEL a Dyball na fyddai Economy nac EGEL, na'u hasiantau gwerthu, yn mynd ati i dargedu cwsmeriaid yr oedd yn llall eisoes yn cyflenwi nwy a/neu drydan iddynt, ond y caniateid i gwsmeriaid presennol ei gilydd newid rhwng y ddau fusnes os oeddent wedi gofyn yn rhagweithiol am gael gwneud hynny.Cefnogodd y Partïon y tor-rheol drwy rannu gwybodaeth fasnachol sensitif a strategol, ar ffurf manylion eu cwsmeriaid presennol. Amcan y fath gytundeb a/neu arfer ar y cyd oedd atal cystadleuaeth, cyfyngu arni neu ei hystumio.

Cafwyd gennym fod y Partïon wedi torri'r rheoliadau yn fwriadol neu drwy esgeuluster a phenderfynwyd gosod cosbau ariannol o £650,000 ar EGEL.

### Economy Energy

Roedd Economy Energy hefyd yn un o'r partïon yr ymchwiliwyd iddynt am dorri Pennod I o Ddeddf Cystadleuaeth 1998. Cafwyd gennym fod y Partïon wedi torri'r rheoliadau'n fwriadol neu drwy esgeuluster a phenderfynwyd gosod cosbau ariannol o £200,000 ar Economy Energy. Mae Economy Energy bellach yn nwylo'r gweinyddydd.

### Dyball

Yn yr ymchwiliad hwn, roedd Dyball yn barti yn yr achos o dorri'r rheoliadau ac roedd yn bwriadu cyfrannu at yr amcanion cyffredin roedd Economy ac EGEL yn anelu atynt, a gwnaeth hynny.Gwnaeth Dyball hefyd drwy hwyluso'r broses o rannu marchnadoedd a dyrannu cwsmeriaid rhwng Economy Energy ac EGEL, drwy ei ymddygiad ei hun, wrth ddylunio, gweithredu a chynnal systemau  meddalwedd a oedd yn caniatáu atal caffael cwsmeriaid penodol a rhannu rhestrau o gwsmeriaid; a thrwy rannu rhestrau o gwsmeriaid ei hun a chyfarwyddiadau i atal cwsmeriaid penodol rhag newid rhwng Economy Energy ac EGEL.Roedd Dyball yn ymwybodol o'r ymddygiad gwirioneddol a fwriadwyd a/neu a gynhaliwyd gan Economy Energy ac EGEL wrth anelu at yr amcan o rannu marchnadoedd a/neu ddyrannu cwsmeriaid.Felly, hwylusodd Dyball y weithred o dorri'r rheoliadau.

Cafwyd gennym fod Dyball wedi torri'r rheoliadau'n fwriadol neu drwy esgeuluster a phenderfynwyd gosod cosb ariannol o £20,000 ar Dyball.

Roedd lefel y cosbau'n adlewyrchu difrifoldeb yr achos hwn o dorri'r rheoliadau, yr angen i sicrhau bod Economy Energy, EGEL a Dyball, ac ymgymeriadau eraill, yn cael eu rhwystro rhag cydgynllwynio yn y fath fodd, a'r angen am i'r gosb fod yn gymesur.

# Datganiad o gyfrifoldebau'r swyddog cyfrifyddu mewn perthynas â'r datganiad ymddiriedaeth

O dan adran 7 o Ddeddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000, mae Trysorlys EM wedi cyfarwyddo Swyddfa'r Marchnadoedd Nwy a Thrydan (Ofgem) i baratoi datganiad ymddiriedaeth ar gyfer pob blwyddyn ariannol, ar y ffurf a'r sail a nodir yn y Cyfarwyddyd Cyfrifon. Paratoir y cyfrifon ar sail croniadau a rhaid iddynt roi darlun cywir a theg o sefyllfa Ofgem ac o'i incwm a'r wariant, Datganid o'r Sefyllfa Ariannol a'r llifau arian parod ar gyfer y flwyddyn ariannol..

- Wrth baratoi'r cyfrifon, mae'n ofynnol i'r Swyddog Cyfrifyddu fodloni gofynion Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth a gwneud y canlynol yn benodol:
- dilyn y Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddwyd gan Lawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth, gan gynnwys y gofynion cyfrifyddu a datgelu perthnasol, a chymhwyso polisïau cyfrifyddu addas yn gyson;
- llunio barn ac amcangyfrifon ar sail resymol;
- nodi a ddilynwyd safonau cyfrifyddu cymwys, fel y'u nodwyd yn Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth, a datgelu ac egluro unrhyw wyriadau perthnasol yn y datganiadau ariannol;
- paratoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes gweithredol;
- cadarnhau bod y datganiad ymddiriedaeth yn ei gyfanrwydd, yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy a'i fod yn cymryd cyfrifoldeb personol am y datganiad ymddiriedaeth a'r dyfarniadau sydd eu hangen i benderfynu ei fod yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy.

Mae Trysorlys EM wedi penodi'r Prif Weithredwr yn Swyddog Cyfrifyddu Ofgem. Mae cyfrifoldebau Swyddog Cyfrifyddu, gan gynnwys cyfrifoldeb am briodoldeb a rheoleidd-dra'r arian cyhoeddus y mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn atebol amdano, am gadw cofnodion cywir ac am ddiogelu asedau Ofgem, wedi'u nodi yn Rheoli Arian Cyhoeddus, a gyhoeddwyd gan Drysorlys EM.

Fel y Swyddog Cyfrifyddu, rwyf wedi cymryd yr holl gamau y dylwn fod wedi eu cymryd er mwyn sicrhau fy mod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i gadarnhau bod archwilwyr Ofgem yn ymwybodol o'r wybodaeth honno. Hyd y gwn, nid oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw'r archwilwyr yn ymwybodol ohoni. Cadarnhaf hefyd fod y datganiad ymddiriedaeth hwn yn ei gyfanrwydd, yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy a fy mod yn cymryd cyfrifoldeb personol am y datganiad ymddiriedaeth a'r dyfarniadau sydd eu hangen i benderfynu ei fod yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy.

## Datganiad llywodraethu

Mae datganiad llywodraethu Ofgem, sy'n cwmpasu cyfrifon yr adnoddau a'r datganiad ymddiriedaeth, ar dudalennau 36 i 47.

# Tystysgrif ac Adroddiad  Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol Tŷ'r Cyffredin

## Barn ar y datganiadau ariannol

Ardystiaf fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol Swyddfa'r Marchnadoedd Nwy a Thrydan am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2020 o dan Ddeddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000. Mae'r datganiadau ariannol yn cynnwys y Datganiad o Refeniw, Incwm a Gwariant Arall, y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol, y Datganiad o Lifau Arian Parod a'r nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys y polisïau cyfrifyddu pwysig. Paratowyd y datganiadau ariannol hyn o dan y polisïau cyfrifyddu a nodir ynddynt.

Yn fy marn i:

- mae'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa Datganiad Ymddiriedaeth Swyddfa'r Marchnadoedd Nwy a Thrydan ar 31 Mawrth 2020, ac o'r refeniw net am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny
- mae'r datganiadau ariannol wedi'u paratoi yn unol â Deddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000 a chyfarwyddiadau Trysorlys EM a gyhoeddwyd o dan y ddeddf honno.

## Barn ar reoleidd-dra

Yn fy marn i, ym mhob achos perthnasol, mae'r incwm a'r gwariant a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol wedi'u cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan Senedd y DU ac mae'r trafodion ariannol a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

## Sail y farn

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â Safonau Archwilio Rhyngwladol (y DU) a Nodyn Ymarfer 10 'Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol Endidau Sector Cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig. Mae fy nghyfrifoldebau o dan y safonau hynny wedi'u disgrifio'n fanylach o dan gyfrifoldebau'r Archwilydd ar gyfer yr archwiliad yn adran datganiadau ariannol fy nhystysgrif.

Mae'r safonau hynny yn ei gwneud yn ofynnol i mi a'm staff gydymffurfio â Safon Foesegol Ddiwygiedig y Cyngor Adrodd Ariannol 2016. Rwy'n annibynnol ar Swyddfa'r Marchnadoedd Nwy a Thrydan yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm harchwiliad a'r datganiadau ariannol yn y DU. Rwyf i a'm staff wedi cyflawni ein cyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credaf fod y dystiolaeth archwilio a gafwyd gennyf yn ddigonol ac yn briodol o ran cynnig sail ar gyfer fy marn.

## Casgliadau sy'n ymwneud â busnes gweithredol

Nid oes gennyf ddim i'w adrodd mewn perthynas â'r materion canlynol, y mae'r Safonau Cyfrifyddu Rhyngwladol (DU) yn ei gwneud yn ofynnol i mi roi gwybod i chi amdanynt os:

- nad yw Swyddfa'r Marchnadoedd Nwy a Thrydan yn gwneud defnydd priodol o'r broses gyfrifyddu ar sail busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol; neu
- nad yw Swyddfa'r Marchnadoedd Nwy a Thrydan wedi datgelu yn y datganiadau ariannol unrhyw ansicrwydd perthnasol a nodwyd a allai daflu amheuon sylweddol ar allu Swyddfa'r Marchnadoedd Nwy a Thrydan i barhau i fabwysiadu'r broses gyfrifyddu ar sail busnes gweithredol am gyfnod o flwyddyn o leiaf o'r dyddiad y caiff y datganiadau ariannol eu hawdurdodi i'w rhyddhau.

## Cyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu ar gyfer y datganiadau ariannol

Fel yr eglurwyd yn llawnach yn Natganiad Cyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu, y Swyddog Cyfrifyddu sy'n gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol ac am gael ei fodloni eu bod yn rhoi darlun gwir a theg.

## Cyfrifoldebau'r Archwilydd ar gyfer yr archwiliad o'r datganiadau ariannol

Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio, ardystio ac adrodd ar y datganiadau ariannol yn unol â Deddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000.

Mae a wnelo archwiliad â chasglu tystiolaeth am y symiau a'r datgeliadau yn y datganiadau ariannol sy'n ddigonol i roi sicrwydd rhesymol nad yw'r datganiadau ariannol yn cynnwys unrhyw gamddatganiad perthnasol, boed drwy dwyll neu wall. Mae sicrwydd rhesymol yn cynnig lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n gwarantu y bydd archwiliad a gynhelir yn unol â Safonau Archwilio Rhyngwladol (y DU) bob amser yn canfod camddatganiad perthnasol lle y bydd yn bodoli. Gall camddatganiadau ddeillio o dwyll neu wall ac ystyrir eu bod yn berthnasol os gellid disgwyl yn rhesymol iddynt, yn unigol neu ar y cyd, ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wnaed ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Fel rhan o archwiliad yn unol â Safonau Archwilio Rhyngwladol (y DU), rwyf yn arddel barn broffesiynol ac yn cynnal amheuaeth broffesiynol drwy gydol yr archwiliad. Rwyf hefyd yn gwneud y canlynol:

- nodi ac asesu risgiau o gamddatganiad perthnasol y datganiadau ariannol, boed hynny o ganlyniad i dwyll neu wall, llunio a pherfformio gweithdrefnau archwilio sy'n ymateb i'r risgiau hynny, a chael tystiolaeth sy'n ddigonol ac yn briodol i gynnig sail ar gyfer fy marn. Mae'r risg o beidio â chanfod camddatganiad perthnasol o ganlyniad i dwyll yn uwch na pheidio â chanfod camddatganiad perthnasol o ganlyniad i wall, gan y gall twyll gynnwys cydgynllwynio, ffugio, hepgoriadau bwriadol, achosion o gam-gynrychioli, neu ddiystyru rheolaeth fewnol.
- sicrhau dealltwriaeth o reolaeth fewnol sy'n berthnasol i'r archwiliad er mwyn llunio gweithdrefnau archwilio sy'n briodol o dan yr amgylchiadau, ond nid at ddibenion mynegi barn ar effeithiolrwydd rheolaeth fewnol Swyddfa'r Marchnadoedd Nwy a Thrydan.
- gwerthuso priodoldeb polisïau cyfrifyddu a ddefnyddiwyd a rhesymoldeb amcangyfrifon cyfrifyddu a datgeliadau perthnasol a wnaed gan y rheolwyr.
- gwerthuso cyflwyniad, strwythur a chynnwys y datganiadau ariannol ar y cyfan, gan gynnwys y datgeliadau, a ph'un a yw'r datganiadau ariannol cyfunol yn cynrychioli'r trafodion sylfaenol a'r digwyddiadau mewn ffordd sy'n cyflawni cyflwyniad teg.

Dod i gasgliad ar briodoldeb defnydd Swyddfa'r Marchnadoedd Nwy a Thrydan o sail gyfrifyddu busnes gweithredol ac, yn seiliedig ar y dystiolaeth archwilio a gafwyd, dod i gasgliad ynghylch p'un a oes ansicrwydd perthnasol yn bodoli sy'n gysylltiedig â digwyddiadau neu amodau a all fwrw amheuaeth sylweddol dros allu Swyddfa'r Marchnadoedd Nwy a Thrydan i barhau fel busnes gweithredol.

Os dof i gasgliad bod ansicrwydd perthnasol yn bodoli, mae'n ofynnol i mi dynnu sylw at y datgeliadau cysylltiedig yn y datganiadau ariannol neu, os bydd datgeliadau yn annigonol, addasu fy marn, yn fy adroddiad. Mae fy nghasgliadau yn seiliedig ar y dystiolaeth a gafwyd hyd at ddyddiad fy adroddiad. Fodd bynnag, gall digwyddiadau neu amodau yn y dyfodol achosi i Swyddfa'r Marchnadoedd Nwy a Thrydan roi'r gorau i weithredu fel busnes gweithredol..

## Gwybodaeth Arall

Y Swyddog Cyfrifyddu sy'n gyfrifol am y wybodaeth arall. Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys gwybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn yr adroddiad blynyddol, ond nid yw'n cynnwys rhannau o'r Adroddiad Cydnabyddiaeth Staff na datgeliadau Atebolrwydd Seneddol y disgrifir yn yr adroddiad hwnnw eu bod wedi'u harchwilio, y datganiadau ariannol ac adroddiad yr archwilydd hwnnw a luniwyd gennyf. Nid yw fy marn ar y datganiadau ariannol yn cynnwys y wybodaeth arall ac nid wyf yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sy'n rhoi sicrwydd ar y wybodaeth honno. Mewn perthynas â'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol, fy nghyfrifoldeb i yw darllen y wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried p'un a yw'r wybodaeth arall yn berthnasol anghyson â'r datganiadau ariannol neu'r wybodaeth a gafwyd gennyf yn yr archwiliad neu sy'n ymddangos ei bod wedi'i chamddatgan yn berthnasol fel arall. Yn seiliedig ar y gwaith rwyf wedi'i gyflawni, os dof i gasgliad bod y wybodaeth arall wedi'i chamddatgan yn berthnasol, mae'n ofynnol i mi roi gwybod am hynny. Nid oes gennyf ddim i'w nodi yn hyn o beth.

## Barn ar faterion eraill

Yn fy marn i:

- mae'r rhannau o'r Adroddiad ar Gydnabyddiaeth Staff a'r datgeliadau Atebolrwydd Seneddol i'w harchwilio wedi cael eu paratoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau Trysorlys EM a wnaed o dan Ddeddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000;
- yng ngoleuni gwybodaeth a dealltwriaeth o Swyddfa'r Marchnadoedd Nwy a Thrydan a'i hamgylchedd a gafwyd yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi canfod unrhyw gamddatganiadau perthnasol yn yr Adroddiad ar Berfformiad na'r Adroddiad ar Atebolrwydd;
- mae'r wybodaeth a roddir yn yr Adroddiadau ar Berfformiad ac Atebolrwydd ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol.

## Materion rwyf yn rhoi adroddiad arnynt drwy eithriad

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w nodi o ran y materion canlynol rwyf yn cyflwyno adroddiad i chi arnynt os bydd yr amgylchiadau canlynol yn berthnasol, yn fy marn:

- ni chadwyd cofnodion cyfrifyddu digonol, neu ni dderbyniwyd ffurflenni sy'n ddigonol ar gyfer fy archwiliad gan ganghennau nad yw fy staff wedi ymweld â hwy; neu
- nid yw'r datganiadau ariannol na'r rhannau o'r Adroddiad ar Gydnabyddiaeth Staff na'r datgeliadau Atebolrwydd Seneddol i'w harchwilio yn cyd-fynd â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu; neu
- ni chefais yr holl wybodaeth ac esboniadau sy'n ofynnol ar gyfer fy archwiliad; neu
- nid yw'r Datganiad Llywodraethu yn adlewyrchu cydymffurfiaeth â chanllawiau Trysorlys EM.

## Adroddiad

Nid oes gennyf unrhyw sylwadau i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.

**Gareth Davies**
Dyddiad Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol
Swyddfa Archwilio Genedlaethol
157-197 Buckingham Palace Road
Victoria, London SW1W 9SP

**17 Gorffennaf 2020**

# Datganiad o refeniw, ac incwm a gwariant arall am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2020

| | 2019-20 | 2018-19 |
|---|---|---|
| | **£000** | **£000** |
| **Refeniw** | | |
| **Dirwyon a chosbau** | | |
| Cosbau a osodwyd | 3,006 | 2,400 |
| **Ardoll Tanwydd Ffosil** | | |
| Incwm o'r Ardoll Tanwydd Ffosil (Cymru a Lloegr) | - | 1,818 |
| Incwm o'r Ardoll Tanwydd Ffosil (yr Alban) | - | 540 |
| **Ardoll Tanwydd Ffosil** | | |
| Incwm o'r Ardoll Tanwydd Ffosil (Cymru a Lloegr) | 205 | 183 |
| Incwm o'r Ardoll Tanwydd Ffosil (yr Alban) | 280 | 253 |
| **Cyfanswm y refeniw ac incwm arall** | **3,491** | **5,194** |
| **Gwariant** | | |
| Costau gweinydddu a dirwyn i ben sy'n gysylltiedig â'r Ardoll Tanwydd Ffosil | (186) | (11) |
| Colledion credyd | (200) | - |
| **Cyfanswm y gwariant** | **(386)** | **(11)** |
| **Refeniw Net ar gyfer y Gronfa Gyfunol** | **3,105** | **5,183** |

Ni fu unrhyw enillion na cholledion cydnabyddedig y cyfrifwyd amdanynt y tu allan i'r datganiad uchod o refeniw ac incwm a gwariant arall.

Mae'r nodiadau ar dudalennau 99 i 101 yn rhan o'r datganiad hwn.

# Datganiad o'r sefyllfa ariannol ar 31 Mawrth 2020

| | 2019-20 | 2018-19 |
|---|---|---|
| | **£000** | **£000** |
| **Asedau cyfredol** | | |
| Symiau derbyniadwy a ffioedd a gronnwyd | 24 | 307 |
| Arian parod yn y banc - Cronfa Gyfunol y DU | 31,947 | 31,671 |
| Arian parod yn y banc – Cronfa Gyfunol yr Alban | 43,657 | 43,352 |
| Asedau cyfredol net | 75,628 | 75,330 |
| **Rhwymedigaethau cyfredol** | | |
| Symiau taladwy | - | (2) |
| **Cyfanswm Asedau Net** | **75,628** | **75,328** |
| **Cynrychiolir gan:** | | |
| Balans ar gyfrif cronfa gyfunol y DU | 31,971 | 31,884 |
| Balans ar gyfrif cronfa gyfunol yr Alban | 43,657 | 43,444 |
| | **75,628** | **75,328** |



**Jonathan Brearley**
Prif Swyddog Gweithredol

**15 Gorffennaf 2020**

Mae'r nodiadau ar dudalennau 99 i 101 yn rhan o'r datganiad hwn.

## Datganiad o lifau arian parod am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2020

| | 2019-20 | 2018-19 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| Llif arian parod net o weithgareddau gweithredu | 580 | 2,917 |
| Arian parod a dalwyd i'r cronfeydd cyfunol | - | (3,003) |
| **Cynnydd/ (gostyngiad) mewn arian parod yn ystod y cyfnod** | **580** | **(86)** |

## Nodiadau i'r datganiad llif arian parod

### Nodyn A: Cysoni llif arian parod net â symudiad mewn cronfeydd net

| | 2019-20 | 2018-19 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| Refeniw net ar gyfer y gronfa gyfunol | 3,105 | 5,183 |
| (Cynnydd)/ gostyngiad mewn asedau nad ydynt yn arian parod | 283 | 134 |
| Cynnydd/ (gostyngiad) mewn rhwymedigaethau | (2) | - |
| All-llif anariannol i'r gronfa gyfunol | (2,806) | (2,400) |
| Llif arian parod net | 580 | 2,917 |

### Nodyn B: Dadansoddiad o newidiadau mewn cronfeydd net

| | 2019-20 | 2018-19 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| Cynnydd/ (gostyngiad) mewn arian parod yn ystod y cyfnod hwn | 580 | (86) |
| Cronfeydd net ar 1 Ebrill | 75,024 | 75,110 |
| Cronfeydd net ar 31 Mawrth | 75,604 | 75,024 |

# Nodiadau i'r datganiad ymddiriedaeth

### Cau'r cynllun ardoll Tanwydd Ffosil

Ar 31 Mawrth 2019, caeodd y cynlluniau ardoll tanwydd ffosil ac mae'r ddau gwmni a sefydlwyd i weinyddu'r cynlluniau, sef NFPA a NFPFA Scotland, wrthi'n cael eu datod. Yn ystod 2020-21, caiff y balansau arian parod sy'n weddill eu trosglwyddo i'r Gronfa Gyfunol (cynllun Cymru a Lloegr) a Chronfa Gyfunol yr Alban (cynllun yr Alban).

## 1. Datganiad o bolisïau cyfrifyddu

### 1.1 Sail cyfrifyddu

Paratoir y datganiad ymddiriedaeth yn unol â'r cyfarwyddyd cyfrifon a gyhoeddwyd gan y Trysorlys o dan adran 7 o Ddeddf Adnoddau a Chyfrifon 2000 ac yn unol â'r polisïau cyfrifyddu a nodir isod. Cytunwyd ar y rhain rhwng Ofgem a Thrysorlys EM a chawsant eu datblygu drwy gyfeirio at y Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol a chanllawiau perthnasol eraill. Mae'r polisïau cyfrifyddu wedi'u cymhwyso'n gyson wrth ymdrin ag eitemau yr ystyrir eu bod yn berthnasol i'r cyfrifon.

Yr incwm a'r gwariant cysylltiedig a geir yn y datganiadau hyn yw'r llifau hynny o gronfeydd y mae Ofgem yn ymdrin â hwy ar ran y gronfa gyfunol a lle y mae'n gweithredu fel asiant yn hytrach na phenadur.

Caiff y wybodaeth ariannol a geir yn y datganiadau ac yn y nodiadau ei thalgrynnu i'r £000 agosaf.

### 1.2 Confensiwn cyfrifyddu

Paratowyd y datganiad ymddiriedaeth yn unol â'r confensiwn cost hanesyddol.

### 1.3 Cydnabod refeniw

Mesurir dirwyon, cosbau ac ardollau yn unol ag IFRS 15. Fe'u mesurir ar werth teg y symiau a dderbyniwyd neu sy'n dderbyniadwy:

- gosodir dirwy neu gosb yn ddilys a bydd rhwymedigaeth i dalu yn codi
- daw taliad ardoll yn ddyledus.

## 2. Refeniw

### 2.1 Dirwyon a chosbau

Yn ystod 2019-20, dim ond cosbau nominal a dderbyniwyd gan Ofgem ac eithrio'r rhai a ddatgelwyd yn Atodiad II.

Talodd E (Gas and Electricity) Ltd y gosb o £650,000 a osodwyd ynghyd â £7,921.89 o log.

## 3. Symiau derbyniadwy a refeniw cronedig derbyniadwy

| | Refeniw a gronnwyd yn dderbyniadwy ar 31 Maw 2019 | Cyfanswm ar 31 Maw 2019 | Cyfanswm ar 31 Maw 2018 |
|---|---|---|---|
| | **£000** | **£000** | **£000** |
| Dirwyon a chosbau | 200 | 200 | - |
| Incwm yr ardoll tanwydd ffosil | 0 | 0 | 280 |
| Incwm llog banc | 24 | 24 | 27 |
| Cyfanswm cyn lleihad amcangyfrifiedig mewn gwerth | 224 | 224 | 307 |
| Llai lleihad amcangyfrifiedig mewn gwerth (gweler nodyn 3.1) | (200) | (200) | - |
| **Total** | **24** | **24** | **307** |

Symiau derbyniadwy yw'r symiau sy'n ddyledus gan y rhai y gosodwyd cosbau ariannol arnynt neu lle yr aseswyd ardoll ar ddyddiad y fantolen, ond lle maent yn cael eu derbyn wedi hynny.

Nid yw'r cosbau nominal derbyniadwy yn dangos oherwydd talgrynnu.

Roedd yr ardoll tanwydd ffosil a oedd yn dderbyniadwy ar 31 Mawrth 2019 yn ymwneud â thaliadau'r ardoll a oedd yn weddill cyn i'r cynllun gau. Fodd bynnag, aethpwyd i gostau pensiwn a chostau dirwyn i ben eraill pan ddechreuodd y cwmnïau ymddatod ac roedd y swm a dderbyniwyd mewn gwirionedd yn llai na'r hyn a gronnwyd. Felly, roedd refeniw'r ardoll tanwydd ffosil ar gyfer 2019-20 yn draul gyffredinol.

### 3.1 Colledion credyd disgwyliedig

Fel y nodir yn rhagair y Swyddog Cyfrifyddu i'r datganiad ymddiriedaeth, yn ystod y flwyddyn gosodwyd cosb ariannol o £200,000 ar Economy Energy. Mae Economy Energy bellach yn nwylo'r gweinyddydd. Nid yw'n sicr a gaiff y gosb ei hadennill ac felly cydnabuwyd colledion credyd disgwyliedig am y swm llawn.

## 4. Symiau taladwy a rhwymedigaethau gwariant cronedig

| | Symiau taladwy ar31 Maw 19 | Cyfanswm ar 31 Maw 19 | Cyfanswm ar 31 Maw 18 |
|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 |
| Ardoll Tanwydd Ffosil | - | - | 2 |
| **Cyfanswm** | **-** | **-** | **2** |

Symiau taladwy yw'r symiau y cadarnhawyd eu bod yn ddyledus ar ddyddiad y fantolen, ond lle y gwneir taliad wedi hynny.

## 5. Balans ar gyfrifon y gronfa gyfunol

| | 2019-20 | 2018-19 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| Balans ar gyfrifon y gronfa gyfunol ar 1 Ebrill | 75,329 | 75,548 |
| Refeniw net ar gyfer cyfrifon y gronfa gyfunol | 3,105 | 5,183 |
| Llai swm a dalwyd i'r gronfa gyfunol | (2,806) | (5,403) |
| **Balans ar gyfrifon y gronfa gyfunol ar 31 Mawrth** | **75,628** | **75,328** |

# Atodiadau



# Atodiad I
# Dangosyddion Perfformiad Allweddol

| Cystadleuaeth Effeithiol | | | |
|---|---|---|---|
| **Metrig (DPAau)** | **Manylion am yr hyn sy'n cael ei fesur** | **Targedau blynyddol gyfer 2019-20** | **Gwirioneddol** |
| Proses Trawsyrru ar y Môr | Rhoi trwydded o fewn 70 diwrnod i ddechrau ymgyngoriadau Adran 8a[5] | 70 diwrnod | 39 diwrnod (ar gyfartaledd) |
| Proses Trawsyrru ar y Môr | Dewis Cynigydd a Ffefrir o fewn 120 diwrnod i gyflwyno'r "Gwahoddiad i Dendro" (heb gynnwys y cynnig "Gorau" a "Therfynol") | 120 diwrnod | 96 diwrnod (ar gyfartaledd) |
| Ceisiadau am drwydded | Gwneud penderfyniadau ar Geisiadau am Drwydded o fewn 45 diwrnod | 100% | 100%[6] |
| Addasiadau i'r Cod | Gwneud penderfyniadau ynghylch addasiadau i'r cod o fewn 25 diwrnod (neu dri mis os "ystyrir" bod angen ymgynghoriad asesiad o'r effaith) | 90% | 29%[7] |
| Cysylltiadau cwsmeriaid | Yr amser y mae'n ei gymryd am ymateb cyntaf i gysylltiadau cwsmeriaid | 93% - 10 diwrnod gwaith | 96% |
| Chwythwyr Chwiban | Time taken for first response to whistle-blower contacts | 100% - 1 diwrnod gwaith i gael ymgysylltiad cychwynnol | 99% |

Pennir dangosyddion perfformiad allweddol ar gyfer ein cynlluniau amgylcheddol a chymdeithasol ar y cyd â'r Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol ac Adran yr Economi Gogledd Iwerddon, y cânt eu cyflawni ar eu cyfer. Bob blwyddyn, mae Ofgem yn ymrwymo i gynnal lefelau gwasanaeth penodol ar gyfer cynlluniau RHI Domestig ac Annomestig Prydain Fawr, Tariffau Cyflenwi Trydan, Rhwymedigaeth Ynni Adnewyddadwy, Rhwymedigaeth Cwmni Ynni a Gostyngiad Cartrefi Cynnes. Nodir y canlyniadau yn erbyn y rhain ar gyfer 2019-20 isod.

5 Adran 8A – Deddf Trydan 1989

6 Mae'r cyfnodau a ragnodwyd yn amrywio yn ôl y math o gais ac fe'u cyhoeddir yn y canllawiau ar wneud cais am drwydded nwy a thrydan https://www.ofgem.gov.uk/system/files/docs/2019/07/applying_for_a_gas_or_electricity_licence_-_2019_guidance_document_1.0_0.pdf

7 Ceir y ffigur hwn o ganlyniad i nifer o ffactorau, gan gynnwys blaenoriaethau croes yn Ofgem, er enghraifft gwaith ar Adolygiadau Cod Sylweddol, a nifer o benderfyniadau cymhleth y mae angen amser ychwanegol i'w hystyried.

| DPA y Cynllun Amgylcheddol a Chymdeithasol | | | |
|---|---|---|---|
| **Metrig (DPAau)** | **Manylion am yr hyn sy'n cael ei fesur** | **Targedau blynyddol gyfer 2019-20** | **Gwirioneddol** |
| Cymhelliad Gwres Adnewyddadwy Domestig (RHI Domestig) | Ymateb i ymholiadau o fewn 10 diwrnod gwaith | 100% | 79% |
| RHI Domestig Gogledd Iwerddon | Ymateb i ymholiadau o fewn 10 diwrnod gwaith | 64% | 63% |
| Rhwymedigaeth Ynni Adnewyddadwy | Ymateb i ymholiadau o fewn 10 diwrnod gwaith | 80% | 70% |
| Tariffau Cyflenwi Trydan (FIT) | Ymateb i ymholiadau o fewn 10 diwrnod gwaith | 83% | 69% |
| Rhwymedigaethau Cwmnïau Ynni (ECO) | Ymateb i ymholiadau o fewn 10 diwrnod gwaith | 58% | 83% |
| Gostyngiad Cartrefi Cynnes | Ymateb i barti o dan rwymedigaeth a gyflwynir i'r cynlluniau Gostyngiad Cartrefi Cynnes i'w gymeradwyo, o fewn 20 diwrnod | 100% | 100% |
| RHI Domestig | Sicrhau bod y system ar gael yn ystod oriau busnes | 99.74% | 99.82% |
| RHI Domestig Gogledd Iwerddon | Sicrhau bod y system ar gael yn ystod oriau busnes | 100% | 99.92% |
| RO | Sicrhau bod y system ar gael yn ystod oriau busnes | 99.97% | 99.76% |
| Tariff Cyflenwi Trydan | Sicrhau bod y system ar gael yn ystod oriau busnes | 99.80% | 99.89% |
| ECO | Sicrhau bod y system ar gael yn ystod oriau busnes | 100% | 99.91% |
| RHI Domestig Gogledd Iwerddon | Gwneud taliadau o fewn 30 diwrnod gwaith | 99.08% | 97.28% |
| Northern Ireland DRHI | Gwneud taliadau o fewn 40 diwrnod gwaith | 90.85% | 88.45% |
| RO | Cyhoeddi'r brif gyfres o Dystysgrifau Rhwymedigaeth Ynni Adnewyddadwy ar ôl dyddiad cau adrodd y cynhyrchwyr ynni ar eu hallbwn data, o fewn 17 diwrnod gwaith (Ebr-Meh) a 12 diwrnod gwaith (Gor-Maw) | 98.57% | 97.44% |
| Tariff Cyflenwi Trydan | Cwblhau'r broses "lefelu" o fewn 22 diwrnod gwaith | 95% | 100% |
| ECO | Prosesu'r mesurau a gyflwynir mewn un mis calendr erbyn y mis calendr dilynol | 100% | 100% |

# Atodiad II - **Ymchwiliadau a Chamau Gorfodi 2019-20**

Mae manylion ein hachosion ar gael ar ein gwefan[8] yn unol â'n polisi fel y'i nodir yn ein Canllawiau Gorfodi[9]. Byddwn fel arfer yn cyhoeddi manylion cryno am ffeithiau a natur yr ymchwiliadau ar ein gwefan[10], er bod polisi yn wahanol ar gyfer achosion sy'n gysylltiedig â'r Rheoliad[11] ar Uniondeb a Thryloywder y Farchnad Ynni Cyfanwerthu (REMIT)[12]. Isod ceir manylion yr ymchwiliadau a gwblhawyd gennym eleni. Mewn ymchwiliadau lle rydym wedi sicrhau taliadau unioni, gwnaeth y cwmnïau daliadau naill ai'n uniongyrchol i ddefnyddwyr a/neu i raglenni a chronfeydd a fyddai'n elwa arnynt.[13]

| Cwmni | Mater | Penderfyniad | Dyddiad y penderfyniad |
|---|---|---|---|
| UKPN | Toriad pŵer ar 9 Awst 2019. Dechreuodd UK Power Networks ailgysylltu cwsmeriaid er nad oedd Gweithredwr y System Drydan wedi gofyn i'r cwmni wneud hynny, a allai fod wedi peryglu'r broses o adfer y system. Tor-rheol technegol ydoedd. | Cam gweithredu amgen, UKPN i dalu £1.5 miliwn i gronfa taliadau unioni gwirfoddol Ofgem am dor-rheol technegol. | Ionawr 2018 |
| RWE | Colli cynhyrchu trydan ar 9 Awst 2019, ar ôl toriad pŵer. | Cam gweithredu amgen, RWE i gytuno i dalu £4.5 miliwn i gronfa taliadau unioni gwirfoddol Ofgem. | Ionawr 2020 |
| Hornsea One Ltd | Colli cynhyrchu trydan ar 9 Awst 2019, ar ôl toriad pŵer. | Cam gweithredu amgen, Hornsea One Ltd i gytuno i dalu £4.5 miliwn i gronfa taliadau unioni gwirfoddol Ofgem. | Ionawr 2020 |
| Economy Energy, E (Gas and Electricity) a Dyball Associates | Ymchwiliad i ganfod p'un a dorrwyd Pennod I o Ddeddf Cystadleuaeth 1998 o ran cytundebau nad oeddent yn gystadleuol o bosiblac arferion ar y cyd | Cafwyd gennym fod y partïon wedi torri Pennod I yn fwriadol neu drwy esgeuluster a phenderfynwyd gosod cosbau ariannol o £650,000 ar EGEL, £200,000 ar Economy Energy Trading Limited a £20,000 ar Dyball. Mae Economy Energy bellach yn nwylo'r gweinyddydd. | Gorffennaf 2019 |
| Engie Global Markets | Ymchwiliad i ganfod a oedd Engie Global Markets wedi torri Erthygl 5 (gwaharddiad ar drin y farchnad yn amhriodol) o Reoliad (UE) Rhif 1227/2011 ('REMIT') | Cyfaddefodd EGM i'r cwmni dorri Erthygl 5 o REMIT ac mae wedi cytuno i setliad cynnar. Bydd EGM yn talu cosb o £2,128,236. | Medi 2019 |
| EPEX Spot SE | Torri'r Ddeddf Cystadleuaeth (Pennod II) | Cytunodd EPEX Spot SE i ymrwymiadau i wella. Dim canfyddiadau ffurfiol | Mehefin 2019 |
| Cadent | Ymchwiliad i Cadent Gas Limited a'i gydymffurfiaeth â'i rwymedigaethau o dan ei drwydded cludwr nwy (Amodau Arbennig Safonol A40, A50 ac A55) ac, o ganlyniad i hynny, adran 9 o Ddeddf Nwy 1986 | Dim canfyddiad ffurfiol o dor-amod; caewyd yr achos drwy gam gweithredu amgen. Talodd Cadent £3 miliwn i'r Gronfa Taliadau Unioni Gwirfoddol a £3.6m mewn costau a oedd yn gysylltiedig â'r ymchwiliad ac unioni'r problemau a oedd yn gysylltiedig â'r ymchwiliad. | Mai 2019 |

[8] https://www.ofgem.gov.uk/investigations

[9] https://www.ofgem.gov.uk/system/files/docs/2017/10/enforcement_guidelines_october_2017.pdf

[10] Nid yw'r ffaith ein bod wedi agor ymchwiliad yn awgrymu bod y cwmnïau dan sylw wedi torri amodau'r drwydded neu rwymedigaethau eraill.

[11] Rheoliad 1227/2011 Senedd Ewrop a'r Cyngor Ewropeaidd 25 Hydref 2011

[12] Mae ein Canllawiau Gweithdrefnol ar gyfer REMIT ar gael yn: https://www.ofgem.gov.uk/publications-and-updates/consultation-decision-remit-penalties-statement-andprocedural-Guidelines

[13] https://energyredress.org.uk/

Isod ceir manylion y taliadau unioni a sicrhaodd Ofgem drwy gamau gweithredu amgen neu waith cydymffurfio. Mae hyn yn rhoi cyfle i gwmni unioni pethau'n gyflym i ddefnyddwyr heb i ni arfer ein pwerau gorfodi statudol.

| Cwmni | Mater | Penderfyniad | Dyddiad y penderfyniad |
|---|---|---|---|
| Utility Warehouse | Codi mwy na'r Cap ar Brisiau | Cymerwyd cam gweithredu amgen, ad-dalwyd tua £150,000, talwyd £300,000 i ddefnyddwyr yn iawndal. Talodd Utility Warehouse £200,000 i gronfa taliadau unioni gwirfoddol Ofgem. | Ionawr 2020 |
| I-Supply | Codi mwy na'r cap ar brisiau/ Safonau Ymddygiad. | Wedi cau drwy gamau gweithredu amgen. Ad-dalodd I-Supply £37,193 am godi gormod yng nghyfnod 1, a £54 am godi gormod yng nghyfnod 2. Hefyd, rhoddodd daliadau ewyllys da o £5, gwerth £30,475 i gyd, a thalodd £1.5 miliwn i gronfa taliadau unioni gwirfoddol Ofgem | Rhagfyr 2019 |
| Utilita Energy | Tangyflawni o ran rhwymedigaeth ECO3 | Wedi cau drwy gamau gweithredu amgen. Talodd Utilita £175,000 i'r Gronfa Taliadau Unioni Gwirfoddol. | Gorffennaf 2019 |
| Green Star Energy | Cydymffurfiaeth ag Amod 0 o'r Drwydded Safonol ynglŷn â Safonau Ymddygiad ac Amod 7.7 o'r Drwydded Safonol, ynglŷn â gwybodaeth i gwsmeriaid am gontractau tybiedig. | Wedi cau drwy gamau gweithredu amgen. Mae Green Star Energy wedi talu £350,000 i'r Gronfa Taliadau Unioni Gwirfoddol. | Gorffennaf 2019 |
| Shell Energy | Codi mwy na'r Cap ar Brisiau | Wedi cau drwy gamau gweithredu amgen. Cytunodd Shell i gymryd amrywiol gamau unioni. Ad-dalodd Shell y swm gormodol a godwyd i'w cwsmeriaid, sef £100,736.63. Hefyd, talodd £62,000 mewn iawndal i gwsmeriaid a oedd ar dariffau nad oeddent yn cydymffurfio â'r cap ar brisiau. Wynebodd grŵp arall o gwsmeriaid oedi cyn gostwng pris eu hynni o dan y cap ar brisiau ar ôl iddynt ofyn am newid i dariff rhatach. Mae Shell wedi cytuno i ad-dalu'r cwsmeriaid hyn a thalu £29,000 mewn iawndal a thalu £200,000 i'r Gronfa Taliadau Unioni Gwirfoddol. | Mehefin 2019 |
| Cadent | Gadawodd Cadent gwsmeriaid heb nwy am fwy o amser nag y dylai fod wedi'i wneud. Ni thalwyd iawndal i bob cwsmer dan sylw. | Cymerwyd camau gweithredu amgen. Dim canfyddiad ffurfiol o dor-amod. Wedi cau drwy gamau gweithredu amgen. Talodd Cadent £20 miliwn i gronfa ynni gymunedol, £5.9 miliwn i'r Gronfa Taliadau Unioni Gwirfoddol, bydd yn gwario £4.8 miliwn ar gostau i wella perfformiad mewn blociau o fflatiau, a £6.7m mewn iawndal, yn ôl yr amcangyfrif. | Mai 2019 |
| SSE | Methodd SSE â chyrraedd ei darged i osod mesuryddion deallus ar gyfer ei gwsmeriaid y llynedd (2018). | Wedi cau drwy gamau gweithredu amgen, talodd SSE £700,000 i'r Gronfa Taliadau Unioni Gwirfoddol | Ebrill 2019 |

| Cwmni | Mater | Penderfyniad | Dyddiad y penderfyniad |
|---|---|---|---|
| Shell Energy Retail (a oedd yn masnachu fel First Utility ar y pryd) | Codi tâl ar gwsmeriaid am fil papur (SLC21B.8) | Cymerwyd camau gweithredu amgen. Talodd Shell Energy £100,000 i'r Gronfa Taliadau Unioni Gwirfoddol. | Gorffennaf 2019 |
| Shell Energy Retail (a oedd yn masnachu fel First Utility ar y pryd) | Darparu cyfriflenni blynyddol i gwsmeriaid (SLC 31A.9) ac, o ganlyniad, ni allai cwsmeriaid wnneud dewisiadau hyddysg (Safonau Ymddygiad), biliau terfynol hwyr (SLC27.17) a threfniadau diffygiol ar gyfer gwasanaeth cwsmeriaid (SoC). | Cymerwyd camau gweithredu amgen. Ad-dalwyd £224,864.82, talwyd £116,330 fel taliadau ychwanegol i gwmseriaid a thalwyd £198,106 i'r Gronfa Taliadau Unioni Gwirfoddol. | Gorffennaf 2019 |
| Ovo Energy | Ar ôl SoLR Spark Energy, daethom yn ymwybodol bod Ovo wedi derbyn taliadau adnau gwarant gan rai o'i gyn-gwsmeriaid (y rhai ar gredyd safonol, sy'n talu ôl-ddyledion yn hytrach na thrwy Ddebyd Uniongyrchol). Nid oedd cwsmeriaid yn sylweddoli bod eu taliadau diweddaraf yn cael eu defnyddio at y diben hwn yn hytrach na'u defnyddio i dalu eu bil ynni ac felly cawsant eu trin fel pe baent mewn dyled. | Cymerwyd camau gweithredu amgen. Ad-dalwyd £469,081.36 a thalwyd swm arall o £173,310 mewn iawndal i gwsmeriaid. | Gorffennaf 2019 |

Yn ogystal â hyn, cafodd 20 achos arall a oedd yn ymwneud â chydymffurfiaeth eu datrys drwy ad-dalu arian, rhoi iawndal a/neu daliadau unioni, gan arwain at y canlynol; (noder bod mân amrywiant oherwydd talgrynnu)

| Math o effaith | Gwerth |
|---|---|
| Ad-daliadau i gwsmeriaid | £101,000 |
| Taliadau iawndal i ddefnyddwyr | £169,000 |
| Taliadau unioni i'r Gronfa Taliadau Unioni Gwirfoddol | £6,000 |
| **Cyfanswm** | **£275,000** |

### Achosion agored

Isod ceir yr ymchwiliadau agored fel yr oeddent ar ddiwedd mis Mawrth 2020. Noder, nid yw agor ymchwiliad yn awgrymu ein bod wedi gwneud unrhyw ganfyddiad(au) ynghylch diffyg cydymffurfiaeth. Nid yw Ofgem yn cyhoeddi gwybodaeth am bob ymchwiliad agored, yn arbennig pan fydd Ofgem yn cynnal ymchwiliadau i achosion posibl o fethu â chydymffurfio â gofynion REMIT. Fel rheol, nid ydym yn rhoi sylwadau pellach ar yr ymchwiliadau hyn, gan gynnwys pwy rydym yn ymchwilio iddo, oni chredwn fod angen gwneud hynny er budd defnyddwyr neu hyder y farchnad.

| Cwmni | Dyddiad Agor | Mater |
|---|---|---|
| Western Power Distribution | Chwefror 2020 | Ymchwiliad i Western Power Distribution plc a'i gydymffurfiaeth â rhwymedigaethau sy'n ymwneud â'r Gofrestr Gwasanaethau â Blaenoriaeth. |
| National Grid Electricity Transmission plc and SP Transmission plc | Ionawr 2020 | Ymchwiliad i ganfod a dorrodd National Grid Electricity Transmission plc a SP Transmission plc amodau eu trwyddedau a rhwymedigaethau statudol mewn perthynas â darparu a gweithredu cyswllt tanfor Western High Voltage Direct Current ("WHVDC") rhwng yr Alban a Chymru. |
| Utilita | Ionawr 2020 | Ymchwiliad i ganfod a dorrodd Utilita amod 28A o'i drwydded, sy'n ymwneud â'r cap ar brisiau i gwsmeriaid mesuryddion rhagdalu. |
| Gweithredwr System Drydan y Grid Cenedlaethol | Awst 2019 | Ymchwiliad i doriad pŵer ar 9 Awst 2019. |
| Y Grid Cenedlaethol | Mai 2018 | Ymchwiliad i National Grid Electricity Transmission (NGET) a'i gydymffurfiaeth â'i rwymedigaethau o dan Amod Trwydded Safonol 16 o'r Drwydded Trawsyrru |
| Utility Warehouse | Mehefin 2018 | Ymchwiliad i gydymffurfiaeth Utility Warehouse ag Amodau Trwydded Safonol 25C/0, 27.5, 27.8 a 28B o'r Drwydded Cyflenwi Trydan a'r Drwydded Cyflenwi Nwy. Ehangwyd cwmpas yr achos i gynnwys SLC 32A ym mis Hydref 2019. |
| Heb ei ddatgelu | Gorffennaf 2017 | Ymchwiliad i ganfod a yw gofynion Pennod II o Ddeddf Cystadleuaeth 1998 a/neu Erthygl 102 o Gytuniad ar Weithrediad yr Undeb Ewropeaidd wedi cael eu torri mewn perthynas â chamddefnydd posibl o sefyllfa flaenllaw gan gwmni sy'n darparu gwasanaethau i'r diwydiant ynni. |
| Ovo Energy | Chwefror 2018 | Ymchwiliad i ganfod a yw Ovo wedi cydymffurfio ag Amodau Trwydded Safonol 31A a 25C/0 mewn perthynas â gwybodaeth am filiau, cyfriflenni a Datganiadau Blynyddol. Ehangwyd yr ymchwiliad ym mis Hydref 2018 i gynnwys SLC 22C, SLC 26, a SLC 27 ac unwaith eto ym mis Awst 2019 i gynnwys SLC 28A. |

### Gorchmynion Dros Dro

Rhoddir isod fanylion y gorchmynion dros dro a roddwyd yn ystod y flwyddyn rhwng mis Ebrill 2019 a mis Mawrth 2020. Rhoddwyd pedwar gorchymyn dros dro i Foxglove, Breeze Energy, Nabuh Energy a Solarplicity Supply Ltd. Gwelsom gynnydd yn nifer yr achosion o beidio â chydymffurfio ar gynlluniau Tariff Cyflenwi Trydan a Rhwymedigaeth Ynni Adnewyddadwy E-Serve.

| Gorchymyn dros dro a roddwyd | Cwmni | Pryder |
|---|---|---|
| Chwefror 2020 | Foxglove | Nododd Foxglove y byddai'n methu â chydymffurfio â chyfarwyddyd yr Awdurdod i wneud ei Daliad lefelu Tariff Cyflenwi Trydan ac yn mynd yn groes i SLC 33. |
| Hydref 2019 | Breeze Energy | Methiant i wneud taliad Rhwymedigaeth Ynni Adnewyddadwy. |
| Hydref 2019 | Nabuh Energy | Methiant i wneud taliad Rhwymedigaeth Ynni Adnewyddadwy. |
| Mai 2019 | Solarplicity Supply Ltd | Methiant i wneud taliadau i gynhyrchhwyr Tariff Cyflenwi Trydan |

Rydym hefyd wedi nodi canlyniadau'r Gorchmynion Dros Dro a ddaeth i ben yn ystod y cyfnod hwn. Daeth dau orchymyn dros dro (npower a Solarplicity Supply Ltd) a osodwyd yn y flwyddyn adrodd flaenorol i ben eleni.

| Gorchymyn Dros Dro a ddaeth i ben | Cwmni | Canlyniad y Gorchymyn Dros Dro |
|---|---|---|
| Chwefror 2020 | Foxglove | Gwnaeth Foxglove y Taliad Lefelu Tariff Cyflenwi Trydan ar gyfer Blwyddyn 10 Chwarter 3 yn llawn, erbyn y terfyn amser. Diddymwyd y Gorchymyn Dros Dro am fod Foxglove wedi talu'r swm dyledus. |
| Ionawr 2020 | Breeze Energy | Peidiodd Breeze Energy â masnachu. Diddymwyd trwydded Breeze Energy ar 22 Rhagfyr 2019. O ganlyniad, nid yw'r gorchymyn dros dro a roddwyd i Breeze Energy yn weithredol mwyach. |
| Tachwedd 2019 | Nabuh Energy | Diddymwyd y Gorchymyn Dros Dro am fod Nabuh wedi talu'r taliad a oedd yn weddill i gyflawni ei Rwymedigaeth Ynni Adnewyddadwy. |
| Awst 2019 | Solarplicity Supply Ltd | Peidiodd Solarplicity â masnachu. Diddymwyd trwydded Solarplicity ar 17 Awst 2019. O ganlyniad, nid yw'r Gorchymyn Dros Dro a roddwyd i Solarplicity Supply Limited yn weithredol mwyach. Ni wnaeth Solarplicity ei daliad Tariff Cyflenwi Trydan. Byddwn yn ceisio hawlio'r taliad Tariff Cyflenwi Trydan drwy'r gweinyddydd. |
| Mai 2019 | npower | Diddymwyd y Gorchymyn Dros Dro. Dangosodd npower ei fod wedi cydymffurfio â SLC 32A. |
| Mai 2019 | Solarplicity Supply Ltd | Penderfynwyd peidio â chadarnhau'r Gorchymyn Dros Dro oherwydd perfformiad gwell Solarplicity a'i ymrwymiad i gymryd camau eraill. |

### Gorchmynion Terfynol

Nodir isod fanylion y gorchmynion terfynol a roddwyd yn ystod y flwyddyn rhwng mis Ebrill 2019 a mis Mawrth 2020. Rhoddwyd saith gorchymyn terfynol i'r cyflenwyr a nodir isod.

| Gorchymyn Terfynol a roddwyd | Cwmni | Pryder |
|---|---|---|
| Ionawr 2020 | Symbio | Methiant i ddod yn Ddefnyddiwr DCC. |
| Ionawr 2020 | Euston Energy (trading as Northumbria Energy) | Methiant i ddod yn Ddefnyddiwr DCC. |
| Ionawr 2020 | Entice Energy | Methiant i ddod yn Ddefnyddiwr DCC. |
| Ionawr 2020 | Daligas Ltd | Methiant i ddod yn Ddefnyddiwr DCC. |
| Ionawr 2020 | Enstroga Ltd | Methiant i ddod yn Ddefnyddiwr DCC. |
| Hydref 2019 | Gnergy Ltd | Methiant i wneud taliad Rhwymedigaeth Ynni Adnewyddadwy. |
| Ebrill 2019 | Avro Energy | Methiant i ddod yn Ddefnyddiwr DCC. |

Yn ogystal â hyn, rhestrir isod fanylion am yr hysbysiadau ymgynghori ar gyfer Gorchymyn Terfynol lle na roddwyd un gennym.

| Dyddiad codi ymgynghoriad | Cwmni | Pryder | Canlyniad |
|---|---|---|---|
| Ionawr 2020 | UK National Gas Ltd | Methiant i ddod yn Ddefnyddiwr DCC. | Roedd UK National Gas wedi cwblhau darpariaethau SEC ar gyfer Proses Dod yn Ddefnyddiwr DCC ar 28 Ionawr 2020. |
| Ionawr 2020 | Better Energy | Methiant i ddod yn Ddefnyddiwr DCC. | Gofynnodd Better Energy am i'w drwyddedau trydan a nwy gael e diddymu. |
| Ionawr 2020 | Ampower Ltd | Methiant i ddod yn Ddefnyddiwr DCC. | Roedd Ampower wedi cwblhau darpariaethau SEC ar gyfer Proses Dod yn Ddefnyddiwr DCC ar 16 Ionawr 2020. |
| Ionawr 2020 | Green Supplier Ltd | Methiant i ddod yn Ddefnyddiwr DCC. | Roedd Green Supplier wedi cwblhau darpariaethau SEC ar gyfer Proses Dod yn Ddefnyddiwr DCC ar 17 Chwefror 2020. |
| Hydref 2019 | Toto Energy | Methiant i gyflawni ei Rwymedigaethau Ynni Adnewyddadwy | Peidiodd Toto Energy Ltd â masnachu ar 23 Hydref 2019. Mae'r Awdurdod wedi penderfynu peidio â rhoi Gorchymyn Terfynol. |
| Hydref 2019 | Delta Gas and Power Limited | Methiant i gyflawni ei Rwymedigaeth Ynni Adnewyddadwy | Gwnaeth Delta Gas a Power Ltd daliad llawn am ei Rwymedigaeth Ynni Adnewyddadwy ar gyfer 2018-19, gan gynnwys pob llog cymwys, a thrwy hynny sicrhau cydymffurfiaeth â'i Rwymedigaeth Ynni Adnewyddadwy ar gyfer 2018-19. Ni roddwyd Gorchymyn Terfynol am ei fod wedi cydymffurfio â'r rhwymedigaeth. |
| Hydref 2019 | Robin Hood Energy Limited | Methiant i gyflawni ei Rwymedigaeth Ynni Adnewyddadwy | Gwnaeth Robin Hood Engergy Ltd daliad llawn am ei Rwymedigaeth Ynni Adnewyddadwy ar gyfer 2018-19, gan gynnwys pob llog cymwys, a thrwy hynny sicrhau cydymffurfiaeth â'i Rwymedigaeth Ynni Adnewyddadwy ar gyfer 2018-19. Ar 29 Hydref 2019, penderfynwyd peidio â gwneud Gorchymyn Terfynol. |

| Final Order (FO) ended | Company | Outcome from FO |
|---|---|---|
| Hydref 2019 | URE Energy Ltd | Ni wnaeth URE y taliad a oedd yn ddyledus ar gyfer ei Rwymedigaeth Ynni Adnewyddadwy. Cyflwynwyd Hysbysiad methiant i gydymffurfio gyda gorchymyn terfynol, a roddodd dri mis i URE gydymffurfio. Diddymwyd ei drwydded ar 14 Medi 2019. |
| Awst 2019 | Avro Energy | Cymerodd Avro yr holl gamau angenrheidiol i ddod yn Ddefnyddiwr DCC. Bodlonodd y gofynion a nodwyd yn y Gorchymyn Terfynol. Diddymwyd y Gorchymyn Terfynol. |

# Atodiad III
# Penodeion nad ydynt ar y gyflogres

**Ymrwymiadau nad ydynt ar y gyflogres ar 31 Mawrth, sy'n costio mwy na £245 y diwrnod ac yn para am fwy na chwe mis.**

Mae'r tabl canlynol yn crynhoi'r sefyllfa ar ymrwymiadau nad ydynt ar y gyflogres ar 31 Mawrth 2020.

| **Nifer yr ymrwymiadau presennol ar 31 Mawrth 2020** | **16** |
|---|---|
| O'r cyfanswm hwnnw: | |
| Nifer yr ymrwymiadau sydd wedi bodoli am lai na blwyddyn ar adeg adrodd. | 16 |
| Nifer yr ymrwymiadau sydd wedi bodoli am gyfnod rhwng blwyddyn a dwy flynedd ar adeg adrodd. | 0 |
| Nifer yr ymrwymiadau sydd wedi bodoli am gyfnod rhwng dwy a thair blynedd ar adeg adrodd. | 0 |
| Nifer yr ymrwymiadau sydd wedi bodoli am gyfnod rhwng tair a phedair blynedd ar adeg adrodd. | 0 |
| Nifer yr ymrwymiadau sydd wedi bodoli am bedair blynedd neu fwy ar adeg adrodd. | 0 |

**Ymrwymiadau newydd nad ydynt ar y gyflogres, neu'r rhai sydd wedi para am chwe mis, rhwng 1 Ebrill 2019 a 31 Mawrth 2020, sy'n costio mwy na £245 y diwrnod ac sy'n para am fwy na chwe mis.**

| **Nifer yr ymrwymiadau newydd, neu'r rhai sydd wedi para chwe mis, rhwng 1 Ebrill 2019 a 31 Mawrth 2020** | **16** |
|---|---|
| O'r cyfanswm hwnnw: | |
| Y nifer yr aseswyd eu bod yn dod o dan IR35 | 1 |
| Y nifer yr aseswyd nad ydynt yn dod o dan IR35 | 15 |
| Y nifer a gyflogir yn uniongyrchol (drwy PCS o dan gontract i adran) ac sydd ar gyflogres yr adran. | 0 |
| Nifer yr ymrwymiadau a ailaseswyd at ddiben cysondeb / sicrwydd yn ystod y flwyddyn. | 0 |
| Nifer yr ymrwymiadau a welodd newid i statws IR35 ar ôl yr adolygiad o gysodeb | 0 |

**Ymrwymiadau aelodau'r bwrdd nad ydynt ar y gyflogres, a/neu uwch-swyddogion â chyfrifoldeb ariannol sylweddol, rhwng 1 Ebrill 2019 a 31 Mawrth 2020.**

| | |
|---|---|
| Nifer ymrwymiadau aelodau'r bwrdd nad ydynt ar y gyflogres, a/neu uwch-swyddogion â chyfrifoldeb ariannol sylweddol, yn ystod y flwyddyn ariannol. | 0 |
| Cyfanswm nifer yr unigolion sydd ar y gyflogres ac nad ydynt ar y gyflogres y tybiwyd eu bod yn aelodau bwrdd, a /neu uwch-swyddogion â chyfrifoldeb ariannol sylweddol yn ystod y flwyddyn. | 2 |

# Atodiad IV
# Amser cyfleuster undeb llafur

**Tabl 1**
**Swyddogion Undeb Perthnasol**

Beth oedd cyfanswm nifer eich cyflogeion a oedd yn swyddogion undeb perthnasol yn ystod y cyfnod perthnasol?

| Nifer y cyflogeion a oedd yn swyddogion undeb perthnasol yn ystod y cyfnod perthnasol | Nifer y cyflogeion cyfwerth ag amser llawn |
|---|---|
| 16 | 930 |

**Tabl 2**
**Canran yr amser a dreuliwyd ar amser cyfleuster**

Faint o'ch cyflogeion a oedd yn swyddogion undeb perthnasol a gyflogwyd yn ystod y cyfnod perthnasol, wnaeth dreulio a) 0%, b) 1%-50%, c) 51%-99% neu d) 100% o'u horiau gwaith ar amser cyfleuster?

| Canran yr amser | Nifer y Cyflogeion |
|---|---|
| 0% | 0 |
| 1-50% | 16 |
| 51-99% | 0 |
| 100% | 0 |

**Tabl 3**
**Canran y bil cyflogau a wariwyd ar amser cyfleuster**

Nodwch y ffigurau y gofynnir amdanynt yng ngholofn gyntaf y tabl i bennu canran cyfanswm eich bil cyflogau a wariwyd ar dalu cyflogeion a oedd yn swyddogion undeb perthnasol am amser cyfleuster yn ystod y cyfnod perthnasol.

| | |
|---|---|
| Cyfanswm cost amser cyfleuster | £13,697 |
| Cyfanswm y bil cyflogau | £64,966K |
| Canran cyfanswm y bil cyflogau a wariwyd ar amser cyfleuster | 0.02% |

**Tabl 4**
**Gweithgareddau undeb llafur â thâl**

Fel canran o gyfanswm yr oriau amser cyfleuster â thâl, sawl awr a dreuliwyd gan gyflogeion a oedd yn swyddogion undeb perthnasol yn ystod y cyfnod perthnasol ar weithgareddau undeb llafur â thâl?

| | |
|---|---|
| Amser a dreuliwyd ar weithgareddau undeb llafur â thâl fel canran o gyfanswm yr oriau amser cyfleuster â thâl, wedi'i chyfrifo fel a ganlyn: (cyfanswm yr oriau a dreuliwyd gan swyddogion undeb perthnasol ar weithgareddau undeb perthnasol â thâl yn ystod y cyfnod perthnasol ÷ cyfanswm amser cyfleuster â thâl | 25% |

# Atodiad V
# Gofynion statudol o dan Adran V o Ddeddf Cyfleustodau 2000

Mae Adran 5(1) o Ddeddf Cyfleustodau 2000 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod gyflwyno adroddiad i'r Ysgrifennydd Gwladol bob blwyddyn ar y canlynol:

- gweithgareddau'r Awdurdod yn ystod y flwyddyn;
- gweithgareddau'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd yn ystod y flwyddyn honno mewn perthynas ag unrhyw gyfeiriad a wneir ato gan yr Awdurdod.

Adroddir ar weithgareddau'r Awdurdod yn ystod y flwyddyn drwy'r adroddiad cyfan hwn. Ni wnaeth yr Awdurdod unrhyw gyfeiriadau at yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd y mae angen adrodd arnynt.

Mae Adran 5(2) o Ddeddf Cyfleustodau 2000 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod gynnwys y canlynol yn ei adroddiad blynyddol:

- Arolwg cyffredinol o ddatblygiadau mewn perthynas â materion a ddaw o dan swyddogaethau'r Awdurdod, gan gynnwys, yn benodol, datblygiadau mewn cystadleuaeth rhwng personau sy'n ymwneud â'r canlynol neu â gweithgareddau masnachol sy'n gysylltiedig â'r canlynol:
  - morgludo, cludo neu gyflenwi nwy drwy bibellau;
  - cynhyrchu, trawsyrru, dosbarthu neu gyflenwi trydan;
    **(Cyfeirir at y datblygiadau hyn yn yr Adroddiad ar Berfformiad)**
- Adroddiad ar gynnydd y prosiectau a ddisgrifir yn y flaenraglen waith ar gyfer y flwyddyn honno;
  **(Rhoddir adroddiad ar gynnydd yn yr Adroddiad ar Berfformiad)**
- Crynodeb o'r gorchmynion terfynol a'r gorchmynion dros dro a wnaed gan yr Awdurdod yn ystod y flwyddyn honno;
  **(Mae hwn ar gael yn Atodiad II)**
- Crynodeb o'r cosbau a osodwyd gan yr Awdurdod yn ystod y flwyddyn honno;
  **(Mae hwn ar gael yn Atodiad II)**
- Crynodeb o unrhyw hysbysiadau terfynol a roddwyd gan yr Awdurdod yn unol â REMIT yn ystod y flwyddyn honno;
  **(Mae hwn ar gael yn Atodiad II)**
- Adroddiad ar unrhyw gyfryw faterion eraill ag a all fod yn ofynnol gan yr Ysgrifennydd Gwladol o bryd i'w gilydd.

Mae Adran 5(2A) o Ddeddf Cyfleustodau 2000 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod gynnwys adroddiad ar y canlynol yn ei adroddiad blynyddol

(a) y ffyrdd y mae'r Awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 132(1) a (2) o Ddeddf Ynni 2013 mewn perthynas â datganiad strategaeth a pholisi a ddynodwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol (i'r graddau yr oedd y dynodiad datganiadau mewn grym am y flwyddyn gyfan neu ran ohoni);

(b) i ba raddau y mae'r Awdurdod wedi gwneud yr hyn a nodir mewn blaenraglen waith neu ddogfen arall fel y pethau roedd yr Awdurdod yn bwriadu eu gwneud yn ystod y flwyddyn wrth roi ei strategaeth ar waith ar gyfer datblygu'r gwaith o gyflawni'r canlyniadau polisi yn y datganiad strategaeth a pholisi.

**(Nid yw'r Ysgrifennydd Gwladol wedi dynodi datganiad strategaeth a pholisi sy'n gymwys ar gyfer y flwyddyn adrodd hon)**

Mae Adran 5(3) o'r Ddeddf Cyfleustodau yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod nodi yn ei adroddiad blynyddol unrhyw gyfarwyddiadau cyffredinol a roddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol yn unol ag a34(3) o Ddeddf Nwy 1986 neu a47(2) o Ddeddf Trydan 1989

**(Nid yw'r Ysgrifennydd Gwladol wedi gwneud unrhyw gyfarwyddiadau cyffredinol o'r fath)**